

ECO'R WYDDFA

Rhif 127

GORFFENNAF - AWST

Pris 20c

PLISMON LLEOL PRIF DDALIWR GWLEDYDD PRYDAIN!

Nag oes, does dim dianc rhag yr heddlu. Ond nid cyfeirio a wna'r pennawd bachog (maddeuwch y chwarae â geiriau) at ddal drwg-weithredwyr ond yn hytrach at y gwaith llawer mwy hamddenol o ddal pysgod.

Dychwelodd Tlws Prydeinig, Pysgota Plu Cymdeithas Athletau'r Heddlu yn ôl i Gymru am yr ail waith diolch i ddau o fro'r Eco. Bu P.C. Oscar Evans, Bethel, Swyddog Cyswllt yr Heddlu a P.C. Brian Evans gynt o Clegir yn cynrychioli Cymru ar Lyn Monteith ger Stirling yn yr Alban yn ddiweddar.

Cafodd Oscar lwyddiant ysgubol gan iddo ennill y bencampwriaeth unigol gyda 6 physgodyn yn pwysu cyfanswm o 12 pwys 3 owns. Ef hefyd enillodd y tlws am y pysgodyn unigol trymaf, brithyll 3 pwys 7 owns.

Doedd dim un o'r 8 tîm arall yn agos i'r cyfanswm o 16 o bysgod a ddaliwyd gan dim Cymru, chwech yr un i Oscar a Brian.

Mewn ateb i beth oedd cyfrinach y llwyddaint dywedodd Oscar "Cymryd digon o amser i edrych ar y llyn er dewis y lecyn goreu." Dipyn o hen bry' ddywedwn ni.



Y Pencampwr - Oscar Evans

PRYDER YNGLŶN Â PHENODIAD

Ddiwedd Mai penodwyd athro di-Gymraeg fel pennaeth adran Ffiseg Ysgol Uwchradd Brynrefail. O ganlyniad, mae rhieni disgyblion sy'n dilyn Ffiseg ac Electroneg drwy gryfwrng y Gymraeg yn bryderus. Mynegwyd y pryder mwyaf gan rieni y rhai hynny sydd ar ganol cyrsiau Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd yn y ddau bwnc.

Mae athrawon yr ysgol a nifr eraill o rieni disgyblion nad ydynt yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol ar hyn o bryd, hefyd yn anfodlon nad yw'n bosibl 'nawr sicrhau dilyniant dwyieithog effeithiol oedd wedi eifdatblygu yn yr adran arbennig hon o'r ysgol.

Deallwn fod darpariaeth wedi ei gwneud ar gyfer y rhai sydd ar fin mynd i'r pumed dosbarth i gwblhau eu cyrsiau TGAU mewn Ffiseg ac Electroneg drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd Ymgynghorydd Gwyddoniaeth y Sir yn dod i'r ysgol yn arbennig i'w dysgu. Ond cyfaddefodd y prifathro, Mr Elfyn Thomas, mai dros dro yn unig y bydd y trefniant yma. Nid oes sicrwydd bod darpariaeth dwyieithog yn y pwnc, er enghraifft, ar gyfer y rhai fydd eisiau ei ddilyn yn y chweched o Fedi nesaf.

Mae'r pennaeth ffiseg newydd, sy'n frodor o Fiwmares, yn barod i ddysgu'r Gymraeg gyda'r bwriad o ddefnyddio'r iaith fel cyfrwng dysgu

ym Mrynrefail rhywbryd yn y dyfodol.

Croesawyd y penodiad gan rai fel un a fyddai'n sicrhau bodolaeth a safon y pwnc yn Ysgol Brynrefail mewn dyddiau pan mae athrawon Ffiseg yn gyffredinol brin.

Penodwyd yr ymgeisydd arall a gyfwelwyd am y swydd ym Mrynrefail yn bennaeth adran Ffiseg Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda brynhawn yr un diwrnod. Mae'n Gymro Cymraeg.

Mae'r penodiad (ac nid yr unigolyn a benodwyd a olygir wrth hyn) a'i holl oblygiadau a'r anghysondeb sy'n bodoli ym mholisiau apwyntio Brynrefail yn arbennig, ac Awdurdod Addysg Gwynedd yn gyffredinol, wedi eu beirniadu'r gryf mewn sawl llythyr at y Cyfarwyddwr Addysg, Prifathro a Llywodraethwyr Ysgol Brynrefail. Daethpwyd â'r achos i sylw Dafydd Wigley a'r cyfryngau.

Mae'r trafodaethau a'r gohebu'n parhau.

ADEILAD PERYGLUS PWYLLGOR YN APELIO AM GYDWEITHREDIAD



"Cadwch draw". Dyna yw rhybudd Pwyllgor Canolfan Llanberis i'r cyhoedd yn dilyn adroddiad cynhwysfawr diweddar ar gyflwr yr estyniad i'r ganolfan. Yn ôl yr adroddiad, a baratowyd gan gwmni o beirianyddwyr ymgynghorol, mae'r adeilad yn beryglus ac o'r herwydd, mae ymdrechion y Pwyllgor i'w yswirio wedi bod yn aflwyddiannus. Hawdd iawn deall eu pryder pan ystyrir y bydd cymaint o brysurdeb yn ei gyffiniau yn ystod gwyliau'r haf ac yn arbennig yn ystod carnifal y pentref.

Bu'n rhaid cau'r estyniad i'r ganolfan ar Chwfror 3, eleni - gweithred a fu'n destun syndod (ym 1984 y'i codwyd) a siom i drigolion Llanberis a'r cylch. Gwnaethpwyd hyn ar sail adroddiad ysgrifenedig Shepherd Gilmour, partneriaeth o beirianyddwyr ymgynghorol sydd ag enw da iddynt yn eu maes. Hwylafodd y gwaith fis ynghynt o ystyried addasrwydd y mur talcen deheuol ar gyfer wal ddringo. Gwelai'r pwyllgor y byddai atyniad o'r fath yn hynod boblogaidd ac yn ffordd o chwyddo'r coffrau.

Ond, yn ôl arolwg cyntaf y bartneriaeth, nid oedd y wal wedi ei hadeiladu "i gyd-fynd â rheolau adeiladu" a'u hargymhelliad oedd na ddylid, ar sail diogelwch, defnyddio'r adeilad.

Tra'r oedd yr estyniad wedi ei gau i'r cyhoedd aeth y peirianyddwyr ati mewn ffordd fanwl a thechnegol i archwilio'r lle. Ymhenn tua deufis, roeddwynt wedi paratoi adroddiad swmpus ar eu gwaith.

Dengys yr adroddiad yn glir fod yr estyniad i'r ganolfan mewn gwaeth cyflwr nag a feddyliodd neb. Maent yn mynd ati i restru'r beiau, ac ymhlith y rhai mwyaf difrifol y mae'r ffaith nad yw'r waliau talcen (a elwir ganddynt yn "baneli brics") wedi eu clymu i'r fframwaith ddur o gwbl nac i'r waliau eraill, a hynny mewn mwy nag un man. Dyna hefyd - yw hanes y waliau ochr - "heb eu clymu'n effeithiol" yn ôl yr adroddiad.

Nodi'r hefyd bod gwaith blêr wedi ei wneud rhwng pen y waliau a'r to, sy'n golygu fod rhan o'r to yn pwysu'n ormodol ar fan na ddylai.

"Mae'r arolwg wedi dangos yn glir fod y ddwy wal ochr a'r wal dalcen ddeheuol wedi eu his-gynllunio a'r olaf yn bell o dan y safon."

Ni fuasai'n gwrthsefyll gwyntoedd y dylai adeilad o'r fath eu gwrthsefyll. Felly ".....nid yw'r adeilad hwn yn cyd-ymffurfio â Rheolau Adeiladu 1976 Rhan D - ac nid yw'n cyd-ymffurfio chwaith â Rheolau Adeiladu cyfredol 1985," yn enwedig y rhannau hynny sy'n ymwneud â'r gofynion ynglŷn â sadrwydd adeiladwaith.

Ar Fehefin 10, anfonwyd copi o'r adroddiad gan gyfreithwyr Pwyllgor y ganolfan i'r pump corff oedd yn gyfrifol am godi'r estyniad, sef Y Peirianyddwyr Cynllunio; Penseiri; Y Syrffwyr; Y Maintfesuwr a Chyngor Arfon. Gofynnwyd am sylwadau bob un ohonynt o fewn tair wythnos.

Er y bod pobl Llanberis a'r cylch yn colli'r defnydd o'r rhan yma o'r ganolfan (a hynny ar ôl aros cyhŷd) am amser amhenodol, mae lle i ddiolch fod aelodau'r pwyllgor, sydd hefyd yn teimlo'r golled, wedi gweithredu'n briodol drwy roddi blaenoriaeth i ddiogelwch y cyhoedd drwy'r holl ddatblygiadau.

Dymuna sywddogion y pwyllgor ddiolch i Claude Davies, un o bartneriaid Shepherd Gilmour a dringwr profiadol, am ei waith ar y dechrau a arweiniodd at archwiliad trylwyr o'r estyniad ac yna at yr adroddiad.

Apelia swyddogion y pwyllgor am gyd-weithrediad y cyhoedd. Er mor gadarn yr ymddangosa, ni ellir pwysleisio gormod pa mor beryglus yw'r estyniad.

Yn y llun mae swyddogion pwyllgor y ganolfan Trefor Edwards, John Gwyn Williams a Meirion Evans yn trafod y wal ddiffygiol nepell oddi wrthi.

ECO'R WYDDFA

RHIF 127
GORFF-AWST 1987

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:

Twrog Jones, Pros Kairon,
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU:

Dafydd Whiteside Thomas,
Bron-y-Nant, Pontrhythallt, Llanrug.
(C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION PENTREFI:
Amranwen Lynch, Gwyddfor,
Penisarwaun (Llanberis 870575).

GOLYGYDD CHWARAEON: Dafydd
Evans, Sycharth, Penisarwaun
(Llanberis 872407)

DYDDIADUR Y MIS: Mrs Olwen
Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug.
(Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFYDD: Gwyndaf Jones,
60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669).
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug. (C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn
Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug. (C'fon. 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed. 870580.

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen. (Caernarfon 3536)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glarafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W.O. Williams 6 Rhyd
fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D.J. Thomas, 8 Maes
Eilian. (870773)

LLANBERIS: Iola Sellers, 13 Dôl
Elidir, Llanberis.

LLANRUG: Mrs Gillian Morris,
Annedd Wen, Tal-y-bont.
(Caernarfon 76075)

NANT PERIS: Mrs Mary Ff. Roberts,
Cerrig-y-drudion, Nant Peris.
(871327)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth, (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn (Waunfawr 626)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

Medi 3

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS FAWRTH

Awst 25
os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

DIOLCH AM HAELIONI

Annwyl Olygydd,

Ers tua chwe blynedd bu Pwyllgor yr
Arennau Llanberis a'r Cylch yn casglu
arian tuag at waith ymchwil i Afiechydon
sy'n gysylltiedig â'r arenau. Yn y
gorffennol trosglwyddwyd £2,000 i
Ysbytai Lerpwl a Glan Clwyd. Ein
bwiad hefyd oedd cyfrannu tuag at
Uned leol yn Ysbyty Gwynedd pan y'i
sefydlwyd. Erbyn hyn mae'r Uned mewn
bodolaeth o dan arweiniad Dr.
Bloodworth. Bu'r Pwyllgor mewn
cysylltiad ag ef yn ddiweddar a
phenderfynwyd defnyddio'r arian, sef
£3,000, i bwrcasu peiriant ar gyfer
triniaeth 'Peritoneal-Dialysis'. Nid pawb
all dderbyn triniaeth 'Hemo-Dialysis',
sef puro'r gwaed. Gyda'r peiriant
'Peritoneal-Dialysis' mae hylif arbennig
yn mynd i'r stumog a thrwy hynny yn
puro'r corff. Aiffy driniaeth ymlaen dros
nos tra mae'r person yn cysgu. Mae hyn
yn ei alluogi i fyw bywyd llawnach.

Arbenigrwyd y peiriant yma yw ei fod
yn un cyfrifiadurol, felly fe all y driniaeth
fynd yn ei flaen yn gwbl annibynol o ofal
nyrsus. Un peiriant yn unig sydd yn yr
ysbyty, wedi ei brynu drwy haelioni rhai
o drigolion Gwynedd, ac mae yn costio
oddeutu £5,000.

Dymuna Dr Bloodworth pe bai
ganddo beiriant arall o'r math. Cyn bo
hir fe drosglwyddir y swm o £3,000 i'r
meddyg tuag at brynu'r Peiriant. Fe
hoffai'r Pwyllgor pe baent wedi gallu
rhoi y £5,000 yn gyfan gwbl iddo. Os
hoffai unrhyw un gyfrannu at y Gronfa
cysyllter â Mrs Eiddwen Thomas
(Trysorydd), 9 Stryd y Ffynnon,
Llanberis, (Ffôn 872274) neu Mrs Jane
Roberts (Ysgrifennydd), 'Rallt Isaf,
Llanberis (Ffôn: 871561).

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch o galon i
chwi am eich haelioni ac am bob cymorth
yn y gorffennol.

Yn ddiffuant iawn,
Jane Roberts.

APÊL YMCHWIL Y GALON

Cynhaliwyd casgliad Apêl
Ymchwil y Galon o ddydd 8fed o Fehefin
hyd 18fed o Fehefin, ac
mae pwyllgor Cangen Caernarfon
a'r Cylch yn ddiolchgar i bawb o'r
casglwyr am eu cymorth. Hefyd i
holl drigolion Bro'r Eco am eu
haelioni. Casglwyd y symiau dilynol
yn y gwahanol bentrefi:

Deiniolen: £58.10c; Dinorwig a
Fachwen: £55.97; Llanberis:
£169.63; Llanrug, Tanycoed a
Cheunant: £173.20; Cwm-y-Glo:
£34.64; Waunfawr: £117.71;
Brynrefail: £22.99; Penisarwaun:
£29.58; Bethel: £65.67; Pontrug:
£6.69; Rhyd-ddu: £14.56.

Y cyfanswm hyd yma yw £1,593.

Y TYLWYTH TEG

Ydych chi'n coelio yn y Tylwyth
Teg? Pwy oedden nhw p'run
bynnag? Beth am 'Fendith y
Mamau'? Pam y cawsant yr enw
hwnnw? A oes rhai yng Nghymru
heddiw? Ble mae Gwlad y Tylwyth
Teg? Sut le sydd yno?

Cewch atebion i'r cwestiynau hyn
a llawer mwy mewn llyfr a
gyhoeddwyd gan Wasg Carreg
Gwalch yn ddiweddar. Yn y llyfr
ymdrinir â'r llu chwedlau a
thraddodiadau am y bodau bychain
direidus, os nad drwg hyn. Ynddo
ceir sôn am drysorau anhygoel,
cyfnewid plant a chipio pobl,
ynghyd â llawer o luniau gwreiddiol.

'SIALENS Y GANRIF'

APÊL DR BARNARDO'S

Annwyl Mr Thomas,

Hoffwn, gyda'ch cydsyniad,
wynnu sylw eich darllenwyr at apêl
arbennig Dr Barnardo's yng
Nghymru, sef 'Sialens y Ganrif'.

Yn 1887, agorwyd y cartref cyntaf
yng Nghymru, a datblygwyd y
gwaith dros y blyneddau i sicrhau
help i filoedd o bobl ifanc led-led ein
gwlad. Daeth cenedlaethau o
fechgyn a merched Cymreig i wybod
am gariad, gobaiith a chymroth
Barnardo. Mae'r gofynion yn
newid, ac erbyn heddiw rhoddi'r
pwyslais arbennig ar brojectau ar
gyfer plant dan anfantais a phlant
anffodus; projectau sy'n cynnwys
gofal dyddiol a chanolfannau
teuluol, dod o hyd i deuluoedd
newydd i'r plant hyn a phlant dan
anfantais corfforol. Mae gofyn am
adnoddau sylweddol ychwanegol ar
gyfer y gwaith pwysig hwn; hyn, felly
yw nod Apêl Canmlwyddiant
Barnardo's yng Nghymru eleni.
Bydd pob ceiniog a gesglir yng
Nghymru yn cael ei ddefnyddio ar
gyfer y gwaith yng Nghymru.

Trefnir yr Apêl ar sail y siroedd
Cymreig. Mawr hyderaf y bydd
unigolion a chymdeithasau yng
Ngwynedd yn dangos eu haelioni
arferol a'u gweithgarwch caredig
tuag at yr achos pwysig hwn trwy
gyfrannu yn uniongyrchol i gronfa'r
Apêl, trwy gyfandoi, a thrwy drefnu
ymgyrchoedd arbennig a
gweithgareddau priodol.

Anfoner pob rhodd at Drysorydd
Apêl Canmlwyddiant Barnardo's
yng Ngwynedd, Banc y Midland,
Caernarfon.

Yr eiddoch yn gywir,

D.E. Alun Jones

Cadeirydd, Apêl y Canmlwyddiant
yng Ngwynedd,

Min y Don,

Biwmares.

Bron a bod yn record!

Casglwyd y swm anrhydeddus o
£61.58c i goffrau Cymdeithas y
Spastics yn nhafarnau Llanberis nos
Sadwrn, Mehefin 20. Mae'r
trefnwyr yn datgan eu diolch i bob
un a gyfrannodd.

Dyma'r ail gasgliad mwyaf i'w
wneud yn nhafarnau pwtrefi
Arfon. Casglwyd £62.54 ym
Mhenygroes ym mis Tachwedd y
llynedd.

Gan fod llawer o'r chwedlau'n
deillio o Fro'r Eco, dyma lyfr i
bawb, yn hen ac ifanc sydd, fel
T.H.Parry-Williams, "yn gwybod
eu bod yn bod" neu sydd â
diddordeb mewn hanesion difyr.

John Huws, golygydd y
cylchgrawn Llafar Gwlad a Llyfrau
Llafar Gwlad yw'r awdur. Mae'n
bennaeth yr Adran Gymraeg yn
Ysgol David Hughes, Porthaethwy,
ac yn byw yn y Waunfawr gyda'i
wraig Heulwen a'i dri phlentyn,
Lowri, Rhys ac Elin. Mae ganddo
ddiddordeb eirias ym mhopeth
ynghyd â Llên Gwerin ac mae yn ei
elfen gyda phwnc y llyfr hwn.

Pris y llyfr 80 tudalen yw £1.20.

LLYFRAU CYMRAEG NEWYDD

Dylai'r llyfrau isod fod ar gael naill ai
yn eich llyfrgell neu yn eich siop
lyfrau lleol.

DAVIES, John

Rheilffordd Ffestiniog 1836-1986

Gwasanaeth Archifau Gwynedd
75c

Llyfryn sy'n olrhain hanes y lein bach
gul hynaf sy'n dal mewn bod.

EAMES, Marion

Huw a'r Adar Aur

Gwasg Gomer

£1.95

Nofel i Blant

EVANS, A. Ernest

Acenion Gwynfyd

Mrs Gwyneth Evans

£1.85

Cyrol sy'n cynnwys canllawiau
parod ar gyfer cynnal oedfa.

EVANS, Emrys

Dafydd ap Siencyn a'r Mynach Gwyn

Gwasg Carreg Gwalch

£1.75

Y nawfed llyfr yng Nghyfres Dafydd
ap Siencyn

Gwir Bob Gair!

Urdd Gobaith Cymru

£1.95

Llyfr i blant, yn llawn o ffeithiau
rhyfeddol - ond gwir - am Gymru a
Chymry.

Y Lolfa

£2.95

JONES, D.G. Merfyn

Eryr Sylhet

Gwasg Gee

£3.00

Nofel hanesyddol am y Gwrthryfel
Indiaidd ganol y ganrif ddiwethaf.

JONES, Elwyn L.

Y Winllan Wen

Gwasg Gee

£3.25

Nofel hanesyddol am Gymru yn yr
17eg ganrif.

Morgan y Mwnci 'i Ffrindiau

Gwasg Carreg Gwalch

£2.50

Casgliad o straeon, lluniau a
chartnauam Ffrangeg a'i ffrindiau,
gan blant ysgolion cynradd Cymru.

NEALE, G.J.

Y Cyfrifiadur a Gwybodath

Y Ganolfan Adnoddau Aberystwyth a
Chyngor Sir Gwynedd

£2.95

Cyflwyniad syml i dechnoleg a
gwybodaeth

PRYCE, H. a WILLIAMS, G.

A. (Goln.)

HAYES, Heledd

Cymru a'r Dadeni

JONES, R. Tudur

Cymru a'r Diwygiad Protestannaidd

CARR, A.D.

Cymru a'r Rhyfel Canmlynedd

Y Golegiwm Cymraeg

£1.50

Cyfrës Cymru a

Cyfrës newdd o lyfrau sy'n cyflwyno
pynciau hanesyddol o bwys, gan
ddangos eu cysylltiad â Chymru.

Sioe Siarad 3: Iaith ar Daith

B.B.C. Cymru

£1.00

Llawlyfr i'w ddefnyddio gyda chyfrës
o ragleni i ddysgwyr a ddangosir ar
S4C

TIMBERLAKE, Lloyd

JONES, W.J. (Addas.)


Newyn yn Affrica

Gwasg Pantycelyn

£2.50

Llyfr sy'n adrodd hanes y newyn yn
Affrica mewn dull syml.

CYNLLUN HYFFORDDI MEDRAU CEFN GWLAD GWYNEDD



Ydych chi'n gwbod sut i adeiladu ffensys llechi yn yr hen ddull? Mae Cynllun Hyfforddi Medrau Cefn Gwlad Gwynedd eisiau gwybod a oes rhywun yn yr ardal yn medru gwneud hyn.

Mae Medrau Cefn Gwlad Gwynedd yn hyfforddi pobl ddiarth a gwirfoddolwyr sut i wneud pethau fel codi waliau cerrig sych a chloddiau pridd a cherrig, adeiladu ffensys llechi a ffensys gwifren a phost, plygu gwrychoedd a phethau tebyg.

Ysgrifennwyd cryn dipyn o bethau ynglŷn â ffensio cyffredin, codi waliau a phlygu gwrychoedd, ond does 'na ddim byd wedi cael ei ysgrifennu am ffensio llechi a dim llawer am godi cloddiau pridd a cherrig. Y rheswm ydy bod y medrau hyn yn arbennig i'r ardal, yn enwedig y fedr o godi ffens lechi.

Erbyn hyn rydym ni wedi dysgu ein hunain drwy edrych ar sut cafodd y ffensys llechi eu hadeiladu wrth i ni eu tynnu i lawr er mwyn eu hail-adeiladu i'w cyflwr gwreiddiol. Rydym ni wedi gweld sawl dull o wneud y ffensys hyn ac felly mae hi'n amlwg fod sawl dull o'u hadeiladu.

Os oes gennych chi unrhyw wybodaeth o gwbl ynglŷn â'r dull o adeiladu neu hanes y ffensys mi fyddem ni'n falch iawn o glywed gennych. Os oes gennych chi neu unrhyw un y gwyddoch amdano ddiddordeb mewn mynd allan gyda Medrau Cefn Gwlad Gwynedd, cysylltwch â ni.

Mae'r hyfforddiant i gyd am ddim. Mae'n bosib eich codi ym Mangor ac yn Llanberis a gallwn ni dalu am eich costau teithio i'r mannau hyn. Rydym yn mynd allan am dri diwrnod yng nghanol pob wythnos. Nis effeithir eich budd-dâl diweithdra o gwbl os y dewch allan efo ni, ac mae yn gyfle i wella'ch rhagolygon am gael swydd yn ogystal â dysgu medrau newydd ac wrth gwrs cael hwyl.

Am fwy o fanylion, cysylltwch â Chris Nevin, 378 Stryd Fawr, Bangor, neu ffoniwch Bangor 354050.

FFILM YN Y BABELL LÊN

Am y tro cyntaf erioed dangosir premiere ffilm ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol eleni fel rhan o weithgaredd y Babell Lên.

Ffilm a gomisiynwyd gan S4C ar yr emynyddes Ann Giffiths yw hon. Ysgrifennwyd y sgript wreiddiol gan y Prifardd Dafydd Rowlands. Y cyfarwyddwr yw David Lyn, y cynhyrchydd Wilbert Lloyd Roberts a'r golygydd yw Peter Stewart.

Fe'i ffilmwyd yng nghynefin Ann Griffiths ym Mhowys gan Gwmni Teledu Ffenics a phortreadir y prif gymeriadau gan Morfudd Huws a Geraint Giffiths.

Ar y diwedd bydd trafodaeth ar y ffilm dan gadeiryddiaeth Hywel Teifi Edwards, a chan ei bod yn sôn am rai agweddau ar fywyd yr emynyddes cyn ei throedigaeth rhagweliry gall fod yno ddadlau go fywiog aa adegau.

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

EURON

Mae cyfres newydd o raglenni o dan yr enw EURON wedi cychwyn ar Radio Cymru ar brynhawn Sadwrn. Cyflwynydd y rhaglen yw Euron Wyn Griffith, cyn ddisgybl o Ysgol Brynrefail.

Er bod ei rieni wedi symud i fyw o Fethel i Benisarwaun, un o hogia Bethel ydi Euron. Yno y cafodd ei addysg gynradd. Aeth i Brifysgol Caint, lle graddiodd gydag anrhydedd mewn Saesneg a Llenyddiaith Americanaidd.

Clywir llais Euron bob bore Sadwrn ar y rhaglen Saesneg, Burnt Toast hefyd, pryd y bydd o'n adolygu y cylchgronau pop, ac ar hyn o bryd mae o'n crwydro'r wlad i wneud cyfweiliadau ar gyfer rhaglen Richard Rees, sy'n dilyn Burnt Toast ar Radio Cymru bob bore Sadwrn. Mae'n ymddangos fod dydd Sadwrn yn ddiwrnod prysur iawn i Euron.

Ond y sioc fwya i'w rieni, Selwyn a Myra, Crud-yr-Awen,



Penisarwaun, oedd canfod fod gan Euron frawd o'r enw Tegid, a bod y brawd hwn mor ddigwylydd â ffonio i mewn i raglen Euron ar brynhawn Sadwrn, a'r rhaglen yn fyw ar yr awyr. Ia wir, dipyn o embaras i Selwyn a Myra.

Dyma lun diweddar o Euron. Pwy sy' efo fo tybed? Tegid? Na, digon o waith - fedar cath ddim siarad!

GWLEDD O FANDIAU YM MHRIFWYL PORTHMADOG

Mae bandiau, fe ymddengys, yn ennill poblogrwydd ymysg y pobl ieuaic. Ar Sadwrn cyntaf y Brifwyl ym Mro Madog bydd chwech o fandiau ieuenticid yn cystadlu. Ni welwyd cynifer ers blynnyddoedd - os bu cynifer erioed yn wir.

Bandiau o Wynedd yw pedwar ohonynt - Llanrug, yr Oakeley, Deiniolen, a Phorthaethwy. Bandiau Aberystwyth a Thredegar yw'r ddau arall.

O Wynedd y daw pedwar o'r hanner

dwsin a fydd yn cystadlu yn nosbarthiadau B ac C hefyd: Trefor, Yr Oakeley, Deiniolen a Phorthaethwy. Gwaun-Cae-Gurwen a Llansaint fydd yn cynrychioli'r gweddill o Gymru y tro hwn.

Yn nosbarth D, ni dderbyniwyd ond un enw - Trefor.

Ar Sadwrn olaf yr Ŵyl y clywir bandiau dosbarth A, ac y mae dau o'r rheini: Llanrug a BTM (sy'n gyfuniad, wrth gwrs o Bedwas, Tretomos a Machen).

Home Improvement Centre

Ffordd yr Orsaf

LLANRUG

Rhif ffôn: Caernarfon 2122

**o dan reolwyr newydd
- Bill a Lynne Coxley**

Oriau Agor

Dydd Llun i ddydd Gwener 8-7 pm

Dydd Sadwrn 8-5 pm

Dydd Sul 10-1 pm

Dewis da o offer angenrheidiol
i'r ardd a'r tŷ ar gael yma.

LLANBERIS

Gohebydd: Iola Sellers, 13 Dôl Elidir

LLONGYFARCHIADAU: I'r canlynol ar ddathlu eu penblwydd yn ddeunaw oed:- Glenda Jones, Rhes Cambrian; Einir Hughes, 1 Stryd Yankee; Ann Evans, Stryd Fawr; Sioned Roberts, Becws Eryri, Stryd Fawr; Geraint Owen, 40 Dol Elidir.

PRIODAS RUDDDEM: Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Ieuan Jones, Coed y Glyn ar achlysur eu priodas Ruddem ar Fehefin 16.

LLONGYFARCHIADU: i Philip Roberts, Maes Derlwyn a ddaeth yn 4ydd yn y ras i rai o dan ddwy ar bymtheg a drefnwyd gan NALGO Caernarfon Hanner Marathon, dydd Sul Mai 24ain.

CYDYMDEIMLO: Ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Megan Parry, Gareth, Gwyneth ac Eilir a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli priod, tad a thaid, sef Mr Robin Parry (Robin Ned) 20 Dol Elidir, Llanberis. Hefyd â Mrs Rhiannon Roberts, 57 Dol Elidir a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli ei mam, a Mrs D S Owen a'i wyres Valeri (o Fethel a fu yn gweithio yn siop y Fferyll yn Llanberis) a'r teulu oll yn eu profedigaeth fawr o golli gŵr Valeri mewn damwain yn yr Almaen.

YSGOL FEITHRIN: Yn ystod y mis fe aeth y plant a'r mamau gyda'r athrwon ar Daih Gerdded i godi arian i'r ysgol. Gwnaed elw o £74 a dymunai Mrs Catherine Williams ar ran pawb ddiolch yn fawr i pawb am eu cefnogaeth. Ddydd Gwener diwethaf aeth y plant a'r mamau am drip ar drên bach y Llyn. Yr oedd pawb wedi mwynhau eu hunain a charai Catherine ddiolch i Mr a Mrs V Bradley am drefnu y diwrnod a'r trip i'r plant. Diolch yn fawr.

DIOLCH: Dymunai Carys a Tecwyn Hughes ac Einir, 1 Stryd Yankee ddiolch i'r perthnasau, ffrindiau a chymdogion am y llu caridau ac anrhegion a dderbyniodd Einir ar achlysur ei phen blwydd yn ddeunaw oed.

YSGOL PENDALAR: Llongyfarchiadau i'r plant ac i'w athrawes am y perfformiad gwyb yn Eisteddfod yr Urdd ac am gipio y wobr gyntaf. Balch oeddym o weld un o'r ardal sef Shaun Foulkes, Dol Elidir yn cynrychioli'r parti ar y llwyfan yn derbyn y darian. Mae Shaun a'r ei flwyddyn olaf yn yr ysgol. Dymunwn longyfarch parti o Ysgol Treborth am eu gwaith hwythau ac am gipio y wobr gyntaf yn yr Eisteddfod am gân actol. Roedd dau o'r ardal yn y parti yma hefyd sef Andrew Pitt, Dol Elidir a Dewi Jones, Balaclava, Stryd Fawr.

GWELLHAD: Dymunwn adferiad buan i Mr a Mrs R Hughes, 5 Padarn Road, hefyd Mrs E Lewis, 11 Dol Elidir ar ôl ei damwain yn ei chartref. Mr Robert Owen (Bob Coed Mawr) yn yr ysbyty. Mrs Gwladys Pritchard, Stryd Turner, Miss Morfudd Williams, Stryd Newton a Janet Pitt, 53 Dol Elidir ar ôl bod yn ysbyty Gwynedd. **SANT IOAN:** Dydd Llun, Mehefin 15 aeth Michelle Willis, Annette Sellers, Sandra Nesbit, Catrin Robert, Alison Jones, Cwm y Glo a Nyrs Glenys Parry am ddiwrnod i Gastell Caerffili i "Ddechrau Pac Broch Cymraeg a vidio o'r cadet". Cawsant gyfarfod y Dduges Caerloyw ac wedyn mwynhau gwelld oedd wedi cael ei darparu ar eu cyfer. Cawsant amser braf dydd Sadwrn Mehefin 21 aethant am drip i Parc Hyde yn Llundain lle maent yn dathlu canmlwyddiant Sant Ioan.

CLWB METHEDIG ERYRI LLANBERIS: Dros y misoedd diwethaf mae aelodau o'r mudiad uchod wedi bod yn brysus dros ben yn gwneud gwahanol grefftiau ac mae llawer ohmynt wedi ennill y wobr gyntaf yn Eisteddfod Môn a oedd yn cael ei chynnal ym mis Mai. Canmolodd y beirniad yr aelodau am eu safon uchel o grefft waith. Enillodd Mrs Dilys Evans dair wobr gyntaf un am fag llaw lledr a dau am wau. Mrs Megan Owen y wobr gyntaf am gloc lledr, Miss Megan Price am Ddoli Glwt, Mrs Menai Jones am glustog brodwaith a Mrs Janet Biench ywobr gyntaf am lun brodwaith mewn gwaith aur.

Ar Fai 28ain aeth yr aelodu am drip o amgylch Ynys Môn gan aros am fwyd yng Ngwesty'r Porthladd, Bae Cemaes. Mwynhaodd pawb eu hunain yn fawr iawn.

Mae'r Clwb yn cyfarfod bob dydd Llun yn y prynhawn yn Hafan Elan, Llanrug. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Laura Davies a Mrs Enid Roberts ac enillwyd gan Mrs Alice Thomas, Penisarwaun a Mrs Megan Owen Llanberis. Darparwyd y te gan Mrs Dilys Evans a Mrs Laura Davies.

CWBY MAMAU: Mehefin 5ed aeth aelodau'r clwb am eu trip blynyddol. Yn gyntaf aethom i Sŵ y Môr Ynys Môn yna i gael bwyd a disco i orffen y noson yng Ngwesty Cae Fran. Yr oedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr. Diolch i Lyn Ellis, Ann Jones, Jan Vaughan ac Ann (Clegir) am drefnu'r noson.

UNDEB Y MAMAU: Dydd Mawrth Mehefin 15ed aeth llond bws am drip i'r Amwythig ac wedyn i Erddig, Wrecsam. Mwynhaodd pawb ei hun yn fawr iawn. Diolch i Mrs Annie Jones ac Arfon Evans am drefnu popeth.

DIOLCH: Dymuna Mr a Mrs Cledwyn Jones, 40 Afon Terrace, ddatgan eu diolch i'w teulu a ffrindiau am y llu cardiau ag anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur priodas eu mab Geraint â Jackeline ar Fehefin 6ed ym Manceinion.

Dymunai Gwyneth ac Eifion Roberts a Sioned, Becws Eryri, Stryd Fawr ddiolch i'w perthnasau a'u ffrindiau a'u cymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd Sioned ar achlysur ei phen blwydd yn ddeunaw oed.

Dymuna Mrs Jan Vaughan a'r teulu oll, Rhes Cambrian, ddiolch o galon i'w perthnasau, cymdogion a chyfeillion am bob arwydd o gydymdumlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli priod, mam a nain annwyl, hefyd i'r Parch Trefor Lewis am ei wasanaeth ac am y rhoddion a dderbyniwyd at Gronfa Diabetic.

Dymunai Mr Elwyn Wilson Jones, Blaen y Ddol ddiolch yn fawr i'r ardal am eu caredigrwydd, cymorth a'u cefnogaeth yn etholiad Cyngor Cymuned Llanberis a diolch i pawb a wnaeth ei ethol. Diolch yn fawr.

Dymuna Mr a Mrs Robert Hughes, 5 Padarn Road, ddiolch o galon i'w teulu a ffrindiau am yr holl gardiau a'r anrhegion tra y buom yn Ysbyty Lerpwl, hefyd Ysbyty Dewi Sant, ym Mangor. Diolch yn fawr hefyd am eich cymwynasau ar ôl i ni ddod adref. Diolch i bawb.

Yn frawychus o sydyn yn ei gartref, 20 Dol Elidir, bu farw Mr R. E. Parry yn 72 mlwydd oed. Gŵr, tad a thaid annwyl, bydd ei golled yn fawr iawn. Dymuna Mrs M Parry a'r teulu oll ddiolch o galon am y llu cardiau a llythyrau ac offrwam a dderbyniwyd yn eu profedigaeth. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Joseph Butler a'r teulu, Snowdon View, Llanberis ddiolch o galon i'w perthnasau, cymdogion a chyfeillion am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli priod a mam annwyl. I'r meddyg teuluol, meddygon a staff unedau gofal ysbyty Gwynedd am eu gofal caredig, a'r Parch Trefor Lewis am ei wasanaeth. Diolch arbennig hefyd am y rhoddion hael tuag at Uned Gofal y Galon, Ysbyty Gwynedd. Cyflwynwyd £525 i'r Uned trwy law y Parch. P.O. Butler.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd y cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Fai 28, dan arweiniad Mrs Hanah Jones. Cydymdeimwyd â Mrs Betty Humphreys yn ei phrofedigaeth fawr o golli ei gŵr.

Ein gŵr gwadd am y noson oedd Mr Cynrig Hughes, Prifathro Ysgol Dolbadarn, a chafwyd sleids a sgwrs ddiddorol dros ben ar Awstralia.

Diolchwyd iddo ac i'r gwestwagedd gan Mrs A B Jones a Mrs A M Evans. Y gwestwagedd oedd Mrs Dilys Jones a Mrs Megan Hughes a Mrs Hannah Jones. Enillwyd y raffl gan Mrs Mary Jackson.

PRIODAS: Llongyfarchiadau i Beti Hughes, merch Mr a Mrs John H Hughes, Tan y Clogwyn a Dylan Morgan mab Mrs Mair Morgan a'r diweddar Brifathro Eurwyn Morgan, Bryn Eglwys, Bangor ar eu priodas yn Swydfa Cofrestru Caernarfon, ar Ebrill 25ain. Cynhaliwyd y brecwast priodas yn Neuadd y Dref Porth Meirion. Dyma'r wledd briodas gyntaf i'w chynnal yno. Y mae Beti a Dylan yn diwtoriud ar Staff Efrydiau Allanol Coleg y Brifysgol, Bangor, ac y mae eu cartref yn 8 Rhesdai Pen Llys, Bangor.

YSGOL PENDALAR: Dymuna plant ac athrawon Ysgol Pendalar, Caernarfon ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd at y gronfa er cof am Mrs Parry, Ceunant Street, mam Nyrs Glenys Parry. Daeth Nyrs Glenys Parry i'r ysgol i drosglwyddo siec am £280. Diolch yn fawr iawn.

DIOLCH: Dymuna Catrin, Plas Tirion ddatgan ei gwerthfawrogiad i bawb am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati ar achlysur ei phenblwydd yn ddeunaw oed. Diolch yn fawr am y cardiau, yr anrhegion a'r dymuniadau da.

Dymunai Mrs Rhiannon Roberts, Dol Elidir a'r teulu ddiolch i bawb, yn eu profedigaeth o golli mam ac hefyd i Ysbyty Gwynedd am eu gofal amdani ac hefyd i Dr Thompson y meddyg teulu. Diolch yn fawr.

Dymunai Mrs Carys Hughes ddiolch i'r casglyddion i gyd am fynd o amgylch i hel at Ymchwil y Galon. Diolch yn fawr iawn.

ELIFFANT GWYN: Mae Mr Evan Thomas, 89 Maes Padarn yn trefnu bwrdd Eliffant Gwyn ar y cae diwrnod y carnifal a buasai yn falch os oes gennych rhywbeth i'w gyfrannu, ond dim dillad nac esgidiau os gwelwch yn dda. Diolch yn fawr.

BINGO: Nos Wener, Mehefin 19 yng Ngwesty Gwynedd cynhaliwyd Bingo tuag at Ymchwil pobl yn dioddef o unrhyw nam corfforol. Gwnaed elw o £74. Ni fydd Bingo eto tan Mis Medi pryd y bydd yr elw yn mynd ar Glwb y Methedig. Diolch i bawb am eich cefnogaeth trwy'r flwyddyn a gobeithio y cawn yr un gefnogaeth y tymor nesaf.

GWELLHAD: Dymunwn adferiad buan i Mrs Nancy Rowlands ar ôl damwain yn ei chartref pan dorrodd eich choes, ac i Mrs Beryl Green sydd yn yr Ysbyty yn Llandudno.

PRIODI: Llongyfarchiadau i Geraint, 40 Avon Terrace a Jackeline ar achlysur eu priodas ar Fehefin 6ed ym Manceinion.

E.W.Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

**TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI**

Bistro

**Glandŵr
43-45 Stryd Fawr
LLANBERIS**

**Ffôn: LLANBERIS 871278
(Danny a Nerys Roberts)**



CRONFA PEIRIANT Y GALON, PENTREF LLANBERIS AT WASANAETH AMBIWLANS GWYNEDD: Dymuna aelodau'r pwyllgor uchod ddiolch o galon i bawb a gynorthwydd yn y Noson Goffi a gynhaliwyd yn Ysgol Dolbadarn, ar y 12ed o Fehefin. Casglwyd swm sylweddol o arian at y gronfa uchod. Cyflwynodd Mr Gwynfor Williams, Swyddog Ambiwans Gwynedd, Mr a Mrs Cynrig Hughes, Prifathro yr ysgol i agor y noson. Dangoswyd y peiriant yn gweithio gan Swyddog Ambiwans Mr Hefin Jones Roberts gyda swyddog Ambiwans Cledwyn Jones yn ei gynorthwy. Bydd y Pwyllgor yn falch o unrhyw rodd bach neu fawr i hybu'r gwaith ymlaen. Os oes unrhyw ardal ym mro'r Eco yn awyddus i godi arian at y fenter hon, cysylltwch â Mrs Mair Roberts, 10 Stryd Warden, Llanberis (trysorydd). Os oes rhywun yn dymuno cael gweld y Peiriant yn gweithio bydd yn bleser gan Swyddog Ambiwans, Hefin Jones Roberts ddod atynt i'w ddangos. Diolch yn fawr i bawb.

DIOLCH: Dymuna leuan a Morfudd Ellis Jones, Erw'r Coed, Llanberis ddiolch yn gynnes iawn i'w teulu a'u ffrindiau am yr anrhegion a'r llw cardiau a dderbyniasant ar achlysur eu priodas Ruddem yn ddiweddar, a diolch yn arbennig i Hogia'r Wyddfa am Goroni Noson Fythgofiadwy.

PWYLLGOR YR ARENNAU, Llanberis a'r Cylch

Mae Uned bellach wedi ei sefydlu yn Ysbyty Gwynedd, a chyflwynwyd £3000 i brynu peiriant "Peritoneal Dialysis". (Gweler colofn llythyrau).

COF PEN BLWYDD
Hetty Hughes

7 Charlotte Street, Llanberis.
a fuasai yn 80eg oed ar 14eg Gorffennaf 1987.

Cofio'r dyddiau dedwydd diddan
Cofio'r cariad, cofio'r wên,
Cofio'r gofal mawr amdanom
Hiraeth nad yw'n mynd yn hen.

Yn dawel hiraethwn
Gyda chariad y cofiwn.

Oddi wrth
Elizabeth a Dei.

FFORMAN DIOGELWCH 1986



Derbyniodd John Prydderch, Bronallt, Rhos Olgra, fforman yr Adran Prifffyrdd Cyngor Sir Gwynedd dystysgrif diogelwch gan Gadeirydd y Cyngor, y Canon Robert Williams. Rhoddwyd y wobwr iddo i gydnabode ei lwyddiant wrth atal damweiniau i weithwyr ffyrdd y Cyngor Sir a'r cyhoedd trwy gydol 1986. John Prydderch yw'r unig fforman yn y sir i ennill y wobwr ddwywaith. Fe'i derbyniodd hefyd yn 1982.

PENODIAD

Y mae Cwmni Cyhoeddi Gwynn, Penygroes, Arfon yn falch o gyhoeddi y penodwyd Miss Shirley P. Owen yn Swyddog Datblygu.

Y mae Miss Owen yn enedigol o Lanberis a chafodd ei haddysg yn Ysgol Gynradd Dolbadarn ac Ysgol Uwchradd Brynrefail. Wedi cyfnod yng Ngholeg Addysg Uwchradd Lerpwl, lle cafodd radd mewn hanes a daearyddiaeth, bu'n dilyn cwrs ysgrifenyddol yng Ngholeg Technegol Bangor.

Ers pedair blynedd bellach, bu Miss Owen yn Ysgrifenyddes Gynhyrchu Radio yn Adran Addysg y BBC yng Nghaerdydd, a bydd ei phrofiad yno yn sicr o fod o fudd mawr iddi yn ei swydd newydd.

Dechreuodd ar ei dyletswyddau newydd ar Orffennaf 1.

COFIWCH!

Ni fydd rhifyn Awst o'r Eco. Bydd y rhifyn nesaf allan ar Fedi 3ydd.

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, "Glanrafon", (872275).

EGLWYS SANT GABRIEL: Pnawn Sul, 31 o Fai, am 2 o'r gloch yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis, cynhaliwyd Gŵyl Gorawl Eryri. Y mae plant yr Ysgol Sul i'w llongyfarch i gyd am eu gwaith yn y maes llafur ac yn adran Celf a Chrefft. Am chwech yr hwyr gweinyddwyd y Cymun Benidgaid gan y Deon Gwlad, y Parch Richard Jones a'r Parch Alun Hawkins a chafwyd pregeth gan y Parch Idris Thomas, Rheithor Clynnog a Trefor.

EGLWYS ST. GABRIEL: Nos Lun Mehefin 8ed cynhaliwyd Taith Gerdded at 'Gronfa'r Drws' Eglwys St. Gabriel. Cyfanswm a gasglwyd oedd £356. Dymuna Wardeiniaid yr Eglwys ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd tuag at y stondinau, gwobrau'r raffl ac mewn unrhyw fodd i lwyddiant y noson. Diolch yn arbennig i'r cerddwyr.

Enillwyr y raffl oedd:-
1. Bocs siocled - Miss Delyth Roberts, Glasfryn; 2. Potel o win - Mrs Gwyneth Roberts, Bodgwynedd; 3. Gobennydd - Miss Cynthia Orritt, Moranedd; 4. Vase Blodau - Mr. Gwilym Williams, Bryn; 5. Gobennydd - Mrs Margaret Williams, Nant Forgan; 6. Talc a Deodrant - Miss Myfanwy Roberts, Bod Gwilym; 7. Bath Assortment - Mrs Margaret Williams, Nant Forgan; 8. Tin Bisgedi - Dawn Roberts, Tal-gwynedd; 9. Talc a Deodrant - Terry Williams, Bryn.

BINGO: Ar y 20 o Fai cynhaliwyd noson lwyddiannus iawn o Bingo yn y ganolfan, yr elw at dîm peldroed Cwmyglo. Enillwyr y raffl oedd:- Gwydrau - Kettle, Ty'n Rhos, Seion, Bethel. Bathroom set - Carl Roberts, Newton Hall, Llanberis. Sherry - Gwilym Williams, 32 Bro Rhos, Bethel. Black Magic - Margaret Williams, Bryn, Cwmyglo; Pillowcases - Mr Atkinson, Ty'n Radd, Cwmyglo. Scent of Roses - Kelvin Davies, dan ofal Conservative Club, Caernarfon. Gyda diolch i bawb a weithiodd mor galed i wneud y noson mor llwyddiannus aci unrhyw un sydd wedi ein helpu mewn unrhyw ffordd yn ystod y flwyddyn.

ADREF O'R YSBYTY: Dymunwn wellhad llwyr a buan i Andrew Jones, mab Mr a Mrs Keith Jones, 4 Dôl Afon ar ôl triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. **LLONGYFARCHIADAU** i Islwyn Jones, 7 Dôl Afon a Martin Jones, Arosfa, Fron Gader ar gyrraedd eu pen-blwydd yn un-ar-hugain.

i Mr Llew Hughes, Hyfrydle a Mrs Nell Williams, Pant Afon ar gyrraedd eu pen-blwydd yn 80.

DIOLCH: Dymuna Mrs Nell Williams, Pantafon ddiolch o galon i bawb am y llw cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 80 oed.

DYMUNA Martin, Arosfa, Fron Gader ddiolch i'w deulu a'i ffrindiau am y llw cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn un-ar-hugain.

TIM PELDROED - NOSON

ANRHYDEDDU: Ar y 19 o Fehefin, cynhaliwyd noson anrhegu tim peldroed Cwm-y-Glo ym Mhlas Tan Dinas, Dinas Dinlle. Mwynhaodd yr hogiau eu hunain yn arw iawn. Enillwyr y prif dlysau oedd: Cyfartal sgoriwr uchaf - Andrew Roberts a Dafydd Jones gyda 10 gôl yr un. Is-chwaraewr gorau'r flwyddyn, roedd tri gyda'r un pwyntiau - Terry Williams, Alun Williams ac Andrew Kettle. Chwaraewr gorau - Alan Williams. Enillodd y tim dlws Padarn yn erbyn Llanberis a dod i'r rownd derfynol o'r gwpan Jimmy James yn erbyn Caernarfon. Pob hwyl y flwyddyn nesaf. Roedd hon yn noson arbennig oherwydd fod y tim yn dathlu deg mlynedd yng Nghynghrair Gwyrfa. Diolchwyd yn arbennig i Gwilym Williams eu hyfforddwr ac i Evan Owen am eu hamser gyda'r hogia.

CLWB POBOL Y CWM: Mwynhawyd pnawn lau, Mehefin 4 yn chwarae 'Bingo' gyda Mrs E Price, New Street yn galw. Roedd llawer o enillwyr - y gwobrau a roddwyd gan yr aelodau eu hunain. Gwnaed trefniadau gogyfer y wibdaith flynyddol, a dewiswyd Aberystwyth fel man i gyrraedd ato. Llongyfarchwyd Mrs E. Williams, Pantafon a Mr Llew Hughes, Llywydd y Clwb ar gyrraedd 80 oed, a dathlwyd yr achlysur gyda cacen pen blwydd a gwydriad o sieri, y cyfan wedi ei ddarparu yn garedig iawn gan Mrs K Watkins a Mrs G Chick a hwy hefyd oedd yn gyfrifol am y te. Diolchodd y Llywydd iddynt ac i Mrs E Price am lywio gweithgaredd y Bingo. Rhoddwyd yr Raffl gan Mrs E Jones, Seiont House a Mrs E Price, enillwyd gan Miss M Davies, Craigydol.

Cyn terfynnu ar gyfarfodydd y gaeaf daeth amser i fwynhau gwibdaith flynyddol y clwb. Dewiswyd Aberystwyth yn fan cyrraedd atto, ac ar fore teg dydd Mercher Ebrill 10 cychwyn i gyfeiriad Porthmadog ac aros yn Nolgellau i fwynhau pryd o fwyd. Wedi ein bodloni ail gychwyn i gyfeiriad pen y daith. Wedi cyrraedd Aberystwyth pawb yn ymrannu i gyfeiriad diddordebau eu hunain. Roedd yn amlwg mai siopau oedd prif atyniad y gwragedd. Wedi ein gwala daeth amser i gychwyn yn ôl a chyrraedd gartref wedi treulio diwrnod hapus a phleserus.

Yng nghyfarfod pnawn lau Mehefin 18 adroddodd y Llywydd Mr Llew Hughes amryw o farddoniaeth y diweddar Mr O H Jones, Brodawl gynt. Ei enw barddol oedd Cwm Myfyr. Ymfudodd ef a'i briod i'r America flynyddoedd yn ôl i gartrefu yn Efrog Newydd a thra yna urddwyd ef yn Archdderwydd Efrog Newydd. Canodd lawer am ei ardal enedigol sef y Cwm, ac yn ôl y daeth i ddiweddu ei oes ymysg ei gyd-ardalwyr. Darparwyd y te gan Miss E Hughes, Tanygraig a Mrs E Hughes, Hyfrydle a rhoddwyd y raffl gan Mrs M Williams, Elidir View.

DERWYN HUGHES

Treflys
PENISARWAUN

Ffôn Llanberis
870945

Am
nenfydau
a waliau
siapus

Antex

SELWYN MORRIS

Adeiladwr a Threfnydd
Angladdau

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 2841

SIMNEIAU GWael? CRACIAU? MŴG A HOGLA' TARO PERYGLUS?

Cysylltwch â Dave Wood

'INSULAFUE'

Yr Arbenigwr ar leinio simneiau

FRON HEULOG, DINORWIG

Ffôn: Llanberis 871376

O FRO'R ECO I WLAD YR ADDEWID

gan Y Parch. Trefor Lewis

Cyn ymadael â Galilea rhaid yw sôn ychydig am y bwyd. Heb os, 'roedd y brecwast yn wahanol iawn i'r hyn yr oeddem wedi arfer ag ef. Dim sôn am greision grawn ac uwd, a doedd wiw i neb ofyn am facwn ac wy, er yr oedd wy wedi ei sgramblu i'w gael. Ond dyna fo, pan yn Israel, gwneud, neu fwyta, fel yr Israeliaid sydd raid. Felly 'doedd dim i'w wneud ond mynd hefo'r plât at y ford yn llawn danteithion. Hanner dwsin o ddysglau yn dal gwahanol fathau o gaws meddal; powlen gyda physgod wedi eu piclo; un arall gyda thomatos. Dilyn hynny gyda llond dysgl o eirin. Cyn dechrau gwledda sicrhau gwydriad o sudd oren neu rawnffrwyth. Na, nid ei dywallt o botel, ond cael y boddhad o wasgu'r sudd o rawnffrwyth ffres gyda sudd-wasgwr unfraich. Blasus iawn.

Yn ystod y dydd gellid blasu rhagor o fwydydd traddodiadol, rhai ohonynt yn sbeislyd gyda'r saws 'chillie' yn rhagori ar bob dim. Yr oedd Kebab a Schintzel ac wrth gwrs pysgodyn Sant Pedr yn amlwg iawn ar y fwydlen. I'r rhai mwyaf ceidwadol yr oedd pryd gyda'r nos yn cynnig cig eidion, twrci a chyw iar, gyda reis yn lle tatw.

Yn unol â dymuniad Haggai 'roedd pawb ar y bws yn brydlon fore Mawrth a ffwrdd â ni ar y daith o Galilea i Jerwsalem. I dramorwyr y mae Gogledd Cymru'n wahanol iawn i'r De. Y mae'r un peth yn wir am Israel. Tra mae golwg ffrwythlon iawn ar y Gogledd y mae'r De'n ymddangos yn sych a diffaith iawn.

Wrth deithio tua Jerwsalem, dilynir i'r dwyrain ddyffryn yr Iorddonen, a dyma'r ffin rhwng Israel a gwlad yr Iorddonen. Hollt ddaearogol yw'r dyffryn, sy'n ymestyn o Fynydd Hermon i gulfor Aquaba, pellter o 280 milltir. Gellir dilyn yr un hollt drwy Kenya, Tanganyika i Mozambique. Yn y dyffryn hwn y mae'r afon Iorddonen. O'r holl afonydd, perthyn i'r Iorddonen rhyw swyn a rhamant. Mae'n debyg bod llawer ohonon wedi clywed am yr Iorddonen o flaen yr Amason, neu'r Tafwys, a'r Hafren hyd yn oed.

Tardd yr Iorddonen o gopaon Hermon, a gorffena ei thaith yn y Môr Marw. Trigain milltir a phump yw hyd ei thaith fel yr hed y fran, ond wrth iddi ymdroelli fel neidr drwy'r dyffryn y mae'r daith yn 160 milltir. Priodol iawn yw'r enw gwreiddiol, Al Urdun, oherwydd ystyr hynny yw 'Y Disgynnydd'. Saif tarddle'r afon 3000 troedfedd uwchlaw Môr y Canoldir, ond pan gyrhaedda'r Môr Marw y mae ei gwely 100 troedfedd islaw lefel y môr.

Y mae sawl digwyddiad yn gysylltiedig â'r Iorddonen, un o'r mwyaf cyfarwydd yw bedydd Iesu Grist. Croniwyd yr hanes gan Mathew, Marc a Luc.

"Bedyddiwyd Iesu, ac yna, pan gododd allan o'r dŵr, dyma'r nefoedd yn agor iddo, a gwelodd Ysbryd Duw yn disgyn fel colomen, ac yn dod arno."

Y mae'r lle, yn ôl traddodiad, y bedyddiwyd Iesu, 5 milltir i'r dwyrain o Jerico, ond hyd nes i'r berthynas rhwng Israel a gwlad yr Iorddonen wella ni ellir mynd yno. Heb fod ymhell i ffwrdd croesodd yr Israeliaid o dan arweiniad Joshua, (Joshua 3: 13-17) ac yma

dechreuodd Eleias ei daith i'r nefoedd mewn cerbyd tanllyd (2 Brenhinoedd 2: 11) Cofiw'n hefyd am Naaman yn ufuddhau i orchymyn Eliseus ac yn cael ei wella o'r gwahanglwyf (2 Bren. 5:10-14). Wrth deithio tua'r de anodd yw credu bod unrhyw beth yn tyfu yma, gan fod y tirlun yn ymddangos yn ddifffraith. Tybed nad yma yr oedd Eseia pan glywodd y geiriau "Oherwydd yr Arglwydd a gysura Seion....gwna hefyd ei hanialwch hi fel Eden, a'i diffieithwch fel gardd yr Arglwydd." (Eseia 51:3).

Sôn am gyflwr ysbrydol Israel y mae'r proffwyd ond yn ystod y blynyddoedd diwethaf datblygwyd yr ardal a daeth megis gardd Eden. Oddiyma y daw'r cynhaeaf grawnwin cynharaf. Gyda chymorth cynllun irigeiddio arbennig tyfir llysiau, megis letus, bresych ac ati, o dan dwneli plastig. Y mae acer o dir yn dwyn cnwd o 40 tunnell o domatos.

Ymlaen â ni a chyrraedd Jerico, sydd megis carped o wyrdd ynghanol yr anialwch. Ers dyddiau cynnar adwaenid Jerico am y tir hynod o ffrwythlon sy'n cynhyrchu orenau, banana a ffrwyth y balmwydden. Yn yr hen ddyddiau gelwid Jerico yn Ddinas y Palmwydd, a chydabyddir hi fel dinas hynaf y byd.

Ers 1905 bu archaelegwyr yn turio'r bryn, 'Tell', sy'n mesur tua 10 acer. Ym mhumdegau'r ganrif hon bu Miss Kathleen Kenyon yn turio, a chyda cymorth prawf Carbon 14 dyddiwyd y ddinas i tua 7000 blwyddyn Cyn Crist. Dyma'r ddinas gyntaf i'w gorchfygu gan Joshua a'i bobl. Gan mor ffrwythlon oedd y wlad peidiodd Duw a gwlawio Manna (Joshua 5: 12).

Cyfeiriwyd eisoes at fedydd Iesu Grist. Wedi'r bedydd

"Arweiniwyd Iesu i'r anialwch....i gael ei demtio gan y diafol....cymerodd y diafol ef i fynydd uchel iawn, a dangos holl deyrnasodd y byd a'u gogoniant."

Nid oes gwybodaeth ynglŷn â lleoliad y mynydd hwnnw ond dywed traddodiad wrthym mai mynydd Qarantal, ychydig i'r gorllewin o Jerico, oedd y fan ple'r temtiwyd Iesu ddwywaith. Ar lethr ddwyreiniol y mynydd y mae olion eglwys o'r chweched ganrif, yn ôl traddodiad, wedi ei hadeiladu o amgylch ogof a ddefnyddiwyd gan Iesu. Heddiw, saif mynachlog yn perthyn i'r Eglwys Uniongred Groegaidd ar y lle.

Y mae pawb yn gyfarwydd â Jerico,



"Yr oedd dyn yn mynd i lawr o Jerwsalem i Jerico."

wedi'r cwbl y mae i'r ddinas le amlwg yn y Beibl. Nid oes amheuaeth bod Iesu wedi aros yno lawer tro wrth deithio rhwng Galilea a Jerwsalem. Jerico oedd man cyfarfod i'r Iddewon ar eu ffordd i'r ddinas Sanctudd i dreulio Gŵyl y Pasg, ac y mae'n eithaf sicr mai yno yr oedd Iesu pan ddywedodd wrth ei ddigybllion "Dyma ni'n mynd i fyny i Jerwsalem.".....fe gaiff Mab y Dyn ei draddodi i'r prif offeiriaid a'r ysgrifenyddion...condemniant ef i farwolaeth....a'i groeshoelio; ac ar y trydydd dydd fe'i hatgyfodir."

Yn Jerico yr iachodd Iesu'r dyn dall (Luc 18: 35-42), ac yno, wrth gwrs, yr oedd Saceus yn byw. Ynghanol y dref y mae sycarmorwydden, sy'n ein hatgoffa o'r gŵr byr ei gorff hwnnw oedd mor awyddus i weld Iesu. Oherwydd cywreinerwydd Saceus anrhyddedwyd ei aelwyd gan bresenoldeb Iesu, ac meddai'r Gwarddwr "Heddiw daeth Iachawdwriaeth i'r tŷ hwn." (Luc 19: 9).

Jerico yw'r unig ddinas nad yw'n talu trethi dŵr. Môr Galilea yw cronfa ddŵr y rhan fwyaf o'r wlad ond daw cyflenwad dŵr Jerico o ffynnon ymhell i ffwrdd ym mynyddoedd sych y wlad, ac un o ryfeddodau peirianyddol y Rhufeiniaid yn sicrhau dŵr i drigolion Jerico. Adeiladwyd acwadwct i gario'r dŵr o'r mynyddoedd i Jerico. Gellir gweld yr acwadwct yn ymdroelli ar lethrau'r brynau gan ddisgyn yn raddol. Caiff y

dŵr ei storio mewn pyllau o dan do. Bydd un rhan o'r dref yn derbyn dŵr un diwrnod ac yna'r rhan arall y diwrnod nesaf.

Yn ystod ein arhosiad cawsom gyfle i fargeinio am ffrwythau, reidio camel, a chael rhywbeth i'w fwyta yn y bwyty gyda'r enw gwreiddiol hwnnw, "Bwyty'r Demtasiwn."! Wrth adael Jerico cawsom gip ar goeden 'Bougainvillea' a honno'n llawn blodau porffor tywyll.

Dechreuodd y bws wegian o dan bwysau'r orenau a'r grawnffrwythau wrth i ninnau fel llawer i deithwyr o'n blaen fynd i fyny i Jerwsalem. Wrth i'r bws wau ei ffordd drwy fynyddoedd Jwdea daeth yr hanes am ddyn yn mynd i lawr o Jerwsalem i Jerico, i'r cof. Hawdd iawn oedd lleoli'r ddameg - digon o guddfannau. Ymhen ychydig pasio, ar y chwith adeilad gyda'r geiriau "Gwesty'r Samariad Trugarog." Digon o waith mai hwn yw'r gwreiddiol, ond mae'n ffitio'r stori i'r dim. Gerllaw y mae pabell y Bedwin. Mae patrwm bywyd y nomadiaid hyn wedi newid cryn dipyn. Heddiw aiff rhai'n feddygon ac athrawon. Y mae arferion caru'r Bedwin yn ddiddorol iawn. Man cyfarfod i'r bobl ifanc oedd y ffynnon. Os dywedai'r ferch pwy oedd ei thad roedd popeth yn ffafril. Y cam nesaf oedd anfon rhywun at dad y ferch i drafod pris. Dyma enghraifft o'r prisiau - 100 o ddefaid a 50 o gamelod.

CRONFA GOFFA R.H. OWEN

Cynigir Grantiau neu Fenthyciadau o'r Gronfa uchod mewn amryw o weithgareddau. Ceir manylion a'r amodau oddi wrth yr ysgrifennydd:

Aled Owen, 13 Charlotte Street, Llanberis.

Y ceisiadau i'w hanfon i mewn erbyn Awst 31.

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

TEGID

PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR 291

Hefyd ail-osod carpedi

BRYN

(B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn

LLANRUG

Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri,
Drysau, Grisau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .



BWSIAU ARFON

LLANRUG

(ERIC MORRIS)

Ffôn: Caernarfon 5175

TRIDIAU O'R GWERSYLL

Dydd Sadwrn: Mawrth 17eg, 1945

Dyma ni'n dau, Norman a finnau ar gychwyn; gwisg las yr Awyrlu amdanom, sglein ar bob botwm, bwcl ac esgid; cnapsach dros ein hysgwyddau a golwg eithaf trwsiadus arnom, debygem.

Bydd yn rhaid galw yn Swyddfa'r Adjutant am ein papur caniatâd. Archwiler ein personau gan hwnnw â'i lygad barcud, i sicrhau ein bod yn gymerddwy i fynd allan i'r byd. Teimlaf fel plentyn yn cychwyn am yr Ysgol Sul, ers talwm, dan lygaid ymchwilgar fy mam.

Mi fydd yn braf cael teimlo'n weddol rhydd, dilyffethair, tu allan i'r gwersyll ar ôl ein llethu yno cyhyd. Mae'n rhaid bod yn deg hefyd, o dan yr amgylchiadau. Gwlad ddiffiath â hinsawdd garw sydd yma; eithafion gwres ac oerni sych a gaeaf, rhwng dwy afon fawr, Teigris ac Ewfrates yn Irac. Rydym ninnau, weniad gwynion, heb ein diddyfnu oddi wrth foethus rwydd gwareiddiad y Gorllewin. Gwneir pob ymgais gan yr Awdurdodau Milwrol i sicrhau iechyd a chysur eu gweision. Ond mae'n rhaid glynu wrth y côd rheolau a bennwyd ar ôl cenedlaethau o brofiad yn y gaethglud 'rhwyng dwy afon' yn Dhibban.

Cerddwn yn sbrws hyd y rhodfa syth â'r coed ewcalyptus tal yn rhoi peth cysgod o ddeutu â sawr peraidd ar awel y bore. Mae hi ar fin cychwyn y Tymor Tanbaid fydd yn ymestyn o ddiwedd Mawrth hyd yr Hydref a ninnau am brofi mwyniant penwrythnos ym Maghdad cyn dyfod y gorlif chwyd.

Dyma gyrraedd y prif borth a dangos ein caniatâd i'r porthor. Holi a wna hwnnw i ble'r awn. 'Does ond diffeithleoedd ar bob llaw a ninnau'n dau, laslanciau diniwed, yn gadael hafan glyd y gwersyll - am beth? Ni wyddom. Mynd am benwrythnos i Baghdad! Druan ohonom!' Does gennym yr un amgyffred beth sy'n ein haros. "Arhoswch yma," ebe'r porthor, "fe ddaw gharri heibio gyda hyn ar ei ffordd i'r dref. 'Dydych erioed yn meddwl cerdded am bymtheg milltir a deugain debyg?'"

Ni sylweddolem natur yr antur ar droed hyd ffordd ddiglodidiau yr anialwch â'r gwres yn tasgu o wyneb lefn y ffordd. Byddai'r swigod du, gludiog yn ein hatal bob cam o'r daith flin. Un golwg ar y mynegbost - LLUNDAIN 3275M - BAGHDAD 55M. Daw pwl o hiraeth - nid am Lundain siŵr, ond am bopeth oedd yn annwyl yn y bywyd y cefnwyd arno yn yr hen wlad.

Ond dyma ni o'r diwedd - gharri yn mynd tua'r dre. Gair bach yng nghlust y gyrrwr gan y porthor a

dyna ninnau'n stryffaglio dros y tinbren i fyllni llwyd y wagen-do. Wel diolch am len i 'mochel y tes. Mae haul Mawrth yn brysus ennill ei danbeidrwydd a dyna fydd hi wedyn, fel ffwrn drwy gydol yr haf.

Sgwrsio yn rhydd yn Gymraeg. Norman Rowland o'r Wyddgrug fu ar wasanaeth yng Nghanada ac a briododd ferch o Alberta. Mae ei storïau difyr am oerni y dalaith honno fel hufen-ia bob amser ym mhoethder Irac.

A ninnau'n powlio ymlaen yn hwylus, rhydd y fen rhyw blwc sydyn, arafu a dyna stop. Allan â'r gyrrwr â'i ben dan fantell yr injan i chwilio am y diffyg. Holasom am yr helynt. Rhyddhaodd rhyw bin ddur a cholli o'i gymal. Buom yn chwilio hyd y ffordd am hoelen, gwifren neu goes matsen ond yn ofer. Na, 'doedd affliw o ddim ar gael, na phren na phric yn tyfu yn uman. Fel fflach daeth syniad i Norman. Torrodd pen carrai ei esgid a chlymu'r ffurel ym migwrn y peiriant. Go dda, cawsom ail gychwyn eto.

Cyn hir gwelem rith meindryau yn crynu yn y tes. Mae cyrrau'r ddinas yn fwy poblog. Gwerinwyr o fugeiliaid yn gwarchod eu preiddiau o ddefaid, geifr a chamelod rhag crwydro i'r ffordd fawr. Clwyd mynych weiddi cwerylgar wrth bob rhwystr ar ffordd y gyrrwr a'i fen.

Dyma ni o'r diwedd wrth Bont Maude sy'n croesi'r Teigris i'r Ddinas Hud. Ffarweliwyd â'r gyrrwr mewn ffrae a ffrwgwd ynghylch y bacshish a chyflwyno ein hunain yn Swyddfa'r Town Major. Dyma Swyddog dieithr. Ni wyddem erioed am y fath swydd. Pennaeth milwrol a reolai drafnidiaeth filwrol i mewn ac allan o'r ddinas. Rôl dangos ein papurau caniatâd, cawsom bregeth fer, bwrpasol, ar ymddygiad aelodau o'r lluoedd arfog mewn dinas ddiethr. Dangoswyd plan mawr ar y mur a ddygai strydoedd wedi eu lliwio fely gellid gochel y mannau amheus. Caniateid ymweld â phob heol werdd; ond prin oedd y rheiny. Gellid mynychu'r mannau melyn

yng ngolau dydd, ond nid liw nos. Ar boen ein bywyd, nid oeddem i ddeintio i'r cyrrau cochion. Yno y llerciai pob temtasiwn, lladron i'n hysbeilio a llofruddion i'n difodi.

Gyda gair o rybudd i ymddangos eto fore Llun ar ein ffordd adref, i ffwrdd â ni dros y bont i'r Y.M.C.A. ar stryd yr Afon yn gyfochrog â'r Teigris. Sicrhawyd llety yno i fwrw'r Sul.

Daw'r nos ar chwap yn y trofannau a chyn i ni gael cyfle bron i gynefino â'r llety 'roedd goleuadau ar y stryd gyda'r afon lydan. Cwrddasom a'r Rhingyll John Williams o'r Bermo a arhosai yno. Bachgen clên iawn oedd a chynigiodd roi tro gyda ni i gynefino â'r ardal. Aelod oedd, gyda'r "British Military Mission" yn gyfrwng rhwng Irac a Phrydain mewn materion milwrol. 'Roedd goleuadau llachar y strydoedd yn gwahodd y difeddwl i bob math ar 'sleazy dives'; fel y gelwid hwy, ond

barnem mai cadw draw oedd y cyngor doethaf. Wrth un stiwdio tynnu lluniau, buom yn syllu ar luniau talentau lleol a synnem at harddwch merched y Dwyrain ymhob rhyw ystum. 'Roedd ein clustiau yn bur anghyfeffn â'r synnau dieithr a glwyem, ond diolch i'n cydymaith, daeth galwad y mwesin o'r meindryau yn gyfarwyd inni a rhuthr yr 'arabanah' - taci geffylau, fel coets fawr agored, yn destun i wamalu arno.

Ar ôl swper cynnar yn y Y.M. cysgem mewn caban o laid caled â tho gwellt iddo. 'Roedd popeth yn lanwaith er mor gyntefig oedd, a gwyliem y madfall yn mentro o'r to gwellt i ddal pryfed yng ngolau'r lampau trydan ar y pared. Braidd yn gynnar oedd hi am y mosquito ac felly heb angen rhwyd i gysgu odditani. Ni phoenwyd ni y noson honno, diolch i'r drefn.

R Williams, Llanrug

SIBRYDION O'R YSGOLION

Ysgol Brynrefail CRICED

Colli'n drwm fu hanes tîm dan 14eg yr Ysgol yn erbyn Friars, Bangor, yng nghystadlaethau Tlws Ysgolion Gwynedd. Sgoriwyd 45 rhediad am un wiced ganddynt a hynny'n ddigon gan mai 44 yn unig oedd cyfanswm Brynrefail.

Un o sêr disgleiriaf tîm yr ysgol yw Alan Pritchard o Nant Peris. Mae'n fowliwr addawol dros ben, ac wedi ei ddewis i chwarae yn nhreialon y tîm Sir dan 13eg oed. Bu'n aelod o'r tîm hwnnw y llynedd pan yn ddisgybl yn y flwyddyn gyntaf.

ATHLETAU

Bu pedwar athletwr o'r ysgol yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Ysgolion Gwynedd ym Mangor ar Fehefin 20fed, a dyma eu canlyniadau.

Paul Grant (Llanrug): cyntaf dros 1500m dan 17 oed. Christopher Jones (Cwm-y-Glo): ail ar y Ddisgen dan 19 oed. Kelvin Houston (Brynrefail): pedwerydd ar y Naid Driphlyg dan 15 oed. Linda Prydderch (Llanberis): ail dros 1500m dan 15 oed.

Bydd Paul yn cynrychioli Gwynedd yng Nghwmbran yn y ras 1500m dros glwyd a ffôs (Steeplechase), ym Mhencampwriaethau Ysgolion Cymru. Pob lwc iddo.

CYMDEITHAS RHIEINI AC ATHRAWON YSGOL BRYNREFAIL

Mewn Cyfarfod Agored yn yr Ysgol nos Wener, Mai 8ed, dewiswyd y canlynol i gynrychioli rhieni:

Dalgylch Ysgol Dolbadarn: Mr Llewelyn Ll Roberts, 38 Stryd Fawr, Llanberis. Dalgylch Ysgol Llanrug: Dr Eurwyn Ll Evans, Gerwyn, Llanrug. Dalgylch Ysgol Gwaun Gynfi: Dr Dafydd W Williams, 1 Pentre Helen, Deiniolen. Dalgylch Ysgol Cwm-y-Glo: Mrs Carol Houston, 2 Trem Eilian, Brynrefail. Dalgylch Ysgol Bethel: Mrs Nan Owen, Gerwyn, Saron, Bethel. Dalgylch Ysgol Penisarwaun: Mrs Eleanor Williams, Bryn Rhydd Mawr, Penisarwaun. Mrs Mair Price, 5 Tan y Ffordd, Bethel; Mrs Vera Griffith, Dol Elidir, Llanberis; Mr Selyf Roberts, 6 Fron Goch, Llanberis; Mr Arwel Jones, Pant Hywel, Penisarwaun; Mrs V Barnard, 7 Llainwen Uchaf, Llanberis. Athrawon: Mrs Jennifer Fletcher, Mrs Rhian E Owen, Mr Dafydd Evans, Mr R T Jones, Mr R B Roberts.

Trefnir cyfarfod o'r Pwyllgor yn fuan. W E Thomas
Prifathro.

HELPU'R HENOED: Cyfranwyd £450 ar Apêl yr Henoed gan ddisgyblion Blynnyddoedd 1,2 a 3 yn dilyn cystadleuaeth Blockbusters nodedig.

AR WERTH

Pram 'Silver Cross' fel newydd, hefyd crud gwail i fabi ifanc.
Ffôn Llanberis 870735

Sylwch ar ein cyfeiriad newydd . . .

**J M JONES
A'I FEIBION**

**GWAITH CERRIG BEDDAU
Y SGWÂR, LLANRUG**

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol,
Cerrig o bob math ar gael.

**Ffôn: Caernarfon 2898 (dydd)
Y Felinheli 670124 (nos)**



22 BRYNTIRION

Ffôn:
Llanberis

870145

PENISARWAUN

**Gwasanaeth 24 awr – pell ac agos
Gwasanaeth Maes Awyr
a Phorthladd
Gwaith Contract**

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

CLWB YR HEULWEN: Mwynhawyd paned a sgwrs brawn dydd Mawrth, Mehefin 17eg. Cydymdeimlwyd â Mrs Porter ar golli ei modryb yn Llanrug. Llongyfarchwyd Mrs Nesta Jones ar gyrraedd ei 89 oed. Croesawyd Mrs A Williams yn ôl ar ôl gwaelled. Dymunwyd gwellhad buan i Mrs M Thomas a Mr Evan Hughes sydd yn yr ysbyty. Rhoddwyd y te gan Mrs G Lewis a Mrs Doreen Fisher. Diolchwyd iddynt gan Mrs Nesta Jones. Enillwyd y raffl gan Mrs Percy Williams. Bydd y trip blynyddol, sef Taith Ddirgel ar Orffennaf 14eg. Diweddwyd y cyfarfod gan Mrs Katie Williams. Bydd y cyfarfod nesaf ar Orffennaf 29ain.

YSGOL TAN-Y-COED: Croeso cynnes i Sioned Rhian i'n plith, 'rwy'n siŵr y bydd yn hapus yn Safon 2.

Llongyfarchiadau i'r plant fu'n llwyddiannus mewn prawf beicio diogel.

Bydd trip yr ysgol i Sŵ Bae Colwyn ddydd lau, Gorffennaf 9fed.

'Bnawn Mercher, Mehefin 3ydd bu Safon I a'r Babanod Uchaf yn Ysgol y Gelli, Caernarfon i weld perfformiad cofiadwy iawn o 'Swyn y Blodau'. Yr oedd y plant wrth eu bodd yn y babell amryliw a bu eu hymateb i'r perfformwyr yn ffafriol iawn.

Newydd trist i'r plant a'r staff oedd clywed fod Anti Dot yn ein gadael fel Anti Lolipop. Bu'n hynod o garedig a gofalus drwy'r blynyddoedd ac yn uchel iawn ei pharch gan y plant i gyd. Dymunwn ddiolch iddi am ei charedigrwydd a'i chydweithrediad a phob dymuniad da iddi yn ei swydd newydd ar Safle Cynllun Dŵr Dinorwig. Diolch Anti Dot. Bydd 5 o enethod yn gorffen eu tymor hwythau yn Ysgol Tan-y-Coed eleni - 5 o enethod dibynnol dros ben. Bydd chwithdod ar eich ôl genod, pob dymuniad da ichi yn Ysgol Brynrefail.

Bydd yr ysgol yn cau 'bnawn Mercher, Gorffennaf 15fed am 1 o'r gloch ac yn ail ddechrau ddydd Mercher, Medi yr 2il. Gwyliau hapus i chi i gyd blant a chymrwch ofal.

ADRAN BENTREF YR URDD

TRIP I FERTHYR: Aeth nifer o rieni a pharti Dawnsio Gwerin i lawr i Eisteddfod yr Urdd ym Merthyr yn ystod gwyliau'r Sulgwyn. Daeth parti canu o Fethel gyda ni hefyd. Dymuna Mrs Delyth Williams a'r pwyllgor ddiolch am bob cefnogaeth gan y pentrefwyr, ac yn arbennig i'r plant am eu hymddygiad. Bu'n bleser eu hebrwng ar daith mor faith - mewn bws moethus. Diolchir yn arbennig i'r trefnyddion, Mrs Delyth Williams, Mrs Carolyn Roberts a Mrs Elinor Williams.

EISTEDDFOD BENTREF



Priflenor dan 12 oed: Joanna Jones, a'r priflenor dan 18 oed: Gwenllian Parry.

EISTEDDFOD BENTREF: Cynhaliwyd yr Eisteddfod yng Nghapel Glascoed nos Wener, Mehefin 19 am 5.30 yr hwyr. Y beirniaid oedd: Cerdd: Mr Bill Evans, Caernarfon; Adrodd: Mr Selwyn Griffith; Gwaith Llaw a Choginio, Mrs Pat Jones, Brynrefail; Arlunio Mr Alan Ginsberg, Bethel a'r gyfeillyddes oedd Mrs Eirian Howells, Llanfairpwll.

Yr arweinyddion oedd Mrs Ann Ifans a Mr Leslie Jones. Y llywydd eleni oedd un o blant y pentref, sef Mrs Myra Hughes, Treffynnon (Cae Corniog gynt). Diolchir iddi am ei haelioni. Diolchir hefyd i'r ysgrifenyddes, Mrs Myfanwy Parry a'r Trysoryddion am eu gwaith caled. Mawr yw ein diolch i bawb fu'n hyfforddi'r plant. Bu'n Eisteddfod hynod o lwyddiannus gyda nifer o gystadleuwyr ym mhob cystadleuaeth - do bu'n Eisteddfod safonol, ddiddorol a chofiadwy o 5.30 tan 12.15 am. Diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd.

Dyma'r canlyniadau:

Adrodd

Dan 4: 1. Mathew; 2. Nicky. **4-6:** 1. Elgan, 2. Vanessa; 3. Daniel Fletcher. **6-7:** 1. Dafydd; 2. Aled; 3. Angela ac Ynyr. **7-8:** 1. Lois; 2. Trystan; 3. Rhys a Sioned (Safon 1). **8-10:** 1. Louise; 2. Sioned (Safon III). **10-12:** 1. Andrea. **12-16:** 1. Eurgain; 2. Sioned

Williams. **18 - Pensiynwyr:** 1. Eifion (Winllan). **Pensiynwyr:** 1. Mrs Katie Williams; 2. Mrs Percy Williams; 3. Mrs Porter. **Parti Adrodd Cynradd: Cwpan Tan-y-gaer:** 1. Parti Louise. **Parti Adrodd Uwchradd:** 1. Parti Sioned; 2. Parti Yvonne. **Parti Adrodd Oedolion:** 1. Y Daffodils.

Canu

Dan 4: 1. Erin; 2. Mathew, Nicky, Nia a Stephen. **4-6:** 1. Tracey; 2. Elgan; 3. Vanessa. **6-7:** 1. Dafydd; 2. Sian; 3. Siôn. **7-8:** 1. Lois; 2. Sioned (Safon I). **8-10:** 1. Sioned (Safon II); 2. Eleri; 3. Huw. **10-12:** 1. Morrigan; 2. Hefina; 3. Sioned Lewis. **Cân Werin dan 12:** 1. Hefina; 2. Sioned Lewis; 3. Nia a Sioned (Safon III). **12-16:** 1. Andrew; 2. Dyfed. **Cân Werin dan 16:** 1. Dyfed.

Unawd Pensiynwyr: 1. Mrs K Williams; 2. Mrs Percy Williams. **Deuawd dan 16:** 1. Sioned ac Eurgain a Hefina a Sioned. **Deuawd 18 - Pensiynwyr:** 1. Ann a Meira. **Parti Canu Babanod: Tlws Mrs Thomas:** 1. Parti Steven; 2. Parti Sian. **Parti Canu dan 9: Cwpan Rhosfair:** 1. Parti Sarah; 2. Parti Malcolm. **Deuawd Pensiynwyr:** 1. Mrs Porter a Mrs K Williams; 2. Mrs Percy Williams a Mrs K Williams. **Cân Ysgafn dan 18:** 1. Y Brodyr; 2. Haleliwia. **Parti Canu 9-12:** 1. Parti Eira; 2. Parti Rhian. **Parti Deulais dan 18:** 1. Parti Rhian; 2. Parti Amanda. **Parti Deulais Oedolion: Tlws Coffa Mrs J Price Jones:** 1. Parti'r Heulwen.

Arlunio

Dan 4: 1. Mathew; 2. Eurgain; 3. Vincent. **4-6:**



Mrs K Williams a ddaeth yn gyntaf ar yr unawd a'r adrodd, oed pensiynwyr.

1. Wena; 2. Iwan; 3. Vanessa. 6-8: 1. Paul T; 2. Lois; 3. Angela. **8-12:** 1. Arwel; 2. Hefina; 3. Sioned Lewis. **12-16:** 1. Dylan Price Williams; 2. Andrew Turner. **Oedolion:** 1. Julia Turner; 2. Arnold Jones. **Gwaith Llaw**

Dan 4: 1. Dion; 2. Eurgain. **4-6:** 1. Ben ac Iwan; 2. Wena; 3. Elgan. **Collage 6-8:** 1. Rhys; 2. Lois; 3. Huw. **Golygfa dan dŵr 6-8:** 1. Gwenllian; 2. Daniel Rowlands; 3. Eryl. **8-12:** 1. Owain; 2. Nia; 3. Joanna.



Parti'r Heulwen - enillwyr Tlws Coffa Mrs J Price Jones.

CLWB NEUADD BENTREF: Enillwyr Clwb Cant mis Mai a dynnwyd yn Sycharth oedd 1. Mrs Roberts, 12 Llŷs y Gwynt; 2. Mrs Betty Pritchard, Caernarfon; 3. Mrs Elinor Jones, Bron y Waun. Fe dynnir Clwb Cant mis Mehefin yn y Barbaciw ar dir Pant Hywel nos Wener, Mehefin 16ain. Tynnir Clwb Cant Gorffennaf yn Sycharth, nos Wener, Gorffennaf 24 am 7 o'r gloch, a Chlwb Cant Awst yn y Noson Gymdeithasol yng Ngwesty Fictoria, nos Sadwrn, Awst 29. Fe dynnir y Raffl Fawr ar y noson hefyd. Diolch i Argraffwyr Peniprint am y gostyngiad sylweddol ym mhrys y ticedi tuag at Gronfa'r Neuadd.

CARNIFAL

Wythnos Garnifal Penisarwaun Gorffennaf 4 - 11

Nos Sul: Gorffennaf 5: Cymanfa Ganu yn Eglwys Santes Helen am 7.00 pm. Gwneir casgliad gwyn.

Nos: Lun Gorff 6: Bingo am 6.30 yn Neuadd yr Eglwys. Mynediad 30c. Plant 10c wrth y drws.

Nos Fawrth, Gorff 7: 6.30 o'r gloch, noson i blant ysgol gynradd a phlant dosbarth 1 a 2 Ysgol Brynrefail. Mynediad 20c.

Nos Wener, Gorff 10: 6.30 o'r gloch. Gemau Giamocs ar un o Gaeau King. Canolwr Gwyndaf Huws, Llanrug. Mynediad 10.

Dydd Sadwrn, Gorffennaf 11

Carnifal y Pentref am 2.00 pm i gychwyn o'r Cae Chwarae.

Beirniaid Mrs Rowenna Williams, Caernarfon a Mr Deiniol Huws, Caeathro.

Mabolgampau ar ôl y Carnifal.

CLWB Y MERCHED: Nos Fawrth, Mehefin 23ain am 7.30 o'r gloch cafwyd sgwrs hynod o ddiddorol gan Mrs Trefor Lewis, Deiniolen am ei thaith i Israel. Rhoddwyd y te gan Mrs Eirlys Jones a Mrs Bessie Williams ac

12-16: 1. Eurgain Haf; 2. Andrew Turner. **16-18:** 1. Rhian Price Williams. **Oedolion:** 1. Mary Elliott a Judith (Winllan); 2. Jean Jones a Julia Turner.

Coginio

Dan 12: 1. Sioned (Safon I) ac Owain Turner; 2. Sioned Lewis; 3. Andrea a Sioned (Safon III). **12-16:** 1. Susan Williams; 2. Iola. **16-18:** 1. Olwen Meredydd. **Oedolion:** 1. Fiona Jones; 2. Mrs Janice Jones; 3. Mrs Porter a Mrs Elinor Jones.

Rhyddiaith

4-5: 1. Daniel Fletcher; 2. Nia Griffith; 3. Elgan. **5-6:** 1. Russel; 2. Tracey; 3. Vanessa ac Iwan. **6-7:** 1. Llŷr; 2. Ynyr. **7-8:** 1. Daniel Rowlands; 2. Rhys; 3. Eira. **8-10:** 1. Sioned Wyn Jones; 2. Louise ac Elizabeth Ann; 3. Owain Turner; 4. Caitlin ac Osian Dafydd. **10-12:** 1. Joanna Jones; 2. Andrea; 3. Hefina Jones a Sioned Lewis. **12-16:** 1. Eurgain Haf a Sioned Williams; 2. Dylan Price Williams. **16-18:** 1. Gwenllian Glyn Parry.

Barddoniaeth

8-10: 1. Arwel; 2. Eleri; 3. Llŷon. **10-12:** 1. Morrigan; 2. Andrea; 3. Joanna. **12-16:** 1. Eurgain Haf; 2. Dylan; 3. Dyfed. **16-18:** Gwenllian.

Prif Lenor dan 12 oed: Joanna Jones.

Prif Lenor dan 18 oed: Gwenllian Glyn Parry.

PENISARWAUN parhad

DIOLCH: Dymuna Mrs Nesta Jones, 2 Llys y Gwynt, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, blodau ac anrhegion ar ddathliad ei phen-blwydd yn 89 ar Fehefin 4ydd.

EGLWYS ST HELEN: Dydd Sadwrn, Mehefin 27ain fe ordeiniwyd Tegid Roberts, Arwel yn ddiagon mewn gwasanaeth arbennig yn y Gadeirlan, Bangor. Roedd y Gadeirlan dan ei sang ac arweiniwyd y gwasanaeth gan y Gwir Barchedig Cledan Mears, Esgob Bangor. Roedd unarddeg yn cael eu hordeinio ac roedd cynulliad da o aelodau'r Eglwys yn bresennol. Mae y Parchedig Tegid Roberts wedi ei ordeinio i wasanaethu yn Neonfaeth Arfon. Rydym yn ei longyfarch a dymuno'n dda iddo, a hyderwn y bydd yn ein harwain mewn gwasanaeth yn aml yn Sant Helen. Cawsom yr anrhydedd o

wrando ar y 'bregeth gyntaf' a draddododd yn ein Gwasanaeth Gosber, dydd Gweddi a Rhodd, nos Sul, Mehefin 28ain.

CROESO: Y mae Selwyn Jones, brawd Medwen Jones, 10 Bryntirion (gynt) yma am wyliau o boethder Toronto. Cafodd ef a'i wraig a'i dri plentyn groeso mawr yn ysgol Tan-y-Coed a mwyniant mawr iddo oedd camu'n ôl i'w ddyddiau cynnar yn yr hen ysgol. Symundodd i fyw i Landudno pan oedd yn 13 oed ac yn ddiweddarach mentrodd i Doronto. Y mae ei Gymraeg yn fyw iawn ac mae'n weithgar gyda'r Gymdeithas Gymraeg yno. Wedi rhannu ei atgofion melyn am yr ysgol, ei ddymuniad wedyn oedd mynd a'i blant i ben lle cyn hyfrytaf y pentref, sef Graig Fawr. Mwynhewch weddill eich gwyliau a chofiwch alw eto.

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)

CASGLIAD I'R DEILLION: Yn ystod wythnos gyntaf mis Mehefin gwnaethpwyd casgliad o amgylch y pentref i'r Deillion. Casglwyd £84.74. Carai'r trefnyddion ddiolch i bawb am eu haelioni a diolch arbennig i'r casglwyr sef Mrs Mair Jones, Mrs Falmal LL Owen, Mrs Elizabeth Williams a Myfanwy Jones.

CLWB FFERMWYR IEUAINC CAERNARFON: Cynhaliwyd Rali Flynyddol Clybiau Ffermwyr Ieuainc Eryri ar Fferm Crugeran, Sarn Melltteyrn dydd Sadwrn Mai 24ain 1987. Bu'r aelodau'n brysor drwy'r dydd yn cystadlu mewn gwahanol gystadlaethau ac yn stiwardio. Barnu Sbwng Victoria - Ellen Hughes, cyntaf; Coginio dan 18 oed - Carys Owen a Wena Williams, pedwerydd; Barnu Wyn - Elwyn H Parry a Helen Jones; Dreifio tractor a threlar - Andrew Jones a Helen Jones; Llyfr Lloffion Clwb - Ellen Hughes; Cystadleuaeth HTV - Mobile - Angharad Ellis ac Angharad Preis; Cneifio gyda pheiriant dan 18 oed - Eurwyn Jones; Gwaith coginio dan 31 oed - Ellen Hughes a Myfanwy Jones; Rowlio Bêl fawr wellt - Aled Jones, Alwyn Jones, Andrew Jones, Andrew Kettle a Gwen Jones; Coginio dan 21 oed - Sioned Parry; Coluro Gwyneb - Eurwyn Jones a Gail Warrington; Ras Ferfa i ferched - Gwen Jones, Nia Jones, Gail Warrington a Wena Williams.

TRIP YR YSGOL SUL: Bydd plant ysgolion Sul y Cysegr a Bethel yn teithio i'r Rhyl eleni dydd Sadwrn, 4ydd Gorffennaf. Gobeithio bydd y tywydd wedi setlo erbyn hynny!

YSGOL SUL Y CYSEGR: Dydd Sul,

28ain Mehefin newidiodd y Gweinidog, Y Parch W R Williams drefn y gwasanaeth hwyr. Cynhaliwyd yr Ysgol Sul fel arfer am 2 o'r gloch yna ymunodd y rhieni a chyfeillion y plant am banded o de am chwarter i dri. Yna aeth pawb i'r Capel am wasanaeth gyda rhai o blant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan. Bwriada athrawon yr Ysgol Sul drefnu bws i fynd i Gymanfa Ganu'r Plant, Eisteddfod Porthmadog pnawn Sul Awst 9ed. Bydd mynediad trwy raglen yn unig. Os oes rhywun â diddordeb cysylltwch â Mrs Nan Owen, Berwyn neu Mrs Lynwen Morris, Llys Myfyr cyn gynted ag sydd bosibl. Gwobrwyd nifer o blant yr Ysgol Sul mewn gwasanaeth arbennig yng Nghapel Seilo, Caernarfon, Mehefin 10ed. Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu gwaith da yn yr arholiad Sirol. Dan 9 oed - Catrin Angharad Hughes a Gwenan Elis. Dan 10 - Llinos Angharad Morris, Donna Marie Williams, Llinos Ann Roberts, Sonia Roberts, Nia Elin Davies a Richard Roberts.

DIOLCH: Dymuna Mrs Mona O Williams, 9 Bro Rhos, Bethel ddatgan ei diolch i'w pherthnasau, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd. Diolch i'r meddygon a'r nyrsus am eu gofal tra yn Dulas Ward.

YSGOL FEITHRIN: Cynhaliwyd cyfarfod o bwyllgor a rhieni'r ysgol feithrin ar Fehefin 16eg. Penderfynwyd mynd â'r plant am eu trip blynyddol eleni i'r Fferm Gwningod yn Llanystumdwy ger

Criccieth ar Orffennaf 6ed gan gychwyn o Ysgol Bethel am 9.00. Gyda thristwch, clywodd y pwyllgor fod Anti Rita (Mrs Rita Williams) wedi penderfynu ymddiswyddo fel athrawes ar ôl pum mlynedd o waith caled i'r Ysgol Feithrin. Diolchodd y pwyllgor iddi am ei gwaith da yn ystod yr amser yma a dymuno'n dda iddi i'r dyfodol. Penderfynwyd cynnig y swydd holl bwysig yma i Mrs Margaret Rees.

Bydd y pwyllgor a'r rhieni yn cynnal wythnos agored o Fehefin 29ain hyd Orffennaf 3. Fe gynhelir yr wythnos yn y caban, ac estynnir croeso i unrhyw un ymweld â'r caban, ac i weld gwaith y plant. Bydd yr ysgol ar agor o 9 tan 11.00, bore Llun, lau a Gwener ac o 1.00 tan 3.00 prynhawn Llun, Mawrth a lau. Cofiwch bydd paned o de ar gael yno hefyd!

LLONGYFARCHIADAU: i Mervyn a Rhian Bardsley, 3 Eryri ar enedigaeth mab, Marc, bore Sadwrn 20 Mehefin. Hefyd i Mair a Goronwy Jones, Glan Gors ar fod yn nain a taid am y tro cyntaf gyda genedigaeth Dafydd, mab bach Helen a Tony Davies, Y Gaerwen.

Llongyfarchiadau i Helen W Williams, 1 Tan y Cae fydd yn 18oed ar y 7ed o Orffennaf.

MERCHED Y WAWR: Daeth tymor arall i ben nos Fercher, Mehefin 10ed, gyda'r daith ddigrl. Roedd y tywydd yn garedig iawn wrthym wrth gychwyn o Fethel. Aeth nifer dda iawn o'r aelodau i lawr i Nant Gwytheyrn, trefnwyd Land Rover i fynd a rhai o'r aelodau i'r Nant a phenderfynodd nifer dda gerdded y ffordd serth i'r gwaelod. Cawsom hen hanes Nant Gwytheyrn gan Mr

Gwyn Elis ar ran yr Ymddiredolaeth a chawsom ar ddeall fod diweddar wr Mrs Sally Hughes, Bro Rhos wedi ei eni yn y Nant ac y cofiai hi'r Nant yn llawn bywyd, hefyd mam yng nghyfraith Mrs Meinir Roberts hithau yn un o blant y Nant. Wedi'r sgwrs ddifyr iawn cawsom gyfle i weld y tai sydd wedi eu hadnewyddu. Bu'r Land Rover yn brysorach yn cario'r aelodau'n ôl at y bws - roedd y nifer a gerddodd i fyny tipyn yn llai. Roedd pawb yn barod iawn am y bwyd blasus oedd ar ein cyfer yn y Woodlands Hall, Eder. Diolchodd Mrs Anne Elis i'r Swyddogion, Mrs Beti Owen a Mrs Eirlys Sharpe a'r pwyllgor i gyd am bob cymorth yn ystod y flwyddyn a dymunodd yn dda i Mrs Lynwen Morris a'i phwyllgor hithau at y tymor nesaf.

TRIP I WOLVERHAMPTON: Aeth nifer o blant Bethel i Wolverhampton dydd lau Mehefin 25 tan y 26 i gefnogi tîm Ysgol Brynrefail yng ngemau cenedlaethol 'We are the Champion' y B.B.C. Llongyfarchiadau i Aled Griffiths a Bethan Jones a ddewiswyd i'r tîm.

TRIP I GAERDYDD: Gobeithia'r Parchedig W R Williams drefnu bws i fynd a phobl ifanc rhwng 12-18 oed i Gaerdydd i recordio rhaglen ysgafn a naws grefyddol iddi dydd lau Gorffennaf 15ed. Os oes unrhyw un â diddordeb, cysylltwch ^) Geraint Elis, Cilgeran mor fuan a sydd bosibl.

CHWARAEON: Nos Wener, Gorffennaf 10ed cynhelir noson o chwaraeon i blant y pentref wedi ei threfnu gan aelodau Eglwys y Cysegr. Bydd unrhyw elw a wneir ar y noson yn gyfraniad i gasgliad y Cyfundeb i'r Sahel.

GŴYL GORAWL ERYRI



Yn y llun uchod gwelir Nia Wyn Roberts o Ysgol Sul Sant Padarn Llanberis, a enillodd darhon am y gwaith gorau yn yr Arholiad Ysgrifenedig i blant oedran blynyddoedd 1 a 2 Ysgolion Uwchradd, a lolo Griffith o Ysgol Sul Eglwys Crist Llandinorwig, a enillodd Gwpan Coffa Alun Jones, Offeiriad, am y gwaith gorau i blant oedran blynyddoedd 3 a 4 Ysgolion Uwchradd.



CRIB COCH

**Y SGWÂR, LLANRUG
Ffôn Caernarfon 76772
TRIN GWALLT I BAWB
O'R TEULU GAN JEN**

Ffoniwch neu galwch i drefnu amser

**NEWYDD
AGOR!
SIOP
BAENT**

**STORFA
Tŷ NEWYDD**

BRWSHUS . TYRPS
POLIFFILA . BWCEDI
'HARDWARE' AC ATI



**BECWS
DEINIOLEN**
(D.E. & R.P. JONES)

**Ffôn:
LLANBERIS 870232
BARA FFRES A
THEISENNAU BLASUS**
Hefyd gwerthwyr
CALOR GAS

ECO'R IFANC

Y BEIC NEWYDD

Hapusrwydd i mi oedd cael anrheg, cael fy newis i chwarae yn nhim pêl-droed yr ysgol neu cael aros ar fy nhraed yn hwyr ar nos Sadwrn. Ni sylweddolais fod mwy i hapusrwydd na hynny tan y gwelais i Dafydd yn y cae chwarae brynhawn dydd Nadolig eleni.

Bachgen saith mlwydd oed ydi Dafydd, ac y mae'n frawd i Sion fy ffrind gorau. Gwelais ef gyntaf yn nhe parti ei frawd mawr, pan oedd Sion a minnau yn y trydydd dosbarth yn yr ysgol.

Pan gyrhaeddais y parti roedd saith o blant yn bwyta'n awchus o amgylch y bwrdd. Eisteddai Sion ar un pen a bachgen bach direidus, tua thair oed ar y pen arall. Nid oedd taw ar geg Sion ac yr oedd Dafydd, y bachgen teir-blwydd, yn stwffio creision i'r jeli ac yn ceisio yfed ein diodydd.

Ar ôl i bawb fwyta eu siar aethom allan am gêm o bêl-droed. Ni sylwais nad oedd Dafydd gyda ni ond yna, drwy gil fy llygaid, gwelais Mrs Jones yn ei gario at gadair freichiau yng nghornel yr ardd. Gofynnais i Sion pam nad oedd ei frawd bach yn dod i chwarae, "Fedar o ddim cerddad", meddai hwnnw gan redeg ar ôl y bêl.

Ni allwn gredu fy nghlustiau, a themlais ias oer yn mynd i lawer asgwrn fy nghefn. 'Roeddwn eisiau mynd at Dafydd i siarad ond wyddwn i ddim beth i'w ddweud wrtho.

Mae pedair blynedd wedi mynd heibio er hynny, ond dal i ddibynnu ar eraill mae Dafydd. Er hynny pan welais ef yn y cae chwarae gyda'i dad, rhyw dri mis yn ôl, yr oedd mor hapus â'r gôg. Fel yr awn ato i siarad saethodd y bêl heibio i mi.

"Dos ar'i hol hi'r ffwl," gwaeddodd.

Ufuddheais. Rhedais a chiciais y bêl i ganol y gôl. Edrychais i gyfeiriad Dafydd a gwelwn ei ddwylo yn chwifio fel melin wynt yn yr awyr. 'Roedd ein gweld ni yn chwarae pêl-droed yn rhoi ychydig o bleser iddo beth bynnag. Digwydd taro arno wneuthum y diwrnod hwnnw. Y mae mewn ysgol arbennig i blant anabl ac felly ni fyddaf yn ei weld yn aml.

Rhyw hanner blwyddyn yn ôl gofynnodd ein hathro i ni ysgrifennu stori ar y testun, 'Gwario Can-punt'. Roedd y mwyafrif ohonom yn mynd i brynu pob math o geriach, ond prynu peiriant i'w frawd allu symud heb fawr o gymorth oedd Sion am ei wneud. Cyffyrddodd hyn galon Mr Huws, a'r noson honno cafodd Sion lythyr i fynd adref i'w rieni.

Ymhen deuddydd daeth Mr Huws a phentwr o gatalogau i'r ysgol. Roeddant yn llawn darluniau o ffyn arbennig, fframiau cerdded, cadeiriau olwynion a pheiriant tebyg i feic tair olwyn. Hwnnw gymerodd ein bryd. Roedd o'r union beth yr oedd Dafydd ei angen, ond ni allem fforddio peth mor ddrud.

Daeth Mr Huws i'r adwy, "Beth am fynd ati i gasglu arian" meddai.

Penderfynom gynnal taith gerdded

FFERMWYR IEUAINC ERYRI A MEIRION
YN CYFLWYNO

**CODI
GO OHWYLIAU**

**YM MHAFILIWN
EISTEDDFOD BRO MADOG
NOS FERCHER, AWST 5ed
am 10.30 o'r gloch**

GARI WILLIAMS
GERAINT LOVGREEN A'R ENW DA
4 YN Y BAR TOM DAVIES
TEULU HENDRE CENNIN
Y BRODYR GREGORY
COR IEUENCTID DYSYNNI
EIRLYS PARRI

TOCYNNAU AR GAEL O SWYDDFA'R FFERMWYR IFANC
COLEG GLYNLLIFON, LLANKNDA 631214
NEU O BABELL Y MUDIAD AR Y MAES
PRISTOCYN - L2 A E3



Dyfan Siôn, Deiniolen, Trydydd am ryddiaeth 10-12 oed.

noddedig wythnos i'r Sadwrn canlynol, ac aethom o gwmpas y pentref yn casglu noddwyr. Pan glywodd plant o ddosbarthiadau eraill, 'roeddynt hwythau yn awyddus i helpu a chyn pen dim, 'roedd gan y Prifathro bumdeg dau o enwau yn cynnwys rhai plant o'r Ysgol Uwchradd.

Yn ffodus 'roedd y dydd Sadwrn penodedig yn ddiwrnod sych. Ni'r bechgyn hynaf oedd yng nghynffon y criw, rhag ofn i rai o'r plant ieuengaf nogio, er fod rhieni pump ohonom mewn ceir yn ein gwyllo ar y daith a phump o'r athrawon yn cyd gerdded â ni. Llwyddodd pawb ond Bethan, fy chwaer fach, i wneud y dasg. Bu raid i honno faglu a chrafu ei phenglin a hithau ddim mwy na chanllath o'r ysgol, ein man cychwyn, ond dim ond chwech ydi hi ac felly maddeuwyd iddi am y tro a rhoddwyd hi i eistedd fel brenhines yn un o'r ceir.

Pan gyrhaeddodd yn ôl yn yr ysgol roedd mamau rhai ohonom wedi paratoi cawl poeth ar ein cyfer. Profiad braf oedd teimlo hwnnw'n llifo'n gynnes i lawr fy ngwddf ar ôl cerdded drwy'r oerni.

Bu pawb yn brysur yn casglu am ddyddiau wedyn, ac erbyn y prynhawn Gwener canlynol yr oedd yr arian i gyd wedi dod i mewn; swm o ddau gant wyth-deg dau o bunnoedd a saith-deg un o geiniogau. Roedd hyn yn swm da o arian ond 'roedd angen bron i gant a hanner arall arnom. Daeth Mr Huws i'r adwy unwaith yn rhagor. Reidio adref o'r ysgol, rhyw wyth milltir o ffordd, fyddai ei gamp ef. Yr oedd pawb i dalu deg ceiniog y tro am geisio dyfalu faint o amser a gymerai, ac yr oedd bocs o nwyddau yn wobwr i'r sawl a enillai.

Cynhaliwyd y ras bron i wythnos ar ôl y daith gerdded a gwnaethpwyd elw o gant saith-deg dau o bunnoedd. 'Roedd gennym ddigon i dalu am y peiriant, ac yr oedd digon trosodd i gael manion fel cloch a chorn i'w addurno.

Brynhawn Mercher cyn gwyliau'r Nadolig, a minnau allan yn chwarae, daeth lori fawr ac aros wrth giat yr ysgol. 'Roeddwn yn llygaid i gyd pan welom 'Boswell Brothers' wedi'i ysgrifennu ar ochr y lori. Cyn bo hir gwelsom Mr Huws, gyrrwr y lori a Mr Tomos y Prifathro yn cario anferth o focs i mewn i'r ysgol, ac ar ôl i'r gloch ganu aeth pawb i'r neuadd i weld ei gynnwys.

'Roedd y peiriant wedi cyrraedd. Beic coch tair olwyn, eithaf cyffredin yr olwg ond fod ei sedd fel cadair freichiau a bod peiriant bach yn ei yrru. Ar ôl tywallt ychydig o betrol i'w grombil rhoddodd y Prifathro Sion i eistedd arno, ac ar ôl pwyso botwm ar yr handlan dde cychwynodd y beic. Roedd Sion druan yn igam-ogamu fel neidr ar hyd llawr y neuadd, a phawb arall yn gwichian o falchder a chynnwrf.

Ni welais y beic wedyn tan euthum i'r cae chwarae brynhawn dydd Nadolig. Yno, 'roedd nifer o'm ffrindiau yn gwau trwy'i gilydd ar gefn eu beiciau newydd a Dafydd yn eu canol yn mynd fel chwrligwgan ac yn gweiddi chwerthin.

Mae perfformwyr ifanc y fro wedi cael - ac yn sicr o gael eto, y sylw haeddiannol yng ngholofnau'r Eco. Tro y beirdd a'r llenorion ifanc yw hi y mis yma. Dyma i chi gynnwys y bobl ifanc a gafodd ganmoliaeth am eu gwaith yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Merthyr Tydfil.

Felly ein llongyfarchiadau i David John Pritchard, Sion Wyn Hughes, Lowri Angharad Roberts a Dyfan Sion. Cofiwch eu henwau a mwynhewch ddarlennu eu gwaith!

Y BEIC NEWYDD - Siôn Wyn Hughes

Araf iawn yr ymlusgodd Alun tua'r gwely. Gan ei bod yn nos Wener roedd wedi cael aros yn hwyrach i weld ffilm antur ar y teledydd. Roedd yfory am fod yn anturus iddo yntau hefyd. Roedd y beic newydd a gafodd ar ei ben-blwydd wythnos yn ôl yn crefu am gael ei farchogaeth. Ar ben hynny roedd ei fam a'i dad wedi addo mynd ag Alun a'i ffrind Huw ar bicnic at Lyn Crafnant yfory gyda'r beiciau.

Teimlai'n lluddedig wrth suddo i'w wely cynnes. Clywodd hwntian y gwddihw yn y coed gerllaw ac udo cwn yn y pellter - roedd popeth mor gynhyrfus. Beth fyddai Huw ac yntau yn ei wneud wrth y llyn? Tybed a fyddai Mam yn gadael i'r ddau fynd ar y beiciau at yr hen blas? Fe fyddai Huw ac yntau yn...

O 'roedd y daith ar hyd y llwybr troellog yn anodd ac yn faith yng nghanol y gwynt a'r glaw. Dyma storm ofnadwy, a diolchai Alun fod y beic newydd yn gryf ac yn gadarn i ddal y storm. Nid oedd undyn byw i'w weld yn unman, ond ymhen hir a hwyr daeth yr hen blas i'r golwg - câi aros i ymochel am dipyn. Agorodd y drws a rhoi'r beic yn erbyn y wal - yr oedd rhywbeth ynglŷn â'r hen blas yma yn gyrru iasau oer i lawr asgwrn ei gefn. Yn sydyn clywodd lais egwan yn galw o ddyfnderoedd yr hen blas. Heb betruso dim tynnodd y lamp oddi ar y beic ac aeth i gyfeiriad y llais. Agorodd ddrws gwichlyd a gwelodd yng nghanol yr ystafell dywyll eneth a'i phen cyrliog coch yn tynnu sylw Alun.

"Beth wyt ti'n ei wneud yn yr hen ystafell yma?"

"Rydwi wedi fy nghlymu yn erbyn y ffenestr."

"O! rwy ti yn gwneud imi feddwl am Luned Bengoch."

"Dyna pwy ydw i."

"Wel! mi ydw i wedi darllen dy hanes di, a'r hen Feryn Ddu yna," meddai Alun.

"O! paid a sôn amdano, yr hen genau creulon. Mae o'n chwilio ym mhob man am drysor Nain, ond mae hwnnw yn saff yn fy mynws i. Pwy bynnag wyt ti dos â mi oddi yma - mae gen i gymaint o ofn."

"Yli," meddai Alun. "Mae gen i feic newydd wrth y drws, mi â i â chdi oddi yma."

"Beic! Beic! Fûm i erioed ar gefn beic, ond brysia cyn i'r hen Feryn Ddu yna ddod yn ôl," meddai Luned.

Wedi cryn drafferth torrodd Alun y rhaff oedd yn clymu yr eneth wrth y ffenestr, a chariodd hi ar ei gefn tuag at y drws lle roedd wedi gadael y beic. Pan oedd Alun a Luned ar gychwyn ar gefn y beic clywsant lais cras yn galw o grombil y Plas, "Rwan am yr eneth yna - mi ga i wybod ymhle y mae'r trysor yna."

Ni welodd Alun ddim wrth yrru'r beic ar gymaint o wib ar hyd y llwybr ac i lawr yr allt serth. O! beic da oedd hwn ac mor gyflym. Ond O! roedd ar gymaint o frys aeth ar wib i erbyn y graig ar y tro a disgynnodd ef a Luned oddi ar ei gefn. O! dyna helynt roedd y beic newydd yn chwllfrw. Cododd ei lais mewn dychryn...

"Bobol bach," meddai mam Alun.

"Beth wyt ti'n ei wneud ar y llawr a dillad y gwely yma dros dy ben. Tyrd, côd mae'n ddiwrnod ardderchog am bicnic - mi fydd yn fendigedig wrth Lyn Crafnant gei di weld."

"Ond mae'r beic yn racs," meddai Alun yn syfrdan.

"Y beic newydd yn racs - beth sydd ar dy ben di?" meddai Mam. "Mae dy dad newydd ei dynnu allan o'r sied yn barod iti."

Cododd Alun o ganol y pentwr dillad gwely. Plas Crafnant ... Luned Bengoch ... y trysor ... y beic newydd ... disgyn.

O well! breuddwydiwr fu Alun erioed ond roedd hon wedi bod yn freuddwyd gynhyrfus iawn. Diolchi fod y beic



Siôn Wyn Hughes, Deiniolen, 2 gyntaf:- Rhyddiaeth a Llythyr 10-12 oed.

newydd yn saff, ond hen dro iddo golli Luned Bengoch a'r trysor yng nghanol y pentwr dillad.

Yr Hostel,

Paris,

Ffrainc,

Pnawn Iau

Annwyl Dad a Mam,

Gair bach o ganol prysurdeb y gwyliau. Mae'r tywydd yn fendigedig yma, a'r Hostel lle'r ydym yn aros yn ddigon cartrefol, er nad yw'r bwyd yn rhy dda.

Roedd y môr fel gwydr wrth inni groesi o Dover i Calais, a'r creigiau gwyn yn edrych yn hynod o ddeniadol o ganol y môr.

Mae yna ddigon o bethau i'w prynu ar y cwch ar y ffordd yn ôl - hwyrach y câf bersawr i chwi, Mam, os y bydd yna ddigon o arian ar ôl yn fy mhoded. Mae Paris yn hyfryd er bod y prysurdeb yn fy llethu. Mae'r Hostel y tu allan i'r ddinas ar y Cyrrion ond eto yn ddigon agos inni fynd yn ôl a blaen. Ddoe cawsom daith o gwmpas yn y bws a gwaig hynod o ddeallus yn dangos y manau diddorol inni. Diolch eich bod wedi prynu camera imi, Dad - mae'n rhatach tynnu llun na phrynu cardiau post.

Bobol bach, roeddwn yn teimlo fel botwm wrth odre Tŵr Eiffel - mae o'n anferth. Chawsom ni ddim mynd i fyny ychwaith, ond yr oedd yn wefr cael bod yn ei ymyl.

Sôn am y bobl oedd wrth Eglwys Notre Dame - roedd hi fel Tŵr Babel yno efo'r holl ieithoedd gwahanol - a Huw ac Alun a minnau yn parablu Cymraeg dros y lle. Ydych chi'n cofio chi a fi, Mam, yn gwyllo yr 'Hunchback?' Wel! roedd ias yn fy ngherdded wrth edrych ar ei gerflun ar yr Eglwys yma.

Yn y pnawn cawsom i gyd fynd yn y bws i weld Eglwys y Sacre Coeur. Welais i erioed y fath olygfa. Roeddem mor uchel i fyny nes ein bod yn edrych i lawr ar Baris. Wyddoch chi beth - roedd Tŵr Eiffel yn edrych yn fach o'r fan yma.

Rhaid imi ddweud hyn wrthyhych. Cefais brofiad na fedraf byth ei anghofio - mynd o'r gwres tanbaid i mewn i oerfel yr Eglwys a'r organ yn chwarae. Mi wnes i oleuo tair kannwyll - un i chi, Mam, un i chi, Dad, ac un i mi fy hun, a'u rhoi ar yr allor. Wrth droi allan yn swm yr organ daeth hiraeth arnaf amdanoch. Biti na fuasech yma i rannu'r profiad hefo fi.

Yfory rydym yn cael mynd i'r Ganolfan Siopa. Gobeithio y medra i ddygymod â'r iaith a thrin yr arian!

Bore Sadwrn byddwn yn ffarwelio â'r ddinas brysur yma ac yn cychwyn tuag adref. Diolch ichi, Dad a Mam, am adael imi ddod efo'r criw ysgol.

Rwyf wedi cael y fath brofiad, gweld cymaint, a chael y fath hwyl - mi gofiai am y daith yma am byth.

Rhaid cau pen y mwdwl rwan - mae'r gloch yn canu - mae bwyd yn barod. Gobeithio na fydd yn rhaid blasu malwod na choesau llyffantod!

Cofion anwylaf atoch eich dau,

HOGYNI FAM!!

Cyfarchodd y cloc larwm fi gyda sgrech anaeorol, gallwn daeru ei fod mewn poen dychrynlyd o'r ffordd y bloeddai. Tynnais y flanced gynnes yn dynnach amdanaf ac anwybyddu y tinclo di-diwn. Pam y creodd Duw fore, dwn i ddim, teimlwn fod y byd yn dod i ben. Mor gyffordus a meddal y teimlai'r gwely ar tu allan mor dywyll a swllyd. Ond gwyddwn bod rhaid i mi godi rhywbryd, nid rwan chwaith.

Meddyliais am Llŷr. Mor wahanol yr oedd o i mi. Fuasai neb yn coelio ei fod yn frawd i mi. Mae o'n hŷn na mi o lawer, mae o'n un ar hugain. Yn y coleg mae o, eisiau bod yn athro coeliwch neu beidio!! Mae o'n glyfar, medda' mam, rhwng chi a fi mae o'n edrych mor ddwl â iâr ar fin gori. Ond dim iws deud hynny wrth mam "hogyn i fam 'di'r peth bach" ddywedith hi. Bob bythefnos bydd yn gyrru llythyr i mi a presant weithiau, dyna'r unig beth sy'n cadw ni'n dau yn ffrindiau.

Deffrodd mam fi o'm breuddwydion gyda bloedd fod brecwast yn oeri.

Lithrais o'r gwely'n anfodlon iawn ac at y basin molchi. Troais y tap dŵr oer ymlaen ac ymestyn am fy mrwsh dannedd rhacslyd. Gwthiais fy mrwsh yn ôl ac ymlaen heb lawer o ymdrech, yna edrychais yn y drych i weld os oeddynt yn edrych yn ddigon glân. Dyna syndod a gefais. Bu bron i mi gamgymeryd fy adlewyrchiad am gacen gri yr arferai nain Sir Fôn gwneud. Roedd fy ngwyneb wedi ei orchuddio â sbotiau bach a mawr. Syllais mewn anobaith, edrychwn yn fwy tebyg i lewpart a theimlwn mor ffyrnig ag un yn sicr. Diwedd y gan oedd fy mod yn aros adref. Mi ddylwn fod yn hapus mae'n siwr nad oeddwn yn gorfod mynd i'r ysgol, ond teimlwn mor ddigalon â phlentyn bach wedi colli ei lolipop. Mor oer mor anghrosawus y teimlai'r tŷ, roeddwn yn unig.

Cerddais tuag at y ffenest a rhwbio trwch o lwch i weld yn glir y tu allan. Roedd hi'n eitha prysur. Roedd pobl trin ffordd yn nhop y stryd yn tyllu twll anferth, gan daflu cerrig a gwasgaru llwch gyda dwndwr a swm dychrynlyd yn hollti mhen, a mwg budr, ddigon i godi cyfog ar unrhyw un yn codi'n gymylau uwch fy mhen. Roedd Tomos Tomos yn golchi ei ffenestri yng nghanol y llanast ar ben ei ysgol fregus a'i wraig yn syllu arno'n sarhaus. Pasiodd Margaret Marmaduke ar Rhydderch yn ei 'hai hils' coch 'spotles' a'i chot ffyr mink i fatchio a'i thrwyn yn yr awyr. Hi ydi maeres y dre ac mae hi'n byw ar ei phen ei hun mewn plasdy sobor o grand. Yna daeth y postman yn ei fan goch a oedd yn edrych braidd yn fudr i barcio dros y ffordd.

Collais ddidordeb, edrychais ar y postman yn dosbarthu'r llythyrau ar parseli, wedi ngorchfygu gan ddiastod. Roedd ganddo barseli ac amlenni o bob lliw a llun, mawr a bach. Gwagwyd y sach yn araf. Un parsel oedd ar ôl a siap diddorol iawn iddo, fe rown y byd am gael gwybod beth oedd ei gynnwys.

Yna er fy syndod cychwynodd y Postman gerdded at ein tŷ ni, roedd yn anelu am ein drws ffrynt, canodd y gloch gan adael y parsel ar ein trothwy. Rhuthrais i agor y drws ac yno gorweddai'r parsel. Codais ef a'i gario i mewn yn ofalus. Bodiais ef yn feddyglar. Roedd wedi ei lapio mewn papur brown budr a oedd wedi rhwygo mewn mannau a llinyn gwyn wedi ei glymu'n dyn o'i amgylch ac wedi ei lynnu'n sownd gyda tâp selo roedd llythyr wedi ei gyfeirio i mi. Syllais gyda phleser ar yr amlen. Yna edrychais ar y stamp; dim gwahanol i'r arfer. Craffais i adnabod yr ysgrifen, Llŷr efallai.

Penderfynais agor y llythyr yn gyntaf, efallai y rhoi hwn oleuni ar y mater. Lithrais fy mys yn ofalus drwy'r amlen a thynnu'r papur ysgrifennu bler allan. Dyma'r cynnwys:-

Annwyl Lows (dyna beth mae Llŷr yn fy ngalw).

Medwl y buaset yn hoffi presant i dy gysuro yn ystod tymor ysgol diflas. Cefais ef yn 'jumble sel' am ddeg



Lowri Angharad Roberts, Llanrug, Ail am stori Blwyddyn 1 Ysgolion Uwchradd.

ceinig. (Grêt!).

Gobeithio ei fod yn plesio, dy annwyl frawd,

Llŷr.

Na, doeddwn i ddim wedi mhlesio'n arbennig. Jumble sêl? Agorais y parsel yn obeithiol gan rwygo'r papur brau yn chwilydd.

Syllais, edrychais mewn anobaith ar beâl plentyn bach!!!!!! Un o'r rhai defnydd, meddal a chloch yn y canol yn canu pan yn rholio. Pel liwgar, yr union beth roeddwn eisiau! Diolch Llŷr! Annwyl frawd wir!!!

Fe gymerodd beth amser i mi ddod dros y sioc. Beth mae o'n feddwl ydw i, babi blwydd, lwmp tew iddo. Roeddwn yn flin, sôn am frawd cydwbyddol yn te!!!

Roeddwn ar fin taflu'r bel i'r ardd pan sylwais nad oedd y bel yn gyfan. Edrychais yn fwy gofalus, roedd coblyn o dwll fel llygad ynddi. Rhythais yn geg agored, nid oedd y bel yn ffit i fynd i'r ardd hyd yn oed!! Rhag cywilydd Llŷr. Yr yr ysglyfaeth. Ymestynais am y siswrn a thorri'r bel yn ddarnau mân.

Dyna pryd y canfyddais y neges. Wedi ei guddio ynghanol y bel roedd nodyn brysiog, wedi ei ysgrifennu'n sobor o fler, fel traed brain, gwaeth na Llŷr hyd yn oed. Ni allwn ei ddeall. Ceisiais ddatrys y clymau o ysgrifen, ond heb lwyddiant. Gallwn ddeall y gair Lowri, selar a cist.

Dim help.

Meddyliais a phendronais yn hir. Roedd yn amlwg fod y llythyr wedi ei gyferio i mi, Lowri, ond ni allwn wneud pen na chynffon o selar a cist.

Efallai bod cist mewn selar yn rhywle, dim llawer o oleuni, gallai fod yn Timbyctw. Yna gwawriodd arnai, byddai Llŷr yn galw'r cwt ym mhen draw'r ardd yn selar gan nad oedd gennym selar go iawn. Bedyddiwyd y lle'n 'selar ni' flynydoedd yn ôl. Yn ein Hafau cynnar byddem yn cael picnic, neu gem o 'tŷ bach twt' yno ar bwrdd oedd cist bren. Ai hon oedd y gist yn y selar y soniai'r neges amdano. Roeddwn yn neidio o gwmpas mewn cyffro, a oeddwn ardrywydd lladron, neu herwigpwy. Roeddwn yn edrych ymlaen yn barod at gael dangos fy newdra i ffrindiau yn dal smygwyr proffesiynol neu ddarganfod trysor. Lithrais fy slipers ymlaen a tharo fy nresingown denau dros fy ysgwydd. Rhuthrais allan, heb drafferthu i gau'r drws ar fy ôl gan lamu dros y gath sinsir ar y trothwy. Baglais trwy'r gwair a'r drain pigog, poenus at y sied, roedd y drws wedi cloi. Roeddwn wedi colli ngwynt yn lân a nhafod yn disgyn allan yn flindeig, ond nid arhosais. Straffaglais trwy'r ffenest a oedd wedi pydr.

Edrychais y tu mewn, yn llwm ac yn ddiliw ac heblaw am olion traed ambell i lygoden fawr nid oedd dim arall i dynnu fy sylw, roeddwn yn siomedig. Es at y gist a phystachu i godi'r ceuad trwm yn fy ngwendid. Caeais fy llygaid cyn eu hagog unwaith eto i weld y trysor, trysor hy!!! Yno roedd sgerbwd ambarel rhacslyd dad, yn dyllau mawr a bach. Rhythais ar y drychiolaeth o ymbarel mewn anobaith a daliodd darn o bapur fy llygad.

Codais ef, darllenai:

Roeddwn yn gwybod y buaset yn ddigon busneslyd a dwl i goelio'r nodyn. Gan Llŷr annwyl Ha ha ha.

Roeddwn yn gandryll o ngho. Y tro nesaf y gwelai Llŷr atgoffwch fi i'w golbio â'r ymbarel yma.

'Hogyn ei fam wir!

AIL AM GADAIR Y BRIFWYL

TERFYSG

Welwch chi'r dail yn diferu'n felyn a choch hyd strydoedd cwynfanlyd Wapping? Mae'r cwteri'n llawn lliwiau angau yn llipa yn llif y glaw, yn cyhwfan yn y gwynt.

Codwyd caer, ciciwyd tinau'r gwehilion aneconomaidd, a dodwyd weiren bigog yn egwyddor rhwng y gwas a'i feistr.

Cylch o gapiau gwlanog mewn mud ymgom ger fflamau'r tân cysefin, yn dadebru'r dwylo pwl a rhwbio'r Segurdod uwch rialtwch y gwres. Fflamau Promethews yn gerwino yn llygaid oer y cwmni, a'u sbonc yn Sbardun.

Hwythau, adenydd gwynion y dociau, yn Sglefrio ar rew y gwynt a marwnad y dail yn diasbedain yn beswch cas o gân ar duniau gwag y palmentydd a chnawd di-gysur y cylch oddeutu'r tân.

Rhannu jôc:

"Dyw'r haul ddim yn tywynnu'r amserau hyn hogia."
"Byddai tithau'r Sam Fox 'na yn casglu pibonwy i lawr yma...."
Chwerthin a neidio am yn ail i lonni'r ysbryd a chynhesu'r cnawd.

"Glywis di'r news ddod? 'Rhen ddiawlad 'na yn Wapping.
A'r plismyn bach 'na, 'run oed â John, High Street, y rhan fwya ohonyn nhw, wsti. Petha bach. Tawn i'n cal gafal yn y tacla 'na fydda 'na 'run ohonyn nhw ar ôl i brintio'r dyddiad! On' tydyn nhw'n Scargills bach i gyd, yn poeni am ddim ond eu pocedi? Gymri di banad?
Yli, pasia'r cardyn bingo 'na yma nei di, tra ti wrthi....."


Ac wedi elwch, carthion y gâd yn soeglyd ym miri'r glaw, tuniau gweigion yn dianc rhag dichell y gwynt, a chopiau o'r 'Sun' fel sgwadron fuddugoliaethus yn hedfan nôl o frwydr, tawelwch mawr.

Dodwch y gwaed yn llythrennau coch ar femrynau'r wasg, rywle rhwng Sioe y bronau noeth a'r rhifau 'Bingo';

dodwch y gwaed yn llythrennau coch rhwng ddalenau'r ddemocratiaeth sy'n llechu yn nirlgelwch cudd y gaer; dodwch y gwaed ar furiau hanes yn graffiti i'r fflam fu'n cynnal.

Igam-ogamu'r mwg o farwydos trannoeth yn cloffi, ac mae'r cwteri'n llawn lliwiau angau yn llipa yn llif y glaw, yn cyhwfan yn y gwynt.

PERIS



David John Pritchard, Nant Peris, yn dwyn ei ffug-enw o'i bentref a ddaeth yn ail yng nghystadleuaeth y gadair. Y testun oedd Merthyrddod neu Derfysg. Yn ôl y beirniaid daeth "beryglus o agos i ennill ... Mae'n meddu ar grym awen."

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLLEN
Llanberis 870484

- * Bysus o 12 i 53 sedd
- * Teithiau Lleol a Thramor
- * Gwaith Contract
- * Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

Merched ...
Dynion ...
Plant ...

I gael trin eich gwallt yn eich cartref cysylltwch â

SIAN

MAIRANNEDD
LLANRUG

Ffôn:
Caernarfon 5366

OSMOND SHAW DEINIOLLEN

Gwerthu a thrwsio
Teledu Lliw
Newydd ac Fel
Newydd
GWASANAETH
ATEB
FFÔN 24 AWR
LLANBERIS 870545

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Gillian Morris, Anedd Wen, Talybont. Caernarfon 76075.

LLONGYFARCHIADAU i Martin Roberts, Glasgoed Hall am lwyddo y tro cyntaf yn ei brawf gyrru yn ddiweddar. Hwyl fawr wrth deithio!

LLONGYFARCHIADAU i John a Gwen Edwards, Haulfryn, ar enedigaeth mab bychan, Celfyn, brawd bach i Cheryl a Nicola.

CYDYMDEIMLIR yn ddwys iawn â Mr Gwilym Williams, Bryn Eifion yn ei brofedigaeth o golli ei briod, Mrs Jane Williams, yn ddiweddar. Roedd Mrs Williams yn wraig urddasol, hynaws a hynod o boblogaidd. Cafwyd y gwasanaeth angladdol ddydd Sadwrn, Mai 23ain, yng Nghapel Mawr. Gwasanaethwyd gan y Parch John Morris, y Parch W O Roberts a'r Parch Bryn Williams. Claddwyd y gweddillion ym mynwent Macpelah, Penygroes.

GWELLHAD: Dymunir gwellhad buan i Mrs Ellen Williams, Moelwyn, Hafan Elan a Mrs G Jones, 4 Hafan Elan, sydd ar hyn o bryd yng Nghartref Foelas. Hefyd, i Mr Harri Roberts sydd wedi derbyn triniaeth llawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd.

CROESO ADREF o'r ysbyty i Mrs Catherine Jones, Rhiwenfa, Stad Afon Rhos a Miss Greta Davies, Grassgarth.

CROESO ADREF o Awstralia i Mr a Mrs John Gribon sydd drosodd ar eu gwyliau. Mae Mrs Gribon yn ferch i Mr a Mrs Oswald Davies, Rhyd y Delyn.

CYDYMDEIMLAD: Estynnir cydymdeimlad â Mr W O Jones, Gwelaon, Rhes Cawia ar farwolaeth ei fam yn Neiniolen.

PEN-BLWYDD: Llongyfarchiadau i Miss Mary Evans, 21 Hafan Elan ar ddatlu ei phen-blwydd yn 81. Hefyd Mrs M Jones, Bryn Coch, ar ddatlu ei phen-blwydd yn 84 a Mrs Ellen Williams, Moelwyn, Hafan Elan ar ddatlu ei phen-blwydd yn 85.

APÊL Y SGANIWR: Nos Fercher, Mai 13 cynhaliwyd Noson Goffi a pharti dillad yn nhŷ Mrs June Jones, Rhandir Mwyn. Casglwyd £22.40 tuag at Sganiwr Corff Cyfan Ysbyty Gwynedd.

CYDYMDEIMLIR â theulu y diweddar Mrs Ellen Ff Williams, 15 Hafan Elan, sef Rol, Ifan Wyn a Catherine yn eu profedigaeth o golli eu mam yn ddiweddar.

DYMUNA Gwilym Williams, priod y ddiweddar Jane Williams, Bryn Eifion, Llanrug a'r teulu oll ddatgan eu diolchgarwch i berthnasau, cymdeigion a chyfeillion am eu cydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth.

Y mae'r nifer llythyrau a dderbyniwyd, y cardiau a'r negeseuon yn rhy niferus i'w cydnabod yn unigol, derbynied y cyfryw rai hyn o air yn arwydd o werthfawrogiad a diolch y teulu. Diolchwn hefyd i'r doctoriaid a'r nyrsus a fu'n gweini ar Jane gyda gofal mawr yn yr ysbyty ac yn ei chartref, ac i'r Parchedigion John Morris, W O Roberts a W Bryn Williams am eu gwasanaeth yn yr angladd, ac hefyd i Selwyn Morris am ei wasanaeth trylwyr.

Derbyniwyd £694 er cof am Jane Williams a rhennir yr arian rhwng Cronfa Apêl Maid's Caernarfon a Sganiwr Ysbyty Gwynedd. Diolch o galon i bawb.

Y CHWIORYDD: Cynhaliwyd cyfarfod y chwiorydd yn Festri Pontrhythallt, pnawn Iau, Mehefin 18fed o dan lywyddiaeth Mrs Lloyd Williams, Llys Awen a chafwyd sgwrs ddiddorol ganddi ar ei phrofiadau yn y

gorffennol. Dechreuwyd y gwasanaeth gan Mrs C Williams, Hafan Elan a rhoddwyd y te gan Miss B Williams, Glan Padarn a Mrs M Lloyd Williams, Llys Awen. Bydd y cyfarfod nesaf Gorffennaf 16eg am 2 o'r gloch.

CYDYMDEIMLIR â theulu y ddiweddar Mrs Megan Williams, Gwledfa.

SNWCER - Gleision Llanrug: Llongyfarchiadau i dîm y Gleision Llanrug am dymor eithriadol o lwyddiannus yng Nghynghrair Gyntaf Bangor a'r Cylch. Enillodd y tîm y Gynghrair, a hynny bron iawn heb golli gêm, ond yn anffodus collwyd y gêm diwethaf o'r tymor a hynny ar y bêl ddu. Agos iawn!!

Curodd y Gleision Gwpan y Gynghrair hefyd gan guro Conservative Black (duon) yn y rownd derfynol. Ond agos iawn oedd hi iddynt wneud y treble gan golli 4-3 yn y rownd derfynol.

Roedd yn dymor llwyddiannus i gapten y tîm, Gerald Griffith, gan iddo fo, gyda'i frawd Clive, ac Aled Griffiths, gael eu dewis i gynrychioli'r Gynghrair yng Nghystadleuaeth Gogledd Cymru. Bu Bangor a'r Cylch yn fuddugoliaethus gan guro Llŷn a'r Cylch yn y rownd derfynol 5-3, gan i'r tri chwaraewr o'r Gleision guro'u gemau.

Enillodd Clive Griffith y Cwpan am berfformiad gorau'r tymor, sef colli'r lleiaf o gemau a bu bron iawn iddo gyflawni y gamp o fynd heb golli trwy'r tymor, ond bu yn anlwus a cholodd y gêm olaf un a hynny ar y bêl diwethaf, y ddu, ond colli yn rownd derfynol y Cwpan i Malcolm Morris fu ei hanes.

Curodd Aled Griffith y Cwpan i Unigolion y Gynghrair. Saith bachgen yn unig a chwaraeodd drwy gydol y tymor, sef Gerald Griffith (Capten), Clive Griffith, Nigel Griffith, Aled Griffiths, Colin Davies, Steve Florence a Tony Owen.

Llongyfarchiadau i Tony Owen ar ei rediad cyntaf o 115 gan ymuno â Clive, Aled a Steve, sydd eisoes wedi gwneud rhediadau o dros gant. Pwy fydd nesaf?

LLONGYFARCHIADAU i Karen Elizabeth Jones, Dip.H.E., B.Sc. (Hons), R.G.N., merch John a Morfudd Warwick Jones, Bryn Coch ar ei llwyddiant mewn arholiadau terfynol gweinyddiaeth.

Mae Karen wedi ei dewis i ddilyn cwrs fel 'Bio Chemist' ar dîm ymchwil Ysbyty John Radcliffe, Rhydychen.

Dymunwn pob llwyddiant iddi yn y dyfodol.

YGYMDEITHAS UNDEBOL: Crwydro Ynys Môn fu aelodau'r Gymdeithas Undebol, ddydd Sadwrn y 27ain yng nghwmni'r Parch John Morris, BD.

Ymwelwyd â fferm y Gloyn Byw

ANRHEGU EU RHEOLWR



Aelodau tîm pêl-droed dan 12 Llanrug.

'Pili Palas' ac yna i'r felin yn Llanddeusant. Mwynhad i'r chwiorydd oedd cael aros yn hen orsaf Llanfairpwll i weld Storfa eang James Pringle.

Cafwyd gwledd yn Fferm y Lastra, ger Amlwch cyn troi am adref. Miss Megan Humphreys a dalodd y diolchiadau i'r Parch J Morris, i'r Trysorydd Mrs Williams, Bod Fair a'r Ysgrifenyddes, Mrs E W Thomas.

LLONGYFARCHIADAU i Gillian Morris, Anedd Wen ar gwblhau ei thystysgrif athrawes yn y Coleg

Normal. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

DRAENOG



Os am arbenigwr am ddal tyrchod daear sy'n anharddu eich gerddi, cysyllter â Leslie Bowring, 'Gerddi'r Haul', Penisarwaun.

CARNIFAL LLANRUG 1987

Gorffennaf 5-11

Nos Sul: Cymanfa Ganu Capel Mawr am 7.30. Dan nawdd Adran yr Urdd.

Nos Lun: Taith Gerdded 7.30 o'r gloch. Cychwyn a gorffen yng ngwesty Pen-y-Bont am 7.30 o'r gloch. Manylion gan Mrs Pat Jones, 26 Glanffynnon neu Mrs Anwen Evans, Minafon, Ffordd-yr-Orsaf. Elw i'r Ysgol Feithrin.

Nos Fawrth: Helfa Drysor Cychwyn o fuarth yr ysgol gynradd am 6.15. Enwau i Cliff a Vera Williams, Awelon, Ffordd-yr-Orsaf.

Nos Fercher: Tombola Yn yr ysgol gynradd am 7 o'r gloch.

Nos Iau: Noson Goffi Yn yr ysgol gynradd am 7 o'r gloch.

Ras Hwyl (Rhiant a phlentyn)

Ras i Blant a 11-16 oed Cychwyn 7.15 o'r gloch o fuarth yr ysgol. Enwau i'r Cyng Dafydd Whiteside Thomas am y ddwy ras. Tystysgrif i bawb sydd yn cynnig.

Nos Wener: Barbaciw a Pêl Droed Cae Eithin Duon am 6.30. Elw at Glwb Pêl-droed Llanrug. Manylion gan aelodau y pwyllgor.

Dydd Sadwrn: Carnifal Gorymdaith yn cychwyn o Bro Rhythallt am 1.15 i'r ysgol gynradd. Llauer o stondinau a gemau ym muarth yr ysgol. Cystadleuaeth gwisgoedd ffansi. Lluniaeth yn neuadd yr ysgol.

Derbynnir rhoddion at y bwrdd gwerthu nos Iau a theisennau at ddydd Sadwrn.

DYDD RHODD

Dydd Rhodd Eglwys Sant Mihangel Mae angen dros £7,000 i atgyweirio Eglwys y plwyf ac felly penderfynwyd cynnal dydd Rhodd arbennig eleni. Bydd yr Eglwys yn agored ddydd Mercher, Gorffennaf 8fed o 2 hyd 4 o'r gloch yn y prynhawn ac yna o 6 hyd 8 o'r gloch yr hwyr. Bydd y Parch Ganon Richard Jones, y Felinheli yno i dderbyn eich rhoddion. Croeso cynnes i bawb.

PORC CARTREF 80c y pwys

hanner mochyn wedi ei dorri â'i baratoi ar gyfer y rhewgist

Cig Cyflawn Cymreig

Cysylltwch â June a Cynan Jones, Tanybryn, Nanmor, Beddgelert, Caernarfon. Ffôn: Beddgelert 353

GERAINT OWEN

Gosodwr carpedi a phob math o lorïau

Cil-y-Mynydd WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr 552

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

YSGOL YRRU OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwrnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D L

PRITCHARD

43 Glanffynnon LLANRUG

CAERNARFON 5112

Cymeradwyir gan yr Adran Drafnidiaeth

Emyr Jones

PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI

Cynnal Boileri, Gwaith trin pibellau nwy, olew, tanwydd solat.

44 Glanffynnon LLANRUG Caernarfon 3513



WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs G Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr)

CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR: Yn y cyfarfod dwetha o gyngor cymuned y pentref pwyswyd ar aelodau'r cyngor i ystyried, erbyn y cyfarfod nesaf, pa ffyrdd ar hyd a lled y pentref oedd angen eu hatgyweirio. Cyfeiriwyd ar gyflwr drwg nifer o ffyrdd yr ardal. Nodwyd Lôn yr Ysgol, croesfordd Groeslon a chyffordd uchaf Lon Pant y Waun fel rhai o'r manau mwya peryglus.

Cyfeiriwyd hefyd at beryglon ffrâm fabolgampau'r ysgol gynradd a chytunodd y cyngor ofyn i'r cynghorydd Edgar Owen godi'r mater ar eu rhan yng nghyfarfod nesa llywodraethwyr yr ysgol.

Cafodd y Fns Pat Parry ei chyfethol fel aelod o'r cyngor i lenwi'r sedd wag yn ward Waunfawr ond gohiriwyd trafodaeth ar fater llenwi sedd wag ward Caeathro tan y bydd cynrychiolwyr y pentref hwnnw yn medru dod i gyfarfod nesa'r cyngor i drafod y mater.

Cafodd Eurig Wyn ei ail-ethol yn ysgrifennydd y wasg.

SEFYDLIAD Y MERCHED:

Cynhaliwyd cyfarfod fis Mehefin o'r Sefydliad yn Festri Croesywaun. Estynnodd Mrs Pat Parry, y llywydd groeso cynnes i Mrs Katie Wynn Jones, yn ôl wedi gwaeledd, a chydymdeimlodd â hi ar golli ei chwaer yng nghyfraith Mrs Phyllis Jones, Rhoslan.

Darllynwyd y lythyr misol a chofnodion y cyfarfod diwethaf a'i trafod.

Cynhelir Noson o Adloniant 'Ein Hetifeddiaeth Ni' yn Neuadd Goffa Criccieth Nos Iau, Mehefin 26. Cafwyd sgwrs ysgafn ddiddorol ar 'Hel Achau gan y gŵr gwadd Mr Gareth Haulfryn Williams. Diolchwyd iddo ar ran yr aelodau gan Mrs Pat Parry. Enillodd Mrs Buddug Rowlands y raffl a roddwyd gan Mrs Duncan. Taith ddigrl fydd y cyfarfod nesaf a gynhelir ar Nos Iau, Gorffennaf 2.

LLONGYFARCHIADAU: i Joanna Marston, Blaen-y-Nant, am ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth Chwythbrennau, 15-19 oed yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Merthyr Tydfil, a phob lwc iddi pan fydd yn cytadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhorthmadog.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod o Ferched y Wawr nos Iau, Mai 21, dan lywyddiaeth Mrs Glenys Williams. Cydymdeimlwyd â theulu'r diweddar Mrs Phyllis Jones, a oedd yn aelod ffyddlon o'r gangen. Dewiswyd pwyllgor newydd am y flwyddyn 1987-88. Cafwyd noson

hwyliog yng nghwmni Mrs Hughes, Drws-y-Coed, a oedd wedi trefnu cwis, a tim dau yn fuddugol. Diolchwyd i Mrs Hughes gan Mrs Gweneirys Jones. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Nan Huws Roberts ac fe'i enillwyd gan Mrs Edith Ellis. Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, mehefin 25, pan fyddwn yn ymweld â'r Pili-Palas.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Mai: 1. £40 Mr P A Missen, Warwick; 2. £25 Mr J Cadwaladr, Bryn Afon; 3. £10 Mrs Cadi Jones, Nant.

ANTUR WAUNFAWR: Nos Wener, Gorffennaf 10ed, am 7 o'r gloch, cynhelir Barbiciw ym Mryn Pistyll, er budd yr Antur. Edrychwn ymlaen i groesawu pawb yno, pris mynediad, plant 50c. oedolion £1. Dowch yn llw.

LLONGYFARCHIADAU: i Alun Williams (Mabon), 13 Bro Waen, er ei lwyddiant mewn nifer o Eisteddfodau am ganu yn ystod y flwyddyn yma eto. Mae wedi ennill cwpannau, ac hefyd cafodd ddwy darian, yr un noson mewn un Eisteddfod. Pob llwyddiant eto Alun yn y dyfodol.

hefyd Myra Turner, Collfryn, hithau wedi ennill llawer o gwpannau mewn gwahanol Eisteddfodau ar hyd y flwyddyn ar y Brif Adroddiad. 'Rwy'n sicr ein bod fel ardal yn dymuno pob lwyddiant i Myra, mae'n bwriadu cystadlu am y tro cyntaf ar y Brif Adroddiad yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Madog.

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Duffus, Haul a Gwynt, ar enedigaeth merch fach, Rebecca, chwaer i Robert a Rhian.

CYDYMDEIMLWN: Â Mr Rol Williams, Ardwyn yn ei brofedigaeth o golli mam.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Mehefin: 1. £40 Mr W M Catt, Smithy Garage; 2. £2 Mr T E Jones, Cartrefle; 3. £10 Susan Davies, Hafod Wen.

YR YSBYTY: Yn parhau yn yr ysbty mae Mrs Tegwen Jones, Rhos Alun, a Mrs Morley Williams, Fronllwyd. Anfonwn ein dymuniadau gorau atynt, ac at Mrs G Williams, Plas Glyn Afon, hithau hefyd yn yr ysbty. Gobeithiwn bod Mrs William Griffiths, Tref Eilian, wedi ymgartrefu yng nghartref yr henoed Bron Eryri, Llanberis, ac anfonwn ein cofion ati. Croeso adref i Mr W Lloyd Hughes, Gwastadfaes, Mrs Carys Jones, 4 Bryn Golau, a Neil Owen, 'Dol Erdd', Dol Erddi. Da yw gweld eu bont wedi gwella ar 7ol eu arhosiad yn yr ysbty.

YR YSGOL: Ar ôl gwasanaethu fel un o Reolwyr yr ysgol am 39 o flynyddoedd, 11 mlynedd ohonynt fel Cadeirydd, y mae Dr A L Miles wedi ymddiswyddo. Yng nghyfarfod diwethaf o'r Rheolwyr talwyd teyrnged uchel iddo gan y Prifathro Mr Leslie Jones. Yn gyntaf diolchwyd iddo am ei ffyddlondeb i'r ysgol am gymaint o flynyddoedd. Yn ystod y rhan fwyaf o'r amser y bu'n rheolwr, ef oedd yr unig feddyg yn yr ardal ac ar alwad ddydd a nos, saith niwrnod yr wythnos. Serch hynny bu'n hynod o ffyddlon i gyfarfodydd y rheolwyr

heb golli ond ychydig iawn. Diolchwyd iddo hefyd am ei ymddiriedaeth llwyr yn y prifathro a'i gyd-athrawon ac am bob cefnogaeth ar hyd y flynyddoedd. Dymunwyd yn dda iddo yn y dyfodol. Derbyniodd deuddeg o blant hynaf yr ysgol dystysgrifau Beicwyr Diogel ar ôl dilyn cwrs beicio yn yr ysgol dan gyfarwyddid P C Ceris Williams a Mrs Miriam Hughes.

CLWB PLAID CYMRU

1. Morus Elfryn; 2. W T Owen; 3. M B Davies.

BEICWYR MEDRUS WAUNFAWR



CLOWN BUDDUGOL



Dyma fodel o glown a enillodd y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth modelu a gwaith 3-D (cywaith) i blant o 8 i 10 oed yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Merthyr. Dawn Pritchard a Rhian Green, y ddwy o Safon 1, Ysgol Gynradd Llanrug yw'r rhai a'i creodd.

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at gronfa'r Eco:

£10: Er cof am Mrs Jane Williams, Bryn Eifion, Llanrug

£10: Ieuan a Morfudd Ellis Jones, Erw'r Coed, Llanberis

£5.: D ac E Roberts, Dalar Deg, Bangor

£5: Er cof am Mrs M Hughes, Llanberis

£5: Mr a Mrs J Jones, Regent House, Deiniolen

£3: Di-enw, Llanberis

£2: Mrs Nesta Jones, 2 Llys y Gwynt, Penisarwaun


£2: Ieuan a Nia Morris, Cartref, Rhes Cynfi, Deiniolen

£1: Eurwyn ac Elan Williams, 15 Hafod Oleu, Deiniolen.

BETWS GARMON

DYMUNA Mr John Smith, Cilfechyd, ddiolch i bawb am y cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniodd yn ystod ei arhosiad byr yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



**Antiques
Ivy Cottage
BETHEL**

**Ffôn:
Y FELINHELI 670556**



PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

**Antur Waunfawr
BARBICIW
Nos Wener, Gorffennaf
10fed am 7 o'r gloch ym
Mryn Pistyll
BWYDYDD BLASUS
Oedolion £1; Plant 50c
Dowch yn llw**

YN YR ALBAIZIN

gan Y Gwalch

Mi es ar daith aeafol unwaith hefo fy ngwraig, ar feic modur i olrhain taith George Borrow drwy'r Pentir Iberaidd, o San Sebastian i fyny i fwrdd dir Burgos, i Oporto ac i lawr o Cape St. Vincent, ac oddi yno groesi'r Guadiana i Andalusia, lle y bum yn trigo gyda sipswyn Granada yn ogofau'r Sacro Monte, ar draws y dyffryn o'r Alhambra, palas gwych y Mwriaid.

Roedd yno tua dwy fil o Gitanos yn byw yno, mewn cymuned a elwid yr Albaizin. Roeddynt y siarad Spaeneg a'r Calo, a doedd dull eu bywydau ddim wedi newid llawer ers amser Borrow. Roeddent yn ymarfer nifer o grefftiau, o weithio haearn a cherflunio, i wneud blodau papur a dal adar gwyllt ar gyfer y farchnad.

Trigai'r teuluoedd mwyaf llewyrchus mewn ogofau helaeth ar waelod y bryn. Dawnsyr oeddent am y mwyaf, ac yr oedd ganddynt ogof arbennig o'r enw Zambra wedi ei hymneilltuo ar gyfer y gweithgareddau hyn.

Roedd yr ogofau wedi eu cloddio i dywodfaen. Roeddent yn oer yn yr haf, ond yn rhyfeddol gynes hefyd pan chwythai'r gwynt oddi ar eira'r Sierra Nevada. Gyda'r nosau byddai'r trigolion yn llosgi cerrig olewydd mewn brasseros. Byddent yn rhoi'r padelli hyn o dan y byrddau ac yn taenu'r lliciniau llaes tros eu cluniau i gadw'r gwres i mewn.

Roedden ni yn aros hefo'r teulu Faraona. Dawnsyr oeddent bron i gyd. Chwaraeai'r dynion y gitar a'r mandolin. O'r teulu yma y daeth Carmen a Theresa Amaya i ddawnsio i Lundain rai blynyddoedd yn ôl. Rwy'n cofio iddynt achosi cynnwrf drwy gyneu tân mewn drym olew ar lawr eu hystafell yn y Savoy.

Matriarchaeth oedd y teulu Faraona. Roedd yn niferus a rheolid ef yn gadarn gan y fam a oedd tua thrigain yr adeg honno. Ger ei bron hi y cawsom gyfweiliad cyn cael ein derbyn i'w cymdeithas gauedig. Roeddem wedi mynd ag anrhegion, yn ôl y ddefod, ar ffurf teganau a gwaith prês. Roedd gennym hefyd y llun 'Salem' wedi ei fframio, ac yr oeddent wedi eu cyfareddu yn fawr gan yr offrm hwnnw. Crogwyd ef ar ei union yn ogof y Zambra wrth ochr y castanets, ac am ddim a wn, gallasai fod yno o hyd.

Ar drael hynny, rhoddwyd i ni ogof wag ddwy ystafell, gyda bwrdd a chadeiriau, am ychydig o besetas y dydd, a threfnwyd i Antonio, y mab hynaf gasglu'r rhent a chadw llygad arnom yn gyffredinol. Roeddem yn rhydd i rodio ble y mynnem, ac yr oeddem yn wrthrychau rhyfeddod yn enwedig ymysg y plant, a buan y cawsom ddilynwy'r parhaol ar ffurf Raphael a Mariano. Mudan bach oedd Raphael. Pan fynnai sylw, safai ar ei ben. Roedd wedi gwneud hyn mor aml nes yr oedd ganddo glwt moel ar ei goryn fel mynach. Roedd yn gydymaith doniol ac annwyl, ond roedd yn rhaid dal gafael tyn arno pan aem i'r dref. Ei bleser oedd rhuthro i siopau a dod allan gyda chofleidiau o bob math o nwyddau agosaf i law.

Yn y nos, roedd yna lidiart haearn fawr i gau ar ddrws yr ogof, ac o'r tu allan yn y patio bach, cysgai mul, a rhyw ast enfawr ddu o'r enw Mora.

Roeddem yn bwyta y rhan fwyaf o'n prydau allan o un bowlen enfawr gydag aelodau ieuengaf y llwyth. Doedd golchi llestri fawr o dreth, a threuliai'r merched y rhan fwyaf o'r dydd yn gwnïo neu olchi dillad ar y cerrig yn yr afon islaw. Roedd eu gwisgoedd dawns, llaes bob amser yn lan ac wedi eu plygu ar y muriau twym yn barod ar funud o rybudd i fynd i ogof y Zambra i ddawnsio i ymwelwyr.

Er nad oedd gan y mwyafrif o'r dynion fodrwy glust, penderfynwyd yn sydyn y dylwn i gael un, er nad oeddwn i angen y fath addurn mwy na chael cur yn fy nhalcen, ond anoeth fuasai gwrthwynebu eu dymuniad. Ond doedd gen i yr un syniad sut yr oedd y weithred am gael ei gwneud, nes i Antonio ddod i alw amdanaf rhyw ben bore, fel pe buasai yn cyrchu gŵr wedi ei ddedfrydu i'w ddiennyddio. Arweiniodd fi ar hyd y rhwydwaith o lwybrau a oedd hyd wyneb y bryn. Roedd hi yn amwlg, fel yr elem, fod beth bynnag a oedd am gymeryd lle wedi ei ledaenu yn barod ar y tabyrddau. Casglodd gorymdaith o'n hôl, ac yr oedd y bobl yn ymddangos o dyllau yn y creigiau ac yn ôl eu dadwrdd, roedd yn amlwg eu bod yn mwynhau eu hunain.

Fel yr oeddem yn dringo yn uwch, roedd cyflwr yr ogofau yn dirywio. Dim ond tyllau yn y graig gyda sach wedi ei dynnu ar ei draws oedd amryw ohonynt. O flaen un o'r

rhain y safodd Antonio o'r diwedd gan amneidio arnaf i'w ddilyn i mewn. A phan arferais â'r gwyll y tu mewn, cyflwynodd fi i rhyw wraig oedrannus oedd, meddai, yn wniadwraig. Yn wir yr oedd ganddi beiriant llaw gwnïo Singer ar led ymyl. Wedyn, gadawodd fi yng nghwmni'r foneddiges honno.

Daeth y ddynes a chadair i mi a chynigiodd i mi lymaid o wlybwr o rhyw fflagon, ond gwrthodais. Wn i ddim ai rhyw gyffur i fy marweiddio ydoedd. Ond yr oedd hi'n wraig ymarferol a dioed. Tynnodd nodwydd o'i barclod a rhoi edau ynddi. Yna plannodd y nodwydd yn fy nghlust ac allan i damaid o gorcyn a ddaliai yn erbyn fy mhen. Gwaedodd y pigiad yn hael, ond roedd hi yn mynnu fod hynny yn arwyddocau yn dda. Yna poerodd ar yr edau a thorodd y nodwydd oddi wrthi, a chlymodd hi.

Roedd Antonio yn sbecian drwy'r sach ar y fynedfa ac yn rhoi disgrifiad o'r symudiadau i'r dorf oddi allan. Rhyfedd oedd ei weld yn ystumio ei wyneb, er na fuasai yn petruso defnyddio ei gyllell am y rheswm lleiaf.

Roedd y dynion yn cario cyllyll ymladd, ac yn eu defnyddio yn aml. Byddent yn chwipio eu cotiau am eu breichiau fel tarian yn erbyn yr ergydion, ac weithiau byddai gornestau o'r fath yn dibenu yn angheuol. Gwelais unwaith hefyd, ddwy ferch yn ymladd ar eu hyd yn llwch y ffordd, yn crafu wynebau gwaedlyd ei gilydd hefo ewinedd a oeddynt yn eu siapiau yn bwrpasol at y gwaith. Ond yn ddiweddarach y daeth prawf o chwarae teg a

theyrngarwch i fy rhan i.

Anfonodd Faraona amdanaf un diwrnod, a dywedodd fy mod bythefnos ar ôl hefo'r rhent. Dywedais innau fy mod wedi talu yn ddyddiol i'w mab; a hynny oedd wir. Wnaeth hi ddim dadlau â mi ar y pryd. Ond yn hwyrach ar y dydd gwelsom y teulu yn ymgasglu yn ogof y Zambra. Roedd yna rhyw bwyllgor yn amlwg ar dro. Gyda hynny daeth geneth allan o'r ogof, a dywedodd mai llys teuluol oedd yn eistedd, i brofi geirwirder Antonio yn erbyn f'un i.

Buom yn sefyll yn y lôn am y rhan fwyaf o awr, ac yr oedd yr awydd i hel ein taclau a diflannu yn gryf, pan ddaeth y bobl allan o'r diwedd. Cefais innau wŷs o flaen yr hen wraig. Roedd hi yn eistedd yn ei chadair arferol ar lwyfan y Zambra. Edrychodd yn syth arnaf, ac heb ragymadrodd dywedodd, fod y dyfarniad wedi mynd yn erbyn ei mab. Roedd i gael ei esgymuno, ac i dalu'r arian yn ôl i mi, ac nid oedd i ddod yn agos i ni wedyn.

Ar ôl y digwyddiad yma, darfu i ni sylweddoli fod ein diogelwch, tra'r oeddem yn westai iddynt, yn fater o urddas pur i'r bobl hyn. Wrth feddwl, erbyn hyn choelia i ddim nad oeddem yn teimlo yn llawn mor ddiogel yng nghanol criw nwyd wyllt yr Albaizin, ag yr ydym yn ein plwyf ein hunain erbyn heddiw.

John El. Williams

ÔL NODYN: Mae un o straeon lleol y Gwalch, 'The Big Water', yn ymddangos yn y rhifyn presennol o'r cofnodolyn chwarterol, 'The Countryman'.

CANMLWYDDIANT CAPEL CEUNANT

Cynhelir Cyfarfod Arbennig i ddathlu Canmlwyddiant Capel Ceunant

Nos Wener, Medi 25ain am 6.30 o'r gloch

Y Llywydd: Y Parchedig John Morris B.D.

Siaradwyr gwadd:

Parch Meirion Roberts, Llandudno

Parch Ifor Rowlands, Caernarfon Parch W.O. Roberts, Llanrug

Darperir lluniaeth ym Mhlas Tan Dinas.

Cysyllter â Miss Eirlys Jones, 'Y Garth' ar unwaith.

Ffôn: Waunfawr 262

Croeso cynnes i bawb.

CEUNANT


Ar brynhawn Sul, Mehefin 21ain, cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yng Nghapel Ceunant, pryd y daeth nifer fawr o aelodau a chyn-aelodau ynghyd.

'Roedd y gwasanaeth yng ngofal y gweinidog y Parch John Morris, gyda'r

Parch Meirion Roberts, Llandudno yn pregethu.

Ar ôl y gwasanaeth tynnwyd lluniau o'r gynulleidfa ar gyfer llyfryn y mae Mr Morris yn ei baratoi ar gyfer dathlu canmlwyddiant yr Eglwys.

Bydd y gwasanaeth dathlu yn cael ei gynnal yn y Capel ar nos Wener, Medi 25ain am 6.30.



**Caernarfon
Industrial
Supplies**

BRYNAFON, LLANRUG, Ffôn: Caernarfon 4448

Hoelion, Sgriws, Boltiau, "Fasteners",
Sgidiau, Wellingtons, Cotiau gwarchod a
hamdden, oll am Brisiau gyda'r rhataf yn
y fro.

Tŵls C.K. am brisiau cystadleuol



**CARTREF YR HENOED
CARTREF NEWYDD COFRESTRIDIG
AG IDDO AWYRGYLCH GYMREIG
CYSYLLTWCH Â MRS MEIRWEN
THOMAS NEU MRS ELI WILLIAMS
Ffordd yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon
(0286) 4652**

Agor Ffiniau'r Gorffennol GWILYM DEUDRAETH, 1863-1940

Meddai J.W. Jones, Tan y grisiau, Blaenau Ffestiniog yn y Cymro 1940, "Syfrdanwyd ni pan gawsom lythyr yn hysbysu am farwolaeth Gwilym Deudraeth yn 77 oed. Bu farw yn sydyn hanner awr wedi pedwar o'r gloch y bore, ar Fawrth 20fed 1940. Bu farw yn ei gwsg.

Gadawodd weddwn unig, a Bob ei wŷr, chwaer alluog, Miss Fanny Edwards, a brawd, Mr Owen John Edwards, a nai, y Parch R.R. Williams, M.A. Utica a nai arall, y Ficer Hugh Williams, Lerpwl."

Claddwyd Gwilym Deudraeth ym mynwent Allerton, Lerpwl. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan ei nai y Parchedig Hugh Williams, Eglwys Dewi Sant, Lerpwl am naw o'r gloch fore Sadwrn y Pasg. Dywedodd Rolant Wyn wrth ei fedd, "Arwr yr englyn" oedd Gwilym. Gwir oedd hynny. Fel hynny dywedodd Dr. Gwynn Jones am ei englynion: "Bydd englynion Gwilym Deudraeth byw tra bo Cymraeg byw a hyd yn oed wedyn, tra bo rhai a'i darllo fel y darllenir Lladin a hen ieithoedd eraill.

Ganed ef yn Hen Walia, Caernarfon 1863. Diwedda un o'i englynion fel hyn: "R'wyn Wilym o'r Hen Walia."

Symudodd ei rieni i fyw i Benrhyndeudraeth pan oedd yn faban. Aeth gyda'i dad i'r môr. Ar ôl un fordaith aeth i weithio i'r chwarel ym Mlaenau Ffestiniog. Cafodd le wedyn ar linell y rheilffordd a bu'n orsaf feistr yn Nhan-y-bwlch a'r Dduallt am rai blynyddoedd.

Blinodd ar fod yn orsaf feistr yn Rhoslyn a dywedodd fel hyn:- Ciciwch fi i werthu cocos - neu hyrddiuch

Fi'r Werddon i aros:
Waeth ple, i rhywle o'r Rhos
"Put me in ynys Pamos!"

Oddi yno aeth i weithio i Lerpwl. Priododd Mrs Harriet Edwards o Lanfferres ger yr Wyddgrug. Bu ganddynt bedwar o blant. Yr oedd ei frawd Owen John Edwards hefyd yn fardd da, a Chymru benbaladr yn gwybod da, a Chymru benbaladr yn gwybod da, a Chymru benbaladr yn gwybod da. Ymddiriedwyd ei fannoedd englynion i J.W. Jones. Chwith gan gyfeillion a'i filoedd edmygwyr yw meddwl am yr Eisteddfod Genedlaethol hebddo.

Dyma bigion o'i englynion:

Gadael y Warehouse pnawn Sadwrn
Annifyrwrch hen furiau - adawaf
Wel diolch am Suliau;
Annhirion a fai'n horiau
Heb week-end i'n bywiocau.

Hen Gwpl Oeddrannus
Henwr gwiw a Henwraig iach - yn rhoddi
Yn rhydd o'u cyfeillach,
Wedyn yn chwifio cadach
O borth gwyn eu bwthyn bach.

Lledu Asgell
Lledu asgell o hyd i esgyn - wna
Diniwed aderyn;
Ond Ha! Ha! dyna wna dyn
Lledu asgell a disgyn.

Gallai gynganeddu llinell fach syml gyffredin a'i gwneud yn anghyffredin:
Er engraifft:-
Sut y mae bys Tomi bach?
Sydney a oes adnod?
Yr hen greadur annwyl!

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Cybl

Rwyn' gwybod yr hen Gybl - dy fyd od
A fod tysteb lli:
Boed rhydd hynt i'w helynt hi
Hyd gannoedd - hwd a gini!

Ateb Gwahoddiad

Os yna dof, dy synnu di - wna mhws
A fy mharsel digri;
Dof a 'ngherdyn os mynni,
A dof a 'mwyd hefo mi!

Gwilym Deudraeth

AR Y TRAETH



"Drychwch da chi Mrs Jones, Drychwch ar y twlpyn tew. Be 'da chi'n feddwl ohono. Yn enw'r Tad, be yda chi'n feddwl ohono? Drychwch ar y bol 'na. Sôn am eliffant. Mae o fel balw'n. Pe taech chi neu fi'n cerdded o gwmpas hefo'r fath fol, mi fydda pobol yn meddwl ein bod ni'n mynd i gael Twins. Y, be ddwedsoch chi? Triplets, Quads? Ia mi yda chi'n iawn. Triplets a quads. Welsoch chi 'ffasiwn olwg ar ddyn erioed? Y bol cwrw mwyaf welais i yn fy myw. Fe gai wobwr am hwnna yn y Chelsea Flower Show.

Mi edrycha tipyn bach yn well pe tai o'n gwisgo bathing costume mwy gweddus. Ma'i ben 7ol o'n llawer rhy fawr i'r mymryn clwtyn 'na mae o'n fawr. A sylwch ar y lliw. Yr ail Liberachi. Sôn am gôt Joseff. Mi fydda'r lliw na'n iawn i ferch ifanc, un o'r manicins 'ma.

Cofiwch chi, rydw i'n hoffi'r patrwm. Mi rydw i'n ffansio'r patrwm i'wneud blows bach ysgafn, ond nid i'w gwisgo yn yr un lle â fo. O na mi fydda ni fel pâr unisex. Ha ha.

Ond ar y llaw arall mi ydw i'n llawn bodlon cysidro'i arian o. O ydy, mae o yn filonêr reit 'i wala. Oes mae ganddo fo filoedd yn y Banc. Dim ond milionêr alla fagu bol fel yna. Dyn sybstansial. Drychwch arno fo'n gorwedd ar 'i gefn fel rhyw walrys mawr. Lwmp o

fraster yn siglo hefo pob anadl. Mae o fel mynydd. Mi gymera awr i gerdded rownd o. Mi ydw i'n siŵr fod rhaid iddo fo gael JCB. i'w godi o o'r gwely.

Sh! peidiwch a deud dim byd, mae o wedi'n gweld ni. O diar! mae o'n dod yma ato ni. Gwnech yn neis arno fo Mrs Jones.

Hello Mr Ellis, dyma surprise. Pwy fasa'n meddwl y'ch cwrdd chi yma? O ydy, mae hi'n dywydd ardderchog. Mi yda chi'n ddoeth iawn yn newid i fathing costume. Llauer gwell i chi na siwt ar ddiwrnod mor boeth. Mi yda chi'n edrych yn dda Mr Ellis. Dydw i ddim wedi'ch gweld chi'n edrych crystal ers talwm. Beth? Tewch a deud? Cael eich poeni gan gamdreuliad. Acute indigestion. Peidiwch â sôn? Dyn tebol fel chi ac yn edrych mor dda.

Beth ddeudodd y Doctor? Dyna beth ddeudodd o? Colli pedair stone? Peidiwch a gwando arno fo. Dyna fel ma'r doctoriaid 'ma. Deud unrhyw beth i gael gwared â chi. Dydy nhw ddim yn gwybod hanner 'u gwaith. Methu cadw i fyny gyda'r 'modern ailments' ma. Pan mae nhw'n newid dowt, mae nhw'n deud wrtha chi am golli pwysa. Peidiwch chi a gwando arno fo. Lol i gyd. Mi yda chi'n edrych yn champion.

Mi ydw i' yn licio'ch bathing trunks chi, os ca'i fod mor hy. Rhai flashy ond mae steil iddyn nhw. Beth? mae nhw ganddo chi ers ugain mlynedd? Pwy fase'n meddwl? Ugain mlynedd. Tewch a deud, stwff da. Ellwch chi ddim cael rhai fel'na heddiw.

Beth ddwedsoch chi Mrs Jones? Mae rhaid i chi fynd? Piti, a ninna'n cael chat bach mor hyfryd. Mr Jones isio'i de? Ie wrth gwrs. Biti fod rhaid i chi fynd mor gynnar. Cofiwch fi at Mr Jones. Mi gawn ni chat fach eto.

Piti dros y fenyw fach 'na yn te, Mr Ellis. Beth? Doeddech chi ddim yn gwybod. Na mae hi'n unig iawn. Un o'r rhai distaw 'ma. Dim ffrindia. Ond cofiwch, digon i ddeud am bobol eraill. Mae hi'n gwybod y clecs i gyd. Does neb yn licio pobol felna. Pasio remarks byth a beunydd. Ond wedyn efalla all hi ddim helpu'r peth. Biti mawr drosti. Piti mawr.

Goronwy Owen

15

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



DEWIS EANG O
WELAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT
5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI
MEWN STOC - ALLWCH CHI
FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?
Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.

Mae mwy o ddewis
nag erioed gan
JOHN A ROBERTA
GRIFFITH
Y STORFA
SGWÂR LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 2790

Bwydydd, Llysiau,
Dioddydd, Gwlân Sirdar,
Patrymau, Gweill Aero
Agored 7.30 a.m. - 6.30 p.m.
Agored tan 8.00 p.m. nos
Wener a
9.30 - 12.30 fore Sul
Archebwch dros y ffôn - fe'i
danfonwn at eich drws

DINORWIG

Gohebydd: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian

CYFARFOD PREGETHU: Eleni feddisgynnai'r Sulgwyn ar Sul Mehefin 7ed ac ar hyd y blynyddoedd ar yr ŵyl arbennig hon y mae Sardis (B) yn cynnal eu cyrddau pregethu blynyddol. Fe benderfynodd ein tadau mai buddiol fyddai defnyddio'r ŵyl hon gan i Bentecost cyntaf yr Eglwys Fore roddi i'r disgyblion cyntaf ddoniau'r 'tafodau tân' a'r hyfdra i gyhoeddi'r newyddion a ymddiriedwyd i'w gofal. Bellach nid ofnent lid yr awdurdodau cefyddol cydnabyddedig - grym yr hen lddewiaeth oedd yn dymuno mygu'r Cristnogion a lladd eu gobeithion cynnar. 'Roedd Saul o Darsis arflaen yr erlid câs, ond fe'i henillwyd yntau i'r gorlan gristnogol ac fe fabwysiadodd enw newydd sef Paul Apostol i'r Cenhedloedd. Rhyddhawyd y grefydd newydd o gaethiwed lddewiaeth gul i fod yn grefydd i'r holl fydd.

Cennad arbennig yr ŵyl i ni yn Sardis oedd y Parch Cecil H Jenkins B.A., B.D., Llwynhendy, a diddorol yw cofio bod cysylltiad rhwng Sardis â'r capel arbennig hwn yn y gorffennol gan mai o Sardis y cychwynodd un o bregethwyr y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg sef y Parch R D Roberts, Llwynhendy. Fe'i ganwyd ef yn un o dai Foelgron.

Fe gafwyd gweinidogaeth gref dan law Mr Jenkins eleni, ac fe gafwyd cynulliadau niferus, a rhai i'w gweld o gapeli Dinorwig a Deiniolen yn gystal ago Benueal Bangor a Bethel, Caerllwyngrudd. Fe ddechreuwyd pennod newydd o gydweithio rhwng capeli cylchdaith y Bedyddwyr sydd dan ofalaeth y Parch Ifor Lloyd Williams, B.A. Bangor. Fe ddaeth i'n rhan fwy o law na heulwen dros yr ŵyl, ond roedd gennym le mawr i ddiolch nad oedd y gwynt yn stormus. Fe gaiff Sardis ddogon helaeth o wynt ar brydiau.

A ninnau wedi syrffedu ar wleidyddiaeth y pleidiau yn ystod y dyddiau hyd ddydd y pleidleisio, fe fu ein cennad yn ddoeth iawn yn osgoi pob crybwyll am wleidyddiaeth, ond wrth gwrs fe gydnabyddwn bod gan grefydd arweiniad i wleidyddwyr pob oes. Fe fu raid i broffwydi'r Hen Destament gyhoeddi bod lle i Dduw yng ngwleidyddiaeth eu cyfnod ac mi fu'r Eglwys ynfyf o roddi arweiniad sicr mewn cyfnodau diweddarach. Y demtasiwn wgh gwrs yw gadael i welidyddiaeth gael y llaw uchaf ar grefydd.

EGLWYS ST. MAIR: Yn fuan ar ôl cyrddau Sardis fe ddaw gŵyl flynyddol Eglwys St. Mair, ac yno fe geid gwasanaeth gosber ar Sul Mehefin 21ain. Y gŵr gwadd i arwain yr oedfa ac i bregethu oedd yr Hybarch Arch-ddiacon Elwyn Roberts o'r Eglwys Gadeiriol Bangor. Hyfryd ddigon yw cael clywed llais gwahanol, ac fe welwyd rhai o Eglwys Llanddinorwig yn ogystal â chyfeillion o Ddinorwig (M.C.) a Sardis (B). Fe fu St. Mir yn fwy ffodus na Sardis gyda'r tywydd, ac nid oedd heulwen yn brin er bod y gwynt yn tueddu i fod yn oer. Fe fynnai chwarae rhwng gogledd a dwyrain. Mae'r adgyweiriadau wedi gwneud cryn wahaniaeth i'r olwg allanol i'r eglwys.

LLONGYFARCHIADAU: Y dyddiau diwethaf hyn fe hysbyswyd dyweddïad Miss Ina Wyn Williams - merch Mrs Jennie Williams a'r diweddar Mr Robert Ellis Williams, 12 Maes Eilian â Mr Ifor Phillips mab Mr a Mrs Alun Phillips, 3 Y Bwthyn, Deiniolen. Una eu cyfeillion i ddymuno iddynt bob hapusrwydd ymlaen i'r dyfodol.

Ein pleser yw estyn ein

llongyfarchiadau i Miss Marine Roberts o deuluathrylithgar Tŷ'r Ysgol, Dinorwig ar ennill ohoni ei gradd yn y Coleg. Fe ddeallwn yn gystal bod Miss Gwyneth Davies, merch Mr a Mrs Gwilym Davies, Bro Elidir yn dechrau fel athrawes ysgol ym Mhorthmadog fis Medi nesaf. Ymfalchiwn yn llwyddiant plant yr ardal.

CYFARFOD: Ar nos Lun, Mehefin 22 fe gafwyd yn y Ganolfan gyfarfyddiad i drafod y sefyllfa ynglŷn a rhannu'r ardal a'r orfodaeth ar rai i'fyned i Ddeiniolen i bleidleisio. Roedd Mrs Pat Larzen yn cydweld yn hollol â'r ddatl a gafwyd addewid ganddi y byddai'n dadlau ein hachos. A'r tymor bellach wedi myned heibio 'troad y rhôd' ein hunig obaith yw y cawn dymor diweddar i'n cario ymlaen i ddiwedd haf a hydref. Fe fydd seibiant mae'n debyg dros fis Awst, ac yna ail afael mewn gweithgarwch ar gyfer Mis Medi. Ar drothwy tymor y gwyliau felly a gaf i ddymuno gwyliau hapus i holl ddarlennwyr 'Eco'r Wyddfa.'

CYNGOR CYMUNED: Fandaliaeth: Yr argraff gynyddol a geir y dyddiau hyn yw bod man fandaliaeth i'w weld o gwmpas y pentref ac mae'n ymddangos mai datblygiad diweddar ydyw gan bod y math yma o arfer anffodus wedi bod yn gwbl ddiethr yn yr ardal. Yn naturiol mae'n ofynnol i bob un ohonom fod ar ein gwylidwriaeth a gwneud ein gorau i sicrhau nad yw yr arfer yna o ddifrodi eiddo ac amgylchfyd yn cario ymlaen. Ymddengys bod un enghraifft o hyn i'w weld ar y llwybr sydd yn arwain o Maes Eilian i Chwarel Goch. Mae'r canllaw sydd wedi ei osod ar un rhan o'r llwybr wedi cael ei ddifrodi. Fodd bynnag mae'r Cyngor Cymuned wedi cytuno i adfer y difrod a gosod y canllaw yn ôl yn ei le. Gobeithir y bydd y gwaith wedi cael ei gwblhau o fewn yr wythnosau nesaf.

Ciosg ger Minffordd: wedi hir ohebu a chyfarfod â swyddog ar y safle mae Telecom Prydeinig wedi gwrthod y syniad o symud y ciosg i safle mwy agored nag ydyw ar hyn o bryd gan y byddai'r gost o wneud hynny yn rhy uchel. Gwnaed y cais yma iddynt gan y teimlwyd bod y ciosg yn ei safle presennol wedi ei guddio o olwg trafniadaeth ac felly yn fwy agored i'w fandaleiddio. Fodd bynnag maent wedi cytuno i gynnwys y ciosg yn eu rhaglen moderneiddio arferol er bod peth gwaith atgyweirio wedi ei wneud yn barod ar y ciosg yn ddiweddar.

Cynllun Chwarae '87: o ddeall bod Cyngor Arfon yn bwriadu cynnwys yr ardal yma fel rhan o'u cynllun chwarae ar gyfer y plant yn ystod gwyliau'r haf eleni mae'r Cyngor yn gobeithio sicrhau y bydd y bysus a drefnir i gludo plant i'r gwahanol weithgareddau adloniadol yn cychwyn o Ddinorwig. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod y plant yn cael pob cyfle posibl i ymuno yn llawn â'r cynllun yma. Gobeithiaf gysylltu a rhieni plant y pentref pan ddaw mwy o wybodaeth am y cynllun i law.

Arwydd DINORWIG: Bellach mae'n dda gallu adrodd bod arwydd yn dynodi DINORWIG wedi ei osod ger Groeslon Blaen Cae wrth droi i fyny am Ddeiniolen. Ystyrir bod arwydd o'r fath yn holl bwysig er mwyn rhoi ar ddeall i bawb tu allan i'r pentref bod Dinorwig yn bod!!!

Torri gwaith - llwybrau cyhoeddus: Yn ddigon teg mae rhai wedi bod yn gofyn pa bryd mae gwaith torri gwaith ar y llwybrau yn mynd i gael ei wneud? Yr ateb yw mai unwaith y

flwyddyn y mae'r gwair yn cael ei dorri ac felly mae'n bwysig peidio â gwneud y gwaith yn rhy fuan neu fe fydd wedi tyfu eto cyn diwedd yr haf. Cymerwch gysur y bydd y gwaith yn cael ei wneud o fewn yr wythnosau nesaf.

Pleidleisio: Fel y gŵyr pawb erbyn hyn golygodd y neiwdiadau ffiniau a fabwysiadwyd gan y Comisiwn

Ffiniau Brydeinig bod hanner pentref Dinorwig o hyn ymlaen yn gorfod bwrw eu pleidlais yn Neiniolen. Pan ddaeth hyn yn hysbys yna anfonais lythyr at Gyngor Arfon yn mynegi anffodlonrwydd llwyr ynglŷn â datblygiad o'r fath. Amgaeaf gopi o'r llythyr fel gwybodaeth i bawb. Wrth i'r Eco fynd i'r wasg nid oed ateb wedi dod oddi wrth Gyngor Arfon ynglŷn â'r mater:

COPI O LYTHYR Y CYNGHORYDD LLEOL YNGLŷN Â PHLEIDLEISIO

Pen y Bwlch, Dinorwig, Caernarfon. Annwyl Syr, Hoffwn ddatgan fy anffodlonrwydd llwyr ynglŷn â'r ffaith bod hannerpoblogaeth pentref Dinorwig yn gorfod mynd i Ddeiniolen i bleidleisio ar y 11eg o Fehefin 1987. 'Rwyf eisoes wedi cysylltu â rhai o'ch staff ynglŷn â hyn ac yr wyf yn hynod siomedig na ellir gwenud dim cyn dydd lau nesaf i sicrhau bod ardalyr y pentref yn cael pleidleisio yn lleol.

Dyma'r tro cyntaf erioed i'r sefyllfa yma godi ac mae trigolion y pentref wedi cael eu ffyrnigo a'u brifo gan y penderfyniad yma - gymaint felly fel bod nifer helaeth ohonynt wedi penderfynu nad ydynt am bleidleisio tro yma ac mae hyn yn eu tristau yn fawr. Maent yn teimlo bod eu hawl sylfaenol wedi cael ei gymryd oddi wrthynt a bod hyn yn enghraifft pellach o bobl y pentref yn cael eu hamddifadu o wasanaeth o fewn pentref eu hunain. Rhaid cofio hefyd mai cyfeirio ydym at bobl mewn oed ac nid ar chwarae bach y maent yn

gallu fforddio mynd i Deiniolen i bleidleisio. Yn sicr mae hwn yn benderfyniad cwbl hurt a di-angen heb unrhyw ystyriaeth wedi cael ei roi i deimladau a sefyllfa pobl yr ardal.

Apeliad atoch i newid y penderfyniad a sicrhau bod hawl y pentrefwyr i bleidleisio yn cael ei adfer. Methaf â deall paham na ellir gwneud hyn gan mai sôn ydym am 50-75 o bobl ac mae'n anodd gweld sut y byddai hynny yn golygu newidiadau mawr yn y trefniadau sydd eisoes wedi cael eu gwneud. Mae'n siŵr y cytunwch mai pris bach iawn yw hyn i dalu am y pris drud a dalwyd i sicrhau bod pobl yn cael cyfle i bleidleisio.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich ateb positif ynglŷn â'r mater yma fel y gallaf ddweud wrth y trigolion lleol eich bod fel swyddogion etholiadol wedi gweithredu yn anrhydeddus a sicrhau yr hawl iddynt bleidleisio yn lleol.

Yn gywir iawn, Cyngorydd Glyn Tomos.

PWYLLGOR APÊL LLEOL - Eisteddfod yr Urdd, Dyffryn Nantlle ac Arfon 1990. Hoffai'r pwyllgor ddiolch i Mr Meirion Thomas, 1 Bro Elidir, am gasglu £42 fel canlyniad i daith gerdded noddedig a wnaeth i ben y Wyddfa yn ddiweddar. Mae'r cyfraniad yma gan Meirion yn dangos pa mor bosibl ydyw os rhoddwn ein meddwl arni i ymgyrraedd at nod ariannol sydd wedi cael ei roi i ni fel pentref. Mae'r pwyllgor wedi trefnu taith noddedig ar gyfer dydd Sadwrn - Awst 1af. Bydd y daith yn cychwyn o Ty'n Fawnog am 10.00 - drwy'r chwarel ac i Nant Peris cyn cerdded yn ôl wedyn i Ddinorwig drwy Lanberis. Yn ogystal â bod yn gyfle i godi arian mae'r daith ei hun yn bleserus. Felly braf o beth fyddai gweld cynifer ohonoch ac sydd yn bosibl yn dod gyda ni ar y daith. Ein bwriad yw cael picnic ar y ffordd yn Nant Peris. Felly diwrnod iawn i'r teulu i gyd. Mae'n bosibl i chwi gael ffurflen noddi drwy gysylltu â aelodau o'r pwyllgor. Po fwyaf ohonom fydd yn cerdded - mwyaf byd o arian a gasglwn. Os nad ydych



LLun: Mr Meirion Thomas yn cyflwyno sicr am y swm o £42 i Mrs Margaret Jones, Cadeirydd Pwyllgor Apêl Lleol o Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Dyffryn Nantlle ac Arfon 1990.

yn gallu dod yna bydd rhai o blant y pentref yn dod o gwmpas yr ardal yn ystod yr wythnosau nesaf i chwilio am noddwyr. 'Rydym yn ffyddiog fel pwyllgor y byddwch fel pentrefwyr yn hael eich cefnogaeth fel arfer.



LLun: O'r chwith i'r dde: Dafydd Wyn; Iwan ac Arwyn, yn dangos eu tystysgrifau a gyflwynwyd iddynt yng Ngŵyl Gorawl Eryri a gynhaliwyd yn Eglwys St. Padarn, Llanberis yn ddiweddar. Mae'r tri yn aelodau ffyddlon o Ysgol Sul St. Mair.

Aled Jones
Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio
4 Bryn Eglwys
Penisarwaun
Ffôn: Llanberis
871047

TAN-Y-COED

Gohebydd: Miss Megan Humphreys, CROESO CYNNES i'n plith i Mr a Mrs Price Edwards, sydd bellach wedi cartrefu ym Mryn Cwil. Pob bendith arnynt yn eu cylch newydd.

CROESO CYNNES a phob dymuniad da hefyd i Mr Glyn Williams, yntau newydd gartrefu yn ein bro. Mr Williams wedi dod i fyw i Fwthyn Tan-y-Coed yn ddiweddar.

GWELLA: Da cael croesawu adref Michael Williams, Cartref. Cipiwyd Michael yn sydyn i Ysbyty Gwynedd, ond erbyn hyn mae wedi gwella'n ddigon da i gael dod adre. Parhaed i wella.

CROESO ETO: Yn ddiweddar apwyntiwyd Mr a Mrs Alan Williams o Fethel yn ofalwyr Capel Tan-y-Coed MC, a bellach maent wedi dechrau ar eu gwaith. Croeso i Mr a Mrs Williams, Derfel a Celyth i'n plith. Pob bendith arnynt hwythau yn eu cylch newydd.



Mr a Mrs John Humphreys, Caer Maen yn dathlu eu priodas Euraidd.

DYMUNA Mr a Mrs John

Humphreys, Caer Maen, trwy gyfrwng Eco'r Wyddfa, ddiolch i'w cyfeillion am y dymuniadau da a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu Priodas Euraidd yn ddiweddar. Diolch yn fawr i bawb a'u cofiodd.

DYMUNIADAU DA'R ARDAL i Mr a Mrs Reegan, Bryn Cwil a'r teulu ar eu hymadawiad i gylch Minffordd i fyw. Er nad ydynt yn mynd ymhell bydd chwith eu colli o'r fro hon.

COFION: Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am adferiad buan i Mrs Jennie Hughes, Oerddwr sydd wedi derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd ac yn gwella'n foddhaol.

LLONGYFARCHIADAU i Alwena Roberts, 4 Tai Minffordd ar gael swydd yn Ffatri Laura Ashley yng Nghaernarfon. Pob llwyddiant a hapusrwydd iddi i'r dyfodol.

LLWYDDIANT: Cynhaliwyd cyfarfod gwobrwyd dan nawdd Ysgolion Sul Henaduriaeth Arfon yn Theatr Seilo, Caernarfon nos Fercher, Mehefin 10.

Heblaw gwobrwyd'r plant a eisteddodd yr Arholiad Sirol, gwobrwyd hefyd y plant wnaeth y cyweithiau oedd yn cael eu harddangos ar y noson.

Ymhlith y plant wobrwyyd am eu gwaith yn yr Arholiad Sirol o Dan-y-Coed oedd:

Dan 9 oed: Beverley Ann Roberts;

Dan 14 oed: Annwen Parry, John Elwyn Jones, Mark Wyn Jones, Tudor Wyn Jones ac Aled Parry. Llongyfarchiadau iddynt.

meddygon am eu gofal. Diolch hefyd am y swm anrhydeddus o £820 at Gronfa Scanner Ysbyty Gwynedd.

LLONGYFARCHIADAU i David John Pritchard, Llys Awel ar ddod yn ail yng Nghystadleuaeth y Gadair yn Eisteddfod yr Urdd ym Merthyr Tydfil. Da iawn David, dalier ati.

PENBLWYDD: Gobeithio i Mrs Elizabeth Closs Roberts, Tan y Bryn gael penblwydd hapus pan yn dathlu ei 86 oed ar Fehefin 8ed. Mae hi yn un o'r rhai hynaf yn y Nant, a dymunwn lawer un eto iddi.

DYMUNA Mrs Ann Jones, Glendale, Nant Ffynnon benblwydd hapus i'w merch sef Mrs Rita Wyn Morris a fydd yn dathlu ei 21ain ar Orffennaf 24. Llongyfarchiadau i Rita hefyd ar enedigaeth ei merch fach Ceri Bryn.

CARNIFAL: Bydd Carnifal y Nant yn cael ei gynnal Nos Wener 24 o Orffennaf am 6.30. Bydd yr orymdaith yn cychwyn oddi ar y bont. Yn ystod y noson bydd ras hwyliog a llawer o stondinau ar y cae. Os oes rhywun am gyfrannu mewn nwyddau neu arian, cysylltwch â Mrs Margaret Ellis, Mrs Theresa Jones neu Mrs M Roberts.

BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580

CARTREF NEWYDD: Ein dymuniadau gorau i Christine Jones, 5 Trem Eilian sydd wedi ymgartrefu yn 'Golygfa'r Wyddfa' un o dai annedd yn y pentref a adnewyddwyd yn ddiweddar gan Gymdeithas Tai Eryri. Dymuna Christine ddiolch am bob cymroth a charedigrwydd ddangoswyd tuag ati yn ystod yr ymfudo.

ETHOL BLAENORIAID: Fore Sul, Mai 31ain gyda'r Parch Trefor Lewis, Deiniolen yn gwasanaethu etholwyd Mr Dafydd Glyn Ellis, Mr Gwyn Hefin Jones, Mrs Jennie Roberts a Miss Lowri P Roberts yn flaenoriaid yn Eglwys M.C. Brynrefail. Cynorthwywyd yn y gwaith gan Mr Dafydd Lloyd Hughes, Dinrowig. Cynhelir y cyfarfod arbennig i Ordeinio Blaenoriaid dan nawdd Henaduriaeth Arfon nos Iau, Gorffennaf 16eg yn Eglwys Brynteg, Bethesda.

PROFEDIGAETH: Cydymdeimlwn yn ddwys fel pentrefwyr â theulu y ddiweddar Mrs N F Williams, Hafan Elan, Llanrug (gynt o Glanffwrdd) yn eu profedigaeth. Bu farw Mrs Williams wedi cyrraedd yr oedran teg o naw deg, ddydd Llun, Mehefin 15ed. Yr oedd wedi ei geni a'i magu yn yr ardal ac yn naturiol felly yn un â pharch neilltuol i bentref Brynrefail lle trigodd am dros bedwar ugain mlynedd. Meddai ar gymeriad cryf, yn ddeallus yn ei hymgom a chanddi ddiddordeb enfawr yn yr hyn a âi ymlaen yn y pentref. 'Roedd ganddi edmygedd arbennig i waith y

gwahanol gymdeithasau lle bu ei chefnogaeth yn frwd yn arbennig felly yn y capel. Nid rhyfedd felly mai yng Nghapel M.C. Brynrefail y bu ei harwyl ddydd Gwener Mehefin 19eg ac yna ym mynwent Llanddeiniolen. Gwasanaethwyd gan y Parchedigion John Morris a W.O. Roberts, Llanrug.

YR HELFA DRYSOR: Treuliwyd noson a brofodd yn llwyddiant eleni eto, nos Sadwrn, Mehefin 30ain yn yr Helfa Drysor a drefnwyd gan Mr a Mrs Eryl Davies, Bryn Madog. Teithwyd drwy'r Ffathen i Ddinorwig, yna trwy Ddeiniolen, Penisarwaun a Llanddeiniolen cyn mwynhau lluniaeth ar derfyn y daith ym Mwyty Tŷ Golchi. Yr enillwyr oedd teulu Cae Coch. Aeth yr ail wobwr i deulu Mr Islwyn Jones, 3 Trem Eilian a'r drydedd wobwr i deulu Mr Gwyn Mowll, Bryn Llwyd.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Yng nghyfarfod y mis ar Fehefin 15ed, croesawyd Mrs J Ashead i'r gangen i roi adroddiad o'r Cyfarfod Blynnyddol yn Llundain. Diolchwyd iddi gan Mrs Jean Davies. Cydymdeimlwyd â theulu'r ddiweddar Mrs N F Williams, Glanffwrdd gynt, a oedd yn un o sylfaenwyr Sefydliad y Merched ym Brynrefail. Bydd nifer o'r aelodau yn cymryd rhan nos Wener, Mehefin 26ain, yng Nghriccieth yn y cyflwyniad 'Ein Hetifeddiaeth Ni' mewn portread o'r Santes Dwynwen. Cyhoedwyd y bydd Trip Dirgel yr aelodau Nos Lun, Mehefin 29ain, yn cychwyn am 6.30.

NANT PERIS

Gohebydd: Mrs Mary Ff Roberts, Cerrigydrudion.

Ddydd Gwener, Mai 15eg, bu farw Mr Owen Humphreys, Gwastadnant. Roedd wedi byw yn y Nant ar hyd ei oes ac yn hynod o falch o'i ddyffryn genedigol. Dangosodd hyn trwy ei ffyddlondeb ar y Cyngor Cymuned am flynyddoedd. Bu yn flaenor ac yn drysorydd Capel Rehoboth am flynyddoedd lawer, a'r achos yno yn agos iawn at ei galon. Bydd colled fawr i'r Nant ar ei ôl. Roedd yn aelod o Glwb Eryri ac yn gyn-lywodraethwr Ysgol Dolbadarn. Derbyniodd dystysgrif y Royal Humane Society ar Vellum yn Rhagfyr 1966 am ei ddewrder yn ceisio achub ei gydweithiwr yn Chwael Dinorwig. Bu'r angladd ddydd Mercher, Mai 20ed, yng Nghapel Rehoboth, ac yn dilyn ym Mynwent Nant Peris. Roedd y nifer cyfeillion daeth i dalu'r gymwynas olaf yn tystio i'w boblogrwydd yn yr ardal. Dymuna Betty a Helen ddiolch yn ddiffuant am bob caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt, ac i'r gweinidogion a'r

APÊL ARBENNIG EGLWYS CRIST LLANDDINORWIG

Mae Apêl Arbennig wedi cael ei lansio tuag at gost y gwaith sydd yn cael ei wneud ar Eglwys Crist Llanddinorwig.

Gwnaed archwiliad ar yr Eglwys ym mis Awst 1984 gan Bensaer yr Eglwys, pryd y darganfuwyd bod angen gwario llawer iawn o arian arni, gan fod rhai o lorïau pren yr Eglwys wedi dechrau pydru, bod rhaid gwneud gwaith ar ei thŵr, a llawer iawn o waith arall. Bu raid symud ymlaen yn syth yr adeg hynny i wneud y gwaith angenrheidiol ar y tŵr a gostiodd tua £3,000.

Ers pan werthwyd adeilad yr hen Ysgol Llanddinorwig a'r Ficerdy, bu yn ddigon anodd cynnal gweithgareddau a phwyllgorau o fewn y Plwyf am nad oedd Ystafell Eglwysig ar gael. Felly, penderfynwyd gan y Cyngor

Plwyfol Eglwysig bod angen Ystafell Eglwysig ac aed ati i gael cynlluniau i gael gwneud un yng nghefn yr Eglwys.

Dechreuwyd ar y gwaith yma yn Ionawr eleni a phan fydd y gwaith wedi ei gwblhau, bydd organ newydd yn cael ei rhoi i mewn.

Mae'r gwaith yn cael ei wneud gan yr M.S.C. a disgwylir ybydd wedi costio oddeutu £10,000 pan fydd pob peth wedi ei wneud. Anelir at gael ei hail agor ym mis Medi eleni pan fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 130 oed, ac y bydd yr Eglwys ar ei newydd wedd, ac yn unigryw yn y rhan yma o Gymru.

Efallai bod yna rai o ddarlennwyr yr Eco sydd â chysylltiad â Eglwys Llanddinorwig yn hoffi cyfrannu tuag at yr Apêl yma, os oes, Mr C Brian Price, 14 Hafod Olau, Deiniolen yw Trysorydd yr Eglwys.

**WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR
E. PUGH
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394**

**Wavell
Roberts
CIGYDD
LONDON HOUSE
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!**

**TAC SIS
AMBERLINE
BETHEL
UNRHYW AMSER • UNRHYW BELLTER
Ffôn: (93) 670555**

DEINIOLEN

GOHEBYDD: W O Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

MERCHED Y WAWR: Nos Lun, Mai 18ed, dan lywyddiaeth Mrs Eirlys Williams cafwyd cyfarfod o'r Gangen. Y siaradwraig oedd Miss Ellen Wyn Jones, Dinorwig. 'Roedd yn sôn am ddyddiau ysgol ei mam 80 o flynyddoedd yn ôl, a mwynhawyd y sgwrs yn fawr. Diolchwyd i Miss Jones, gan Mrs Ellen Williams, Bwthyn a'r llywydd. Rhoddwyd y te gan Mrs Beti Jones, Mrs Peri Evans a Mrs Kathleen Davies, ac enillwyd y raffl gan Miss Nancy Owen.

Bu cyfarfod blynyddol ar Nos Lun Meh. 15ed. gyda Mrs Eirlys Williams, yn y gadair. Cafwyd mantolen am y flwyddyn gan Mrs Marian Wyn Williams, Tai Caradog a diolchwyd yn gynnes iddi am ei gwaith ers dros 10 mlynedd o amser. Trafodwyd materion y Mudiad, a threfnwyd taith ddigrl ar Gorff 10ed, yng ngofal Mrs Jane Jones a Mrs Nancy Morris. Dewiswyd swyddogion newydd am y flwyddyn sef: Mrs Marian Lewis yn llywydd; Mrs Eirlys Williams yn ysgrifennydd, a Mrs Marian Wyn Williams yn Drysorydd. Mrs Alice Griffith a Mrs Nan Jones fu yn cyfrif y pleidleisiau, diolchwyd iddynt gan Mrs Eirlys Williams. Rhoddwyd yte gan y pwyllgor, ac enillwyd y raffl gan Mrs Beti Wyn Davies.

LLONGYFARCHIADAU: i Mared Wyn Sutherland am ddod yn drydydd yn yr arholiad sirol dan bedair ar ddeg oed.

DIOLCH: Dymuna leu a Nia 'Cartref', Rhes Cynfi, ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a'u cymdogion am y llu cardiau, arian ac anrhegion a dderbyniodd eu merch fach Jennie Lyn tra oedd yn cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Diolch hefyd yn arbennig i Staff Nyrs Iola Owen, Llanberis, Nyrsus a'r Meddygon yn Ward Enlli am eu caredigrwydd a'u gofal am Jennie Lyn.

Dymuna Aurwyn ac Elan, 15 Hafod Oleu, ddiolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd i Bethan tra bu yn Ysbyty Gwynedd, ac hefyd i Staff Ward Minffordd.

CLWB ELIDIR: Cafwyd cyfarfod ar y 26 o Fai dan lywyddiaeth Mrs Miriam Lewis. Y wraig wadd oedd Mrs Gwladys Evans, Swn yr Awel. Bu yn sôn am ei dyddiau cynnar yn Ninorwig, a chafwyd ganddi adroddiadau o'i gwaith ei hun. Diolchwyd iddi gan Mrs Ellen Williams ac amryw o'r chwiorydd. Mwynhawyd y sgwrs gymaint, fel y gofynwyd iddi ddod yn ôl ymhen pythefnos i ddweud ychwaneg o'i hanes. Cofiwyd am y cleifion ac eiddunwn iddynt wellhad a brysio yn ôl atom. Rhoddwyd y te gan y Parchedig a Mrs Trefor Lewis. Enillwyd y wobwr gan Mrs J Woodcock.

Dydd Mawrth, Mehefin 9ed cafwyd cyfarfod dan lywyddiaeth Mrs Miriam Lewis. Mrs Gwladys Evans, fu yn cario ymlaen ei hanes am ei bro enedigol a mwynhawyd ei sgwrs yn fawr. Diolchwyd iddi gan y llywydd a Mrs Nancy Rowlands. Dymunwyd adferiad buan i'r cleifion a gobeithiwn eu gweled yn ôl yn fuan. Gwesteion y te oedd Mrs Gwladys Evans a Mrs Megan P Morris, ac enillwyd y wobwr gan Mrs B Parry. Dydd Mawrth Meh. 16 cafwyd cyfarfod cyffredinol, sgwrs a phaned, y te wedi ei roddi gan Mrs Sallie Lewis a Mrs H J Thomas. Diolchwyd gan y llywydd ac enillwyd y wobwr gan Mrs Katie Griffith, Dinorwig.

Dyd lau, Mehefin 18ed bu'r Clwb ar eu gwibdaith flynyddol, cafwyd cinio yng Nghonwy, ac yna ymlaen i Landudno a threulio pnawn difyr a sych yn y dref yna gartre trwy Betws y

Coed a dyffryn Llanberis ac oedi ychydig yn Nant Peris i edrych ar weithgareddau y ffilmio sy'n mynd ymlaen yn y chwarel. Cafwyd diwrnod da a phawb wedi mwynhau eu hunain. Dymunwn ddiolch yn fawr i'r cyfeillion a'n cynorthwyodd tuag at gyllid y clwb. Byddwn yn ail-ddechreu ym Mis Medi.

CYMORTH CRISTNOGOL: Llwyddwyd i gasglu £260 at waith Cymroth Cristnogol yn ystod wythnos arbennig Casgliad 1987, a dymuna Cyngor Eglwys Deiniolen ddiolch i'r pentrefwyr am eu cefnogaeth arferol. Yn ystod y deng mlynedd diwethaf mae'r Cyngor wedi anfon £2160.00 at waith Cymorth Cristnogol, ac mae'r diolch am hynny, wrth gwrs, i drigolion Deiniolen a Chlwytybont.

Y SEINDORF: Cynhaliwyd Cyngerdd Blynyddol llwyddiannus iawn y Seindorf yng nghapel Ebenezer, Nos Wener, Mehefin 19eg. Arweinydd y noson oedd Mr Gwyn Williams, Tregarth. Bu Mr Williams am flynyddoedd yn gweithio ym Mangor gyda Radio Cymru. Y gŵr gwadd eleni oedd Mr Bryan Smith (Solo Horn) sydd yn chwarae hefo Seindorf wll Glo Grimthorp, Swydd Efrog. Eraill a gymerodd ran yn y Cyngerdd oedd Einir Wyn Owen, Rhiwlas, sydd yn adnabyddus trwy'r fro am ei chanu; Mr Leslie Williams o Sir Fôn, adroddwr digrif ac enillydd Eisteddfod Genedlaethol. Un arall o Fôn, sef Miss Sharon Evans a gipiodd dair gwobr gyntaf yn Eisteddfod yr Urdd eleni ym Merthyr Tydfil. Rhai eraill o enillwyr Eisteddfod yr Urdd oedd Parti Cydadrodd Ysgol Gwaen Gynfi, y Seindorf leuenctid dan arweiniad Mr D W Williams. Hefyd y Seindorf dan arweiniad Mr Nicholas Childs.

Erbyn rhifyn nesaf yr Eco, bydd y Seindorf wedi cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Madog. Eu harweinydd proffesiynol y tro hwn fydd Mr Alan Lawton o Seindorf Fairy Engineering. Pob lwc i'r Seindorf yn yr Eisteddfod.

GUIDES: Mae Guides 1af Deiniolen wedi cael cryn drafferth yn ddiweddar i gadw'r mudiad ymlaen. Mae cynfier yr aelodau wedi gostwng o 24 i 8, felly am fod arian yn brin, penderfynwyd gwneud raffl, i dalu costau blynyddol y genethod. Dymunant ddiolch i Mr a Mrs Glyn Allen am eu rhodd. Enillwyd y raffl gan Mrs Woodcock, Maes Gwylfa.

LLONGYFARCHIADAU: i Emyr Thomas, 1 Tai Caledffrwd, Clwt y Bont ar ei lwyddiant gyda'r Brifysgol Agored. Barnwyd mai Emyr oedd y gorau o holl fyfyrwyr Cymru yn arholiad Gwyddoniaeth Sylfaenol y Brifysgol. Cyflwynwyd gwobr Ymddiriedolaeth Julian Hodge iddo gan Dr Harford Williams, Pennaeth y Brifysgol Agored yng Nghymru, mewn seremoni ym Mangor yn ddiweddar.

CYMDEITHAS CHWIORYDD YR OFALAETH UNEDIG DEINIOLEN: Nos lau, Mehefin 4ydd cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas y Chwiorydd yn Ffestri Disgwylfa. cymeryd y rhan arweiniol trwy weddi gan y llywydd Mrs Miriam Lewis. Yr ydym yn falch iawn fel chwiorydd o glywed fod Miss Kathleen Jones, Prenteg, Mrs M Hughes, 28 Rhydfadog, a Mrs Beti Hughes, Cryngae gartref eto ar ôl bod yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar, dymunir adferiad buan iddynt. Anfoner dymuniadau gorau hefyd am adferiad iechyd buan i'r oll o aelodau y dair eglwys sydd yn wael eu hiechyd yn eu cartrefi.

Ar Fai 5ed treuliodd nifer o chwiorydd y dair eglwys ddiwrnod difyr iawn yn Sasiwn flynyddol y

PLANT DEINIOLEN 1939



Dosbarth Ysgol Babanod Gwaun Gynfi, Deiniolen tua'r flwyddyn 1939. Anfonwyd y llun gan Glyn Williams, Pen-y-Cae, Wrecsam (Bryn Gro gynt) Yn y rhes ôl: Miss Katie Griffiths (Prif Athrawes); Hughie Arthur Jones, Richard Arfon Lewis, Bleddyn Evans, Eric Parry, Caradog Jones, ? , Hughie Jones. Rhes ganol: Helen Peris Jones, Jean Evans, Catherine May Jones, Maud Williams, Nan Roberts, Elizabeth Ann Williams, Lorraine Jones, Rhodwen Evans, Letitia Jones, Ann Mary Thomas, Gertrude Thomas, Brenda Roberts. Rhes flaen: ? , Jennie May Jones, Jennie Wyn Morris, Joan May Jones, Maureen Williams, Elsa Williams, Margaret neu Falmay Parry, Nan Williams. Yn eistedd ar y llawr: Robert Ellis Williams, Gareth Fellows, Glyn Williams. Tybed faint ohonoch all lenwi'r bylchau - Gol.

chwiorydd yn Rhuthun.

Ar Fehefin 6ed fe fu plant yr Ysgol Sul ar eu trip blynyddol. Eleni buont yn ymweld â Phorthmadog a Chwarel y Llechwedd, ac yr oedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn. Ar nos Sul Gorffennaf 5ed cynhelir Cymanfa yr henaduriaeth yng Nghapel Croes y Waun, Waunfawr. Mae bws wedi ei drefnu, ac os oes unrhyw un yn dymuno mynd a wnewch chwi roi eich henwau i ysgrifenyddion eich eglwys cyn gynted â phosibl.

Diolchir i Mrs Eirlys Williams a Mrs J Goldsworthy am roi y te y mis diwethaf.

Treuliwyd yr ail ran o'r cyfarfod trwy ddarlenn o'r Ysgrhythur, Penodau 1 a 2 o Lyfr yr Actau a Phenod 28 o'r Efengyl yn ôl Mathew a chafwyd trafodaeth ar y darlenniadau hyn.

Rhoddwyd y te am y mis hwn gan Mrs Beti W Davies a Mrs J C Hughes a diolchwyd iddynt.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar Nos lau Gorffennaf 2il. Estynnir croeso cynnes i chwi i ymuno â ni.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL: Cafwyd Cymdeithas lewyrchus iawn eto y flwyddyn hon.

Agorwyd gyda'r llywydd y Parch Eryl Blainey yn dweud ei hanes yn gweinidogaethu gyda'r Wesleaid. Mis Tachwedd, Mr John Grant Jones oedd yn sôn am ei waith yn y Llys. Yn Ionawr, Mr Hugh Hughes oedd yn siarad ar y testun 'Grawnsypiau'. Cafwyd swper yn Llanberis mis Chwefror gyda adloniant gan

aelodau'r Gymdeithas. Y Parch Elwyn Edwards, Caernarfon oedd y gŵr gwadd ym mis Mawrth. Mis Ebrill cafwyd noson ddifyr o gwis gan y Parch Trefor Lewis.

Edrychwn ymlaen at fis Medi pryd y perfformir drama gan Gwmni Llanberis. Ceir y manylion ymhellach ymlaen.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Fehefin 1af dan arweiniad Mrs Rita Parry Jones, y llywydd. Darllenwyd y llythyr misol gan Mrs Jones a'r cofnodion gan yr ysgrifennydd. Croesawyd y wraig wadd, sef Mrs M E Jones, Cricieth gan y llywydd. Cawsom noson ddifyr iawn gyda Mrs Jones yn sôn am dri chymeriad hynod. Diolchwyd i Mrs Jones gan Mrs Rita Parry Jones. Rhoddwyd y te gan Mrs Beryl Hughes a Mrs Marian Wyn Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs J Eirlys Williams. Dymunwyd gwellhad buan i Miss Delyth Wyn Price, merch Mrs Price a oedd yn yr ysbyty. Y mae y rhan fwyaf o'r aelodau yn mynd i Gricieth nos Wener, Mehefin 26ain i weld 'Ein Hetifeddiaeth' yn cael ei perfformio.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Orffennaf 6ed pryd y bydd Mrs J Eirlys Williams yn trafod y Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd yn Llundain ym mis Mehefin. Cynhelir 'Moes a Phryn' hefyd.

CLWB 200: Enillwyr Clwb 200 y Seindorf am fis Mehefin yw 1. £20: Mr R Williams, 3 Rhydfadog; 2. £15: Mr D W Evans, Stryd Gwledfa; 3. £10: Steven Thomas, Penisarwaun.



STRYD FAWR, DEINIOLEN Ffôn Llanberis 871210

Crefftau llechi: arlunwaith, clociau, calendrau, raciau llythyrau ac ati. Hefyd **crefftau lleol eraill:** crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol.

Arddangosfa o hen luniau chwarel.

A dewis rhagorol o Fideos i'w benthg

Hefyd yn Siop

FFYN A CHERRIG, STRYD FAWR, LLANBERIS

TALWRN Y BEIRDD

Colli fu hanes Llanrug yng nghystadleuaeth Talwrn y Beirdd wythnos hon yn y Rownd Gyn-Derfynol yn erbyn tîm y Sgeris o Fôn. Dyma gynnyrch tîm Llanrug.

1. Cwpled caeth i hysbysebu Talwrn y Beirdd:

Cyrchfan talog geiliogod
Hogia'r 'rwts' a'r geiriau od!

Tony Elliot

2. Pennill 4 llinell 'neges ar gerdyn post:

Annwyl bostmon, - paid cynhyrfu,
Natur ddynol yw busnesu!
Ond gwna siap i ddanfôn 'ngherdyn
Neu mi fydda'i adra i'w dderbyn.

Dafydd Whiteside Thomas

3. Englyn yn cynnwys y gair 'ofer' ddwywaith:

Yn ofer rwy'n troedio'r llwyfan, - O Dduw,
Mae'n o ddu 'ma rwan;
Oriau hir i ddygu'm rhan.
Ai ofer oedd y cyfan?

Iwan Roberts

4. Limrig yn cynnwys y gair 'dinosor':

Fe bedlodd Wil yn dalog
Ei feic o Glwyd i Glynog,
Ond yn yr hin
Fe deimlai'n flin,
A'i DIN O'SOR gynddeiriog.

Selwyn Griffith

5. Cywydd: Sgwrs rhwng dyn a'i gysgod

DYN: Heb raffu, wyt ti'n broffwyd
I'm dilyn, y llipryn llwyd?
CYSGOD: Nonsens - i bobman bensaer
Denaist ti, ond twll dan staer.
DYN: Yn fwrn bob Sadwrn a Sul
Anghofiaist am fy nghyfyl,
A hirlwm noeth, di-ddarlun
Ar y llawr tan fore Llun.
Hen lwynog, oes goleuni
'Ta nos ar yng nghwestiwn i?
CYSGOD: Yndw'n wir - mi ydw i'n dod,
Yn addfwyn i'r Eisteddfod.

John Roberts

6. Pennill telyn yn cynnwys y gair 'carreg':

Pan fo heulwen ar y brastir
Cyfri wna'f sawl carreg filltir,
Ond pan ddelo'r storm i'm poeni,
Carreg f'aelwyd fydd yn cyfri.

Twrog Jones

7. Cân (dim mwy na 20 llinell)
'Cadw dyddiadur':

Cadw Dyddiadur (ymson y di-waith):
Dyddiadur, dwed pa lws i mi
Fydd cadw cownt o'th ddyddiau di?
Maent wedi eu pritrno'n fan a thwt
A gwagle llydan wrth eu cwt:
Dydd Llun - dim byd.
Dydd Mawrth - 'run peth,
A'r lleill yn dilyn yn ddi-feth
O lonawr drwy'r dalennau plaen
I Ragfyr

- ac ymlaen
hwy ddechrau blwyddyn arall
wyd.
Dyddiadur - dywed im
Oes bwrpas mewn cofnodi 'dim'?

Dafydd Whiteside Thomas

8. Englyn Cywaith: Ysgol
Dirnaf yn nghamgymeriadau - a rydd
Im yr addysg orau;
O ris i ris rwy'n parhau
I fedd fy mhrofiadau.

Iwan Roberts

9. Parodi ar 'Llyn y Gadair':
(- neu 'Ymadawiad lan')
Ni wel y Sgowsar selog fyth mo'i well
Wrth edrych yn atgofus dros ei stad.
Mae mwy o sialens nawr tua'r Eidal bell,
Heb sôn am bres, 'dyw talent ddim yn rhad.

Gefnogwr ysig - hoffet chwipio'r gwr
Adawodd iddo fynd o glyw y Kop;
Dy arwr ydoedd, un a gerddai'n siwr
Ar ddyfroedd, do, cyrhaeddodd hwn y top.
Cans roedd yn ddewin a'i ddefflig sbid
Yn uffern i bob cefnwr, - i ti'n nef;
I dir gogoniant cododd di a'th frid
Yn ffrantigeiddio ar ei ddoniau ef:
'Does dim ond adlais siant drwy'r stand yn gwau

A dwyglwyd fawr maddeuant heb eu cau.

Twrog Jones

10. Hir a Thoddaid: Cof
Ynom mae cof sy'n hŷn na chofio
Hen gof yr hil, mor eiddil, sy'n treiddio
Trwy ormes hanes i'n cynnal heno
Yn awr ein hwy, cyn llithro yn angho'
I'r tranc, trwy grafanc y gro. Ein tarian
O edau arian mewn oes ddi-daro.

Tony Elliot

11. Cywaith Rhydd: Telyneg Dau
Bennill; 'Pridd'.
Dywedwch a fynnog, i lygad y bardd
Mae dail yn dadelfennu'r od o hardd;
Eu plisg yn disgyn nôl i'r winllan wâr
I gyfoethogi rhuddin priddyn âr.

Ac fel y sonia rhai am lwch, a llaid,
A baw, a maeddu dwylo yn ddiabaid,
Byseddaf a chusanaf i y tir
Pan ffrwydra glesni Mai o'r priddyn îr.

John Roberts

DAWSWYR YN GWERTHFAWROGI

Dyma ddau barti dawns werin Ysgol Gynradd Llanrug a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Merthyr ddiwedd Mai.

Ddydd Mercher Mehefin 24 buont yn perfformio mewn 'Noson o Ddawns' gyda lluo o ddawnsywyr eraill o bob rhan o'r sir yn Theatr Gwynedd, Bangor.

Mae'n amlwg i'r plant werthfawrogi'n fawr waith yr athrawesau a fu'n eu hyfforddi ac yn cyfeillio iddynt. Mewn seremoniau bychan, urddasol yn yr ysgol, cwbl annisgwyl i Mrs Anwen Owen, Mrs Heulwen Evans ac i Mrs Mair Lloyd Hughes cyflwynodd y plant roddion iddynt. Cynlluniwyd y cwbl gadddynt hwy.



Y Parti Dawns Werin dan 10 oed.



Y Parti Dawns dan 12 oed. yn y rhagbrawf ym Merthyr

DRAMAU NOS YM MHRIFWYL PORTHMADOG

Dylai dilynwyd dramâu fod ar ben eu digon yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni.

Yn Theatr Ardudwy, Harlech, nos Lun, Nos Fawrth a Nos Fercher, cyflwynir drama gomisiwn yr Eisteddfod, 'Perthyn', gan Michael Povey. Disgrifir y ddrama hon fel un feiddgar ac amserol. Mae'r thema yn trafod troseddau rhywiol yn erbyn plant o fewn y teulu - llosgach - ond gwna hynny yn eithriadol o gyfrifol a sensitif, ac heb fynd o'i ffordd i sicio meddai darllenwyr y script. Dywedir fodd bynnag, ei bod yn gwbl anaddas i blant dan 16 oed.

Am y tair noson arall yn Theatr Ardudwy bydd cwmni'r Eisteddfod yn cyflwyno 'Gwas i Ddau Feistr', sef

cyfieithiad gan William Paganuzzi a Huw Roberts o ddrmaa Eidaleg gan Carlo Goldoni.

Neuadd Goffa Cricieth yw un o'r ddwy ganolfan arall. Yno y bydd rowndiau terfynol y tair cystadleuaeth actio dramafer - y gystadleuaeth agored, yr un dan 30 oed a'r un dan 19 oed.

Nos Lun: Clwb Ffermwy'r Ieuainc Pontygarrig, 'Hust! Mae'r Babi'n Cysgu', J.R. Evans (dan 30); Cwmni Rhos y Gad, Llanfairpwllgwyngyll, 'Y Pwyllogor', D.T. Davies, (agored); Cwmni'r Llechen Las, Dyffryn Ogwen, 'Y Drws Agored', J.R. Evans (agored).

Nos Fawrth: Aelwyd Llangwm, 'Poen yn y Bol', Gwenlyn Parry (dan 30); Glannau Dwyfor, 'Mae Newid yn Chenj', William Owen (agored);

Cwmni'r Fwch Goch, Caerdydd, 'Yr Arth', Tsiecof, cyfieithiad Cynan (agored).

Nos Fercher: Ysgol Dyffryn Ogwen, 'Daw Priodas yn Fuan', Grace Roberts (dan 19); Ysgol Glan-y-Môr, Pwllheli, 'Newyddion Brys', Wilion John Hare, cyfieithiad Dilwyn Ellis Hughes (dan 19); Ysgol y Berwyn, y Bala, 'Cyfiawnder o Fath', cyfieithiad John Griffith Jones (dan 19).

Yn Neuadd Goffa Cricieth ar nos Iau, nos Wener, nos Sadwrn, cyflwynir 'Y Gŵr Llonydd', John Gwilym Jones gan

Gwmni Theatr Fach, Llangefni.

Theatr y Maes wrth gwrs yw'r drydedd ganolfan. Yno ar nosau Llun, Mawrth a Mercher bydd Cwmni'r Gadwyn, Caerdydd yn perfformio 'Pum Picil', cyfieithiad Emyr Edwards o 'Confusions', Alan Ayckbourne. Ac ar nosau Iau, Gwener a Sadwrn ceir Rifiw gan ieuencid o fro'r Eisteddfod. Bydd y sgriptio, y cynhyrchu a'r cyfarwyddo gan Margiad Roberts a Bryn Fôn.

AR WERTH

Radiogram Stereo GEC gyda 'Speakers'. Pris i'w drafod. Ymholiadau: Ffôn C'fon 5609 Tân trydan 2 far gyda ffrâm o goed. £25. Fel newydd.

MAE'R

SAMARIAID

YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

- Jig i Atgyweirio Cyrrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD
GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562



CAEATHRO

Gohebydd: Mrs Beryl Roberts, Gerallt Erw Wen (Caernarfon 670726).

CROESO ADREF: Y penwythnos diwethaf daeth adref i'n plith eneth sydd â'i bodolaeth yn cael ei gyfrif fel gwrth gan feddygon mawr y wlad. Ers Chwefror 5ed bu Sara Wallace Edwards, Maes-y-Coed, yn gorwedd yn ddiifrifol wael yn yr Ysbyty Frenhinol, Lerpwl, wedi ei tharog gan y salwch llid yr ymenydd. Mor gryf oedd gafael y salwch yma arni fel nad oedd gan y meddygon ddewis ond torri ymaith ei dwy goes o dan y pengliniau er mwyn achub ei bywyd. Ers hynny, mae Sara yn raddol wedi cryfhau, ac erbyn hyn rydym mor falch o weld yr hen Sara ddeniadol, addfwyn a dewr yn ôl yn ein mysg. Penwythnos yn unig a dreuliodd adref y tro hwn, penwythnos i geisio dygymod â'r newidiadau mawr fydd yn ei bywyd o hyn ymlaen. Mae ei rhieni, Margaret a Dewi, wedi gorfod addasu'r cartref er hwylusdod i Sara - lifft ar y grisiau, lledu drysau a rhoi bariau yma ac acw. Y cam nesaf i Sara fydd cael ffitio coesau newydd, hyn yn y dyddiau nesaf, ac ail-ddysgu cerdded arnynt. I unrhyw un, byddai hyn yn gryn gamp, ond ar ben hyn mae Sara yn benderfynol o fynd ymlaen â'i hastudiaethau i fod yn feddyg. Mae'n teimlo bod ei phrofiad hi yn mynd i fod o help i eraill yn y dyfodol. Ac o fod yng nghwmni yr eneth ddewr yma, cewch y teimlad nad oes unrhyw beth o gwbl yn amhosib, a dewch oddi wrthi'n teimlo'n wylaid a gostyngedig iawn.

SALWCH: Ysgytwyd y pentref unwiath yn rhagor bump wythnos yn ôl gan y newydd am salwch Gareth Glyn Jones, Llety'r Wrennol. Fe'i trawyd yn ddisymwth gan salwch â'i gadawodd yn ddiifrifol. Cafodd ei ben-blwydd yn 16 oed tra'n gorwedd yn wael iawn yn Ysbyty Gwynedd. Erbyn hyn 'rwy'n siŵr y bydd y pentrefwyr yn falch o glywed fod Gareth yn llawer gwell, ac yn rasio ar hyd a lled yr ysbyty yn ei gadair olwyn! Mae'n gallu cerdded ychydig erbyn hyn, ac mae'n gobeithio cael dod adref mewn rhyw bythefnos. Brysfa fendio Gareth.

Gwellhâd buan i'w nain hefyd, sef Mrs Cassie Hughes, Tŷ Gwyn, sy'n derbyn llawdriniaeth yn yr un ysbyty.

CYDYMDEIMLWN â theulu'r ddiweddar Mrs Olwen Jones, 3 Bryn Gof yn eu profedigaeth.

CLWB Y MERCHED: Cynhelir pwyllgor i sefydlu'r Clwb yn 'Gerallt', Erw Wen, nos Fawrth, Gorffennaf 7fed am 8 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb sydd â diddordeb

CAPEL Y PENTREF: Cynhelir gwasanaethau gan y canlynol yn ystod mis Gorffennaf:

Sul 5: Parch W O Roberts

Sul 12: Mr Albert Jones

Sul 19: Mr H Parry Jones

Sul 26: Mr Ifan H Williams

EISTEDDFOD YR URDD DYFFRYN NANTLE 1990: Cynhelir cyfarfod cyhoeddus yn y Ffestri am 7.30 yr hwyr nos Fawrth, Gorffennaf 14, er mwyn sefydlu pwyllgor apêl lleol ar gyfer yr Eisteddfod. Bydd cynrychiolaeth o Bwyllgor Gwaith

Dyffryn Nantlle yn bresennol. Taer erfynnir am gefnogaeth pawb o'r pentref.

ETHOLIADAU: Ar ôl etholiadau San Steffan a Chyngor Arfon eleni mae'n briodol eich atgoffa am eich cynrychiolwyr ar y gwahanol lefelau o lywodraeth a'u cyfroldebau a chyfeiriadau.

San Steffan - Dafydd Wigley A.S. Materion ynglŷn 7a Llywodraeth Ganol a'r Swyddfa Gymreig, yn cynnwys Nawdd Cymdeithasol, Budd-daliadau, Amaeth, Diwydiant, Cysylltwch trwy Swyddfa'r Blaid, Penllyn, Caernarfon.

Cyngor Sir Gwynedd - Cyng Harry Owen, Hillburn, Y Bontnewydd. Addysg, Cludiant Ysgol, Bysus, Gwasanaethau Cymdeithasol,

Llyfrgelloedd, Ffyrdd, Llwybrau Cyhoeddus, Safonau Masnach, Hybu a Datblygu'r Economi.

Cyngor Bwrdeisdref Arfon - Cyng Dic Jones, Waunfawr (85 555) Tai Gyngor, Cynllunio, Iechyd yr Amgylchedd, Casglu Sbwriel, Hamdden, Grantiau, Gwella tai.

Cyngor Cymuned Waunfawr - Cyng Ifor Hughes, Lleifiôr a'r Cyng Clive James, Hafan: Cymorthdali fudiadau lleol, Mynwent y plwyf, Barn ar geisiadau cynllunio a phwysau ar yr uchod ynglŷn â materion lleol.

POB LWC i Lois Angharad Roberts, Gerallt, ac Eirian Roberts, Sea View, fydd yn symud o Ysgol Gynradd Bontnewydd i Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon ym mis Medi. Hefyd Victoria Louise Morris, 10 Bryn Gôf, yn symud yno o Ysgol yr Hendre.

BEICWYR MEDRUS PENISARWAUN



Rhai o blant Ysgol Tanycoed, Penisarwaun yn arddangos eu tystysgrifau medrusrwydd mewn beicio

CROESO ADREF SARA



APÊL YR URDD 1990

Cyfarfu Pwyllgor Apêl Llanrug ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Dyffryn Nantlle a'r Cylch am y tro cyntaf ers ei sefydlu nos Fawrth, Mehefin 16 yn yr Ysgol Gynradd.

Mae'r gwaith o gasglu'r arian ar y gweill ac yn barod, diolch yn bennaf i'r rhai sydd wedi cyfodi, mae swm anrhydeddus mewn llaw. Os oes unrhyw un ym mhentref Llanrug angen gwybodaeth am gyfodi, sy'n ffordd ddidrafferth iawn o roddi cymorth ariannol, yna dylent gysylltu â Mrs Meirwen Lloyd, 15 Bryn Moelyn, C'fon 5359.

Yn ystod wythnos Carnifal Llanrug cynhelir dau weithgaredd; Nos Sul, Gorffennaf 5, am 7.15

Cymanfa Ganu yn y Capel Mawr yn cael ei threfnu gan yr Ysgol Gynradd. Ar gyfer dydd Sadwrn, Gorffennaf 11, sef diwrnod y carnifal, darperir stondinau amrywiol.

Ein diolch i swyddogion y carnifal am eu hawgrymiadau gwerthfawr a'u cydweithrediad.

Cafwyd nifer o awgrymiadau diddorol ynglŷn â gweithgarwch yr Hydref a'r gaeaf. Bydd mwy o drafod arnynt yn sicr yn y pwyllgor nesaf. Cynhelir hwnnw Nos Fawrth Medi 15 am 7 o'r gloch yn yr Ysgol Gynradd.

POB HWYL I CHWI DROS WYLIU'R HAF

W.H. JONES

TRYDANWR

**Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS**

**FFÔN:
LLANBERIS 871470**

Contractau
Weirio Tai

Cawodydd Trydan
ac ati

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestedig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd

Pen-blwydd ac ati,

Peis, Rholiau Sosej,

Pasteiod, Teisennau Hufen,

Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

LLYNNOEDD CUDD

Sut hwyl gawsoch chi ar rwydo'r pysgod yna fis diwethaf? Hawdd, medde chi. Reit 'ta! Beth am roi cynnig ar gartrefi rhai ohonynt - llynnoedd Arfon. Mae 20 ohonynt yn cuddio yn y patrwm. Dyma'u henwau:-

Ffynnonllugwy	Geirionnydd
Melynlllyn	Crafnant
Bochlwyd	Marchlyn
Cwellyn	Glaslyn
Eigiau	Llydaw
Cowlyd	Mymbyr
Padarn	Dulyn
Dinas	Conwy
Ogwen	Idwal
Peris	Elsi

F	V	I	V	S	B	A	R	F	O	G	Y	N	Y	H
S	G	E	L	L	E	N	Z	C	O	O	Y	A	A	B
L	L	Y	F	R	O	T	H	E	N	F	Y	A	V	H
I	V	M	L	F	J	E	P	P	F	R	J	H	Z	J
A	J	E	K	M	D	R	T	V	D	A	B	D	G	N
D	M	R	S	R	R	H	R	H	A	F	R	A	W	N
Y	T	F	N	D	A	Y	H	C	W	N	I	Y	Y	I
B	D	O	Y	C	E	S	U	O	T	E	T	W	N	W
W	A	G	C	U	N	D	F	G	E	H	H	H	I	E
T	R	M	L	B	O	O	E	R	L	C	Y	N	A	S
G	S	O	I	B	G	K	L	O	L	R	L	E	D	M
P	E	K	P	B	Y	L	L	T	N	A	L	P	N	T
Z	N	E	Y	H	N	X	C	E	E	W	B	L	A	T
W	D	W	E	O	G	Y	Z	F	P	G	D	D	H	L
G	R	W	D	Y	G	O	N	Y	W	L	L	H	G	M

CLWB CODI PWYSAU PWER DINORWIG

Ym mis Ebrill eleni, cynhaliwyd Pencampwriaeth Codi Pwysau Pŵer Gwynedd a Chlwyd yng Nghanolfan Dinorwig am y tro cyntaf erioed.

Gwynedd fu'n fuddugol mewn gornest frŵd, gydag aelodau'r Clwb lleol yn amlwg ymysg yr enillwyr.

Mewn gornest ardderchog, fe dorwyd record Ieuencid Cymru ar y sgwat gan Kevin Walters yn y dosbarth dan 40Kg, gyda chyfanswm o 210.5Kg. David Lambert ddaeth yn ail gyda chyfanswm o 187.5Kg a Kevin Cyster yn drydydd. Bu ef yn anffodus, gan iddo dorri record Ieuencid Cymru ar y 'Dead Lift' gyda 97.5Kg (214 a chwarter pwys), ond methodd deirgwaith ar y sgwat, ac felly ni chafodd gyfanswm.

Yn y dosbarth dan 44Kg, Rodney Collins ddaeth i'r brig, gan chwalu record Ieuencid Cymru ar y 'Bench Press' gyda chyfanswm o 177.5Kg. Darren Turner ddaeth yn ail iddo gyda chyfanswm o 127.5Kg. Daeth record Ieuencid Cymru ar y 'Bench Press' i Gwynant Maxwell hefyd, yn y dosbarth dan 48Kg. Ei gyfanswm ef oedd 215Kg. 182.5Kg oedd cyfanswm Melfyn Powell, a ddaeth yn ail iddo.

Mae'n werth cofnodi mai bechgyn o Ddeiniolen yw'r rhai a

enwyd uchod pob un, ond bachgen o Lanberis yw Eifion Griffiths, a ddaeth yn gyntaf yn y dosbarth 67.5Kg gyda chyfanswm o 342.5Kg.

Yn ôl i Ddeiniolen eto, a Len Jones ei hun, hyfforddwr y Clwb ddaeth i'r brig yn y dosbarth 67.5Kg i oedolion gyda chyfanswm o 497.5Kg, a Gerwyn Jones yn ennill y dosbarth 75Kg, ei gyfanswm ef yn 517.5Kg.

Daeth Raymond Jones o Gricieth yn gyntaf hefyd gyda chyfanswm o 535Kg yn y dosbarth 82.5Kg.

Carai'r Clwb ddiolch o galon i Mr Ieuan Williams, Deiniolen Motors am ei haelioni tuag at dalu am y tlysau a gyflwynwyd i'r enillwyr. Diolch hefyd i Mrs Lillian Jones a Clarice Roberts am wneud y te! Diolch hefyd i'r cefnogwyr, (tua 130) fu'n gwyltio'r cystadlu.

SNWCER



Mr Hefin G. Jones yw pencampwr Snwcer Seindorf Arian Deiniolen am eleni. Gwelir ei lun uchod gyda'i 'reolwr', Mr Andro Griffiths.

Ddydd Sadwrn, Gorffennaf 25ain, bydd Dafydd Wigley A.S. ynghyd ag aelod o Gyngor Chwaraeon Cymru yn bresennol yn agoriad swyddogol Ystafelloedd Newid, Clwb Pêldroed Llanrug. Dilynnir y seremoni gan de parti ac yna gêm rhwng timau dan 12 oed Llanrug a Bontnewydd. Cynhwysir adroddiad a lluniau yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

CYNGHRAIR PÊLDROED DAN 14 OED

Nos Iau, Gorffennaf 2il cynhelir Cyfarfod Blynnyddol Cynghair Gwyrfa. Llu o'r ystyriaethau a drafodir yn y cyfarfod fydd trefniant oedran y gwahanol gynghreiriau. Ar hyn o bryd mae dau grŵp oedran - dan 12 oed a dan 16 oed. Mae posibilrwydd o sefydlu Cynghair ychwanegol i rai dan 14 oed - os ceir digon o dimau, ac os na fydd hynny'n debygol o effeithio ar y ddwy Gynghrair arall. Ni fydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud nos Iau, a gofynnir ar i bawb sydd â diddordeb mewn cynnal tîm dan 14 oed gysylltu â'r Ysgrifennydd, Noel Williams, 21 Stryd Eleanor, Caernarfon. (Ffôn: 76255).

CARTREF PRESWYL HENOED



**BRON
ERYRI**

LLANBERIS, Ffôn:
870142 neu 870391



- Stafelloedd sengl a dwbl
- Gofal 24 awr
- Gwres canolog trwy'r adeilad
- Yr holl staff yn siarad Cymraeg
- Golygfa hardd
- Lift at bob stafell sy' ddim ar y llawr gwaelod
- Rhagofalon tân priodol
- Lolfa teledu lliw
- Pwyntiau teledu ym mwyafrif y lloffttydd
- Bath-medic

Ymholiadu i Mr a Mrs A.W. Hughes
(perchnogion)

neu Mrs. Eirian Mali S.R.N. (Metron)

AELWYD GARTREFOL

Cofrestrwyd gan Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd



Mr Ieuan Williams yn cyflwyno tlysau i Len Jones a Kevin Walters.

CHWARAEON

MARCHOGWRAIG O FRI

Mae merch a fagwyd yn ardal yr Eco wedi dod yn un o brif hyfforddwyr marchogaeth ceffylau yn Ne-Ddwyrain Lloegr.

Treuliodd Carol Anne Jones, 25 oed, ei dyddiau cynnar ym Mhant Clyd, Tan-y-Coed ac fe'i haddysgwyd yn ysgol gynradd Llanrug ac yna Ysgol Brynrefail. Merch ydyw i Selwyn a Mary Jones a chwaer i Linda. Mae'r teulu yn trigo yn awr yn Llanfairpwllgwyngyll, Ynys Môn.

Ychydig dros dair blynedd yn ôl fe apwyntiwyd Anne yn brif hyfforddwraig Canolfan Farchogaeth Colne Valley ger Colchester. Mae Colne Valley yn enwog fel canolfan i'r rhai hynny sy'n awyddus i eistedd arholiad y *British Horse Society*; yn fan meithrin llawer o hyfforddwyr yn ardal East Anglia. Yn ogystal, mae'r ganolfan yn gyfrifol am redeg cynllun Hyfforddi Ieuencid Gogledd Essex. Tipyn o gyfrifoldeb felly i ferch mor ifanc. Yn amlwg mae Anne yn cael y gwaith wrth fodd ei chalon.

Dywed y perchennog, Mr Mike Roberts am Anne "Mae hi'n hyfforddwraig wir broffesiynol, yn farchogwraig wrth reddf ac wedi rhoddi Colne Valleu ar y map." Mae Anne yn gyfrifol am yr holl hyfforddi marchogol ac mae ganddi staff o saith yn gweithio iddi. Mae deugain o geffylau yn cael eu cadw a'u gwarchod yn y ganolfan.

Ar ôl gadael yr ysgol cafodd Anne ei derbyn i Goleg Amaethyddol Prifysgol Cymru, Aberystwyth ond erbyn hyn yr oedd ei hoffter a'i chariad tuag at geffylau yn dod yn amlwg iawn, a'r pryd hynny y sylweddolodd fod yn rhaid iddi ymroi i'r gwaith o ddifrif a'i wneud yn yrfa. Aeth am

hyfforddiant i Ganolfan Marchogaeth Northfield, St Helens ac yno llwyddodd i basio arholiad y *British Horse Society Assistant Instructor*. Dilynodd hyn drwy basio dwy arholiad ychwanegol i'w gwneud yn *B.H.S.I. Intermediate Instructor*. Yna yn ddiweddar pasiodd *Y B.H.S. Stable Manager*. Mae hyn yn ei gwneud yn brif hyfforddwraig ac yn ei galluogi i hyfforddi timau marchogaeth rhyngwladol.

Braint felly, fydd ei chael i hyfforddi mewn cwrs marchogaeth yn ôl yn ei hen gynefin ar gaeau Pant Hywel, Penisarwaun ar Awst 17 ac 18 eleni.

Arwel Jones



PYSGOTA

Adroddiad H P Hughes

Ddechrau'r ail wythnos ym Mehefin cafwyd glaw trwm a gwelwyd yr afonydd i gyd bron a thorri eu glannau. Rwy'n siŵr fod y mwyafrif yn falch o weld fod y clirio a wnaed gan y Bwrdd Dŵr yn Stablau wedi arbed gorlifiad.

Gyda'r cyflenwad dŵr, buan iawn y dechreuwyd dal yr eog a'r sewin. Ni fu dal mor gynnar a hyn yn y tymor ers blyneddau lawer, tybed ai dyma ganlyniad gwahardd y rhwydau masnachol a ddefnyddiwyd hyd at y tymor yma yn aber y Seiont.

Dyma'r pysgotwyr llwyddiannus: Daeth eogiaid i Gareth Jones, Bethel, - 10 pwys; Goronwy Morris, Llanrug, - 9 pwys; James Carr, Llanrug - 5 pwys a hanner; Sewin i Cecil Hope, Caernarfon - 4 pwys a hanner; A Ginsberg, Bethel - 6 phwys, a minnau un am 5 pwys a chwarter.

Ar y Llyfni does ond sôn am ddau eog, sef un yr un i Will Morris, Carmel - 8pwys a hanner a Maurice Craig, Llanllyfni - 9 pwys.

Ar y Sadwrn, 20fed o Fehefin, cynhaliwyd diwrnod o hyfforddiant mewn pysgota plu ar Lyn Cwellyn. Roedd gwahoddiad i bawb, yn aelodau neu beidio a bu'n ddiwrnod llwyddiannus iawn gyda rhyw hanner cant yn cymeryd mantais. Diolch i aelodau pwyllgor adloniant y gymdeithas am drefnu'r fenter.

TLWS ECO'R WYDDFA

Cynhelir y gystadleuaeth flynyddol am Dlws Eco'r Wyddfa am y tro cyntaf eleni yn ystod wythnos gweithgareddau Carnifal Llanrug - ar gae pêl-droed y pentref, Eithin Duon. Cystadleuaeth ydyw i dimau pêl-droed 7-bob-ochr, o oedran cynradd, cyfyngedig i bentrefi bro'r Eco.

Felly, y dyddiad i wneud nodyn ohono yw nos Wener, Gorffennaf 10 am 6.30 o'r gloch. Edrychwn ymlaen am wledd o bêl-droed a chefnogaeth deilwng. Darperir lluniaeth ysgafn.

Enwau'r timau sy'n bwriadu cystadlu i'r Golygydd Newyddion Cyffredinol erbyn 5.00 o'r gloch nos Iau, Gorffennaf 9 os gwelwch yn dda.

Mwy o chwaraeon ar dudalen 19

CARNIFAL LLANBERIS

★★★★★★★★★★★★★★★★★★★★

Nos Sul Gorffennaf 12

Capel Coch 8.00 o'r gloch

NOSON O GÂN

gyda

Chôr Meibion y Penrhyn

(Arweinydd: Alun Llwyd)

Unawdydd: Carys Edwards

Organyddion: Hugh Peris Pritchard

a Mrs Iona Jones

Mynediad £1; Plant 50c.

Nos Lun Gorffennaf 13

GYRFA CHWIST

am 7 o'r gloch

Mynediad 60c

CYSTADLEUAETH PŴL

Clwb y Lleng Brydeinig am 8 o'r gloch

Nos Fawrth Gorffennaf 14

MABOLGAMPAU

Ddôl y Goeden am 5.45 o'r gloch

Mynediad am ddim

CYSTADLEUAETH CWIS

Gwesty'r Prince of Wales

am 8 o'r gloch

Nos Fercher Gorffennaf 15

CYSTADLEUAETH DDARTIAU

Gwesty Dolbadarn am 8 o'r gloch

DISCO PLANT IAU

Y Ganolfan am 6 o'r gloch

Mynediad 20c

DISCO PLANT HŶN

Y Ganolfan am 8.00 - 10.30

Mynediad 30c

Nos Iau Gorffennaf 16

PÊL-DROED 5 yr OCHR a PÊL RWYD

Ddôl y Goeden am 6 o'r gloch

Mynediad am ddim

Nos Wener Gorffennaf 17

BINGO

Y Ganolfan am 7.30 o'r gloch

★★★★★★★★★★★★★★★★★★★★

Sadwrn Gorffennaf 18

Y CARNIFAL

Yr Orymdaith yn gadael y Swyddfa Bost

am 12.30 o'r gloch

RAFFL FAWR '87

1. £50; 2. £30; 3. £20

a gwobrwyon gwerthfawr eraill

I'w thynnu ar y cae

Mynediad 50c

Plant a Phensiynwyr 25c

★★★★★★★★★★★★★★★★★★★★



RAS

YR WYDDFA

Cychwyn o Glan Bala am

2.30 o'r gloch